# Mynd i'r Afael â Llygredd Amaethyddol

## Adroddiad cynnydd gan is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol

**5 Ebrill 2018**

**Rhagair**

Mae Cymru wedi dangos arloesedd ac ymrwymiad i'r hirdymor drwy ei "Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015", sydd wedi'i henwi'n dda. 'Does bosib ein bod ni i gyd yn dymuno gadael y byd yn lle gwell. Mae pob ffermwr yn awyddus iawn i drosglwyddo fferm sy'n ffynnu i'r genhedlaeth nesaf, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gweithio'n galed i sicrhau hyn. Mae'r cymunedau y maen nhw'n byw a gweithio ynddynt yn allweddol i natur Cymru ac i genedlaethau'r dyfodol.

Fodd bynnag, mae cyhoeddiadau megis yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn dangos yn glir fod yn rhaid i ni wneud mwy i gyflawni ein hymrwymiadau i genedlaethau'r dyfodol. Mae'r llygredd yn ein hafonydd, ein dŵr daear ac ar ein tir, a achosir gan ychydig o achosion o lygredd yn y tarddle ac effeithiau gwasgaredig ehangach, yn annerbyniol, ac nid yw'n ffafriol i gynhyrchiant bwyd cynaliadwy yn yr hirdymor nac i iechyd ein bywyd gwyllt a'n pobl.

Mae is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol yn canolbwyntio ar gael gwared ar lygredd amaethyddol ac, yn fwy sylfaenol, ar sicrhau nad yw amaethyddiaeth yn atal dŵr glân rhag llifo o'n mynyddoedd a'n dyffrynnoedd.

Rydym yn cydnabod nad amaethyddiaeth yw'r unig beth sy'n achosi llygredd dŵr, a bod angen i bob un ohonom gymryd cyfrifoldeb dros fynd i'r afael â'r broblem hon. Caiff sectorau eraill eu herio hefyd i wella eu harferion, ond yma rydym yn ystyried sut i fynd i'r afael â'r llygredd a achosir gan amaethyddiaeth.

Mae'r rhan fwyaf o ffermwyr yn cynnal eu ffermydd mewn modd cyfrifol, gan gydnabod bod gofalu am y tir a defnyddio'r maetholion gwerthfawr a ddaw o'u da byw mewn modd doeth yn helpu tuag at gyflawni busnes sy'n dwyn elw ac amgylchedd iach. Eto, fel unrhyw fusnes, daw heriau newydd a ffyrdd newydd o weithio o ganlyniad i gyfuniad o ddatblygu a'r angen am dwf. Nid yw dulliau a rheoliadau bob amser yn cadw'n gyfredol ag arferion ffermio sy'n newid – a gall y ffermwr wynebu cymysgedd o ganllawiau a rheoliadau sy'n aml yn ddryslyd o fewn yr amrywiaeth o ddisgwyliadau a roddir ar amaethyddiaeth.

Serch hyn, mae'n rhaid deall natur llygredd yn glir. Gall afon lygredig lifo'n glir unwaith eto, ond weithiau gall effeithiau trychinebus llygredd bara am flynyddoedd.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gosod ffyrdd o weithio sy'n hynod werthfawr wrth arwain y gwaith sydd ei angen i atal llygredd amaethyddol. Byddwn yn dewis pedwar o'r rhain:

- Hirdymor – cydbwyso'r anghenion tymor byr gyda'r rhai hirdymor
- Cynnwys – pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nod
- Cydweithio – galluogi'r rhai sydd â diddordeb i gydweithio'n gefnogol â'i gilydd tuag at gyflawni'r nod
- Atal – creu ffyrdd o atal y broblem rhag digwydd yn y lle cyntaf

Credaf fod is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol yn hynod arloesol, a'i fod yn gweithio mewn ffordd newydd i fynd i'r afael â'r broblem wirioneddol a dybryd o lygredd amaethyddol. Mae pob un o'i aelodau wedi dod at ei

gilydd dros y flwyddyn ddiwethaf, gan weithio fel tîm er mwyn ceisio gwneud newidiadau go iawn.

Nid oes un ateb syml fel y mae'r adroddiad hwn yn ei ddangos. Rhaglen o addysg, hyfforddiant, mentrau gwirfoddol gan ffermwyr, cymhellion, buddsoddiad ac arloesedd ydyw sy'n cael ei thanategu gan reoliadau clyfar ac adnoddau a gwaith monitro ychwanegol. Rydym o'r farn y gall hyn wneud newid dramatig o ran creu pridd iach a dŵr glân ochr yn ochr â diwydiant ffermio llwyddiannus yng Nghymru.

Yn ofal, credaf y bydd yr hinsawdd newid bresennol ynghylch Brexit, a'r ffocws ar ffermio cynhyrchiol cynaliadwy, yn rhoi'r ysgogiad sydd ei angen er mwyn gwir gyflawni "Brand Cymru" y gallwn ni i gyd ymfalchïo ynddo.

Zoë Henderson

Cadeirydd

Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol

**Crynodeb gweithredol**

1.1. Gwnaeth Fforwm Rheoli Tir Cymru sefydlu is-grŵp ym mis Ionawr 2017 er mwyn canolbwyntio ar fynd i'r afael â llygredd amaethyddol. Mae aelodau'r grŵp yn cynnwys NFU Cymru, Undeb Amaethwyr Cymru (FUW), Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad, Dŵr Cymru, TFA Cymru, Hybu Cig Cymru, AHDB Dairy, Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin, Cyfoeth Naturiol Cymru, a Llywodraeth Cymru. Roedd datblygu cyd-ddealltwriaeth o achosion sylfaenol problemau llygredd amaethyddol wrth wraidd y gwaith. Gwnaed hyn cyn nodi amrywiaeth o ddulliau sy'n gallu gyrru gwelliannau amgylcheddol.

1.2. Mae'r adroddiad cynnydd hwn yn rhoi diweddariad ar waith is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol dros y pymtheng mis diwethaf. Mae'n dilyn datganiad ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ar yr ymgynghoriad ynghylch Parthau Perygl Nitradau ym mis Rhagfyr 2017 - ac mae'n cynrychioli dull a gynhyrchwyd ar y cyd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Cyflwynir yr adroddiad mewn naw pennod. Mae'r rhain yn ymdrin â chefndir y gwaith, natur llygredd amaethyddol yng Nghymru, a'r dull o fynd i'r afael â'r broblem. Mae cyfanswm o 45 o argymhellion cychwynnol yn rhychwantu'r pum maes gwaith a fabwysiadwyd gan y grŵp. Mae gan bob un o'r themâu gwaith hyn rôl sylweddol, ac mae angen eu hystyried fel rhan o becyn integredig:

- Sicrhau bod y drefn reoleiddio ffurfiol yn ddigon cadarn er mwyn cyflawni'r canlyniadau sydd eu hangen
- Datblygu dull gwirfoddol a arweinir gan ffermwyr o ran rheoli maetholion
- Darparu cyngor a chanllawiau gwell y gall ffermwyr wedyn eu defnyddio
- Gwella'r amrediad o gyfleoedd buddsoddi sydd ar gael ar hyn o bryd
- Nodi a hyrwyddo arloesedd

Er mwyn gweithredu argymhellion yr adroddiad (sy’n amrywio o’r strategol i’r ymarferol), bydd angen llawer mwy o waith, ymrwymiad ac adnoddau gan bob partner sy'n rhan o'r broses. Bydd angen i'n holl ymdrechion gyd-fynd os ydym am fynd i'r afael â'r amrediad cymhleth o broblemau sy'n arwain at y lefelau o lygredd amaethyddol sydd yng Nghymru ar hyn o bryd.

Mae is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol yn ymrwymedig o hyd o ran cymryd y pum llif gwaith yr ydym wedi'u nodi yn eu blaen, gan weithio gyda ffermwyr er mwyn cael gwared ar lygredd a sicrhau bod Cymru'n cael ei hadnabod am ddatblygiad proffesiynol parhaus ei ffermwyr ar draws pob sector yn ogystal ag ansawdd ei chynnyrch amaethyddol.

## Cynnwys:


Rhagair .... 2

Crynodeb gweithredol .... 4

Pennod 1 Cyflwyniad a chefndir .... 6

Pennod 2 Methodoleg, nodau ac amcanion .... 8

Pennod 3 Natur a graddfa llygredd amaethyddol presennol .... 10

Pennod 4 Y dirwedd reoleiddiol sy'n ymwneud â llygredd amaethyddol: Canfyddiadau ac arferion .... 20

Pennod 5 Datblygu dull gwirfoddol ar gyfer rheoli maethynnau .... 36

Pennod 6 Cyngor a chanllawiau gwell .... 44

Pennod 7 Gwella'r amrediad o gyfleoedd buddsoddi .... 49

Pennod 8 Nodi a hyrwyddo arloesedd .... 54

Pennod 9 Crynodeb o'r argymhellion .... 60

Atodiad 1 Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol – Cylch Gorchwyl .... 65

Atodiad 2 Crynodeb o dystiolaeth a gyflwynir gan Cyfoeth Naturiol Cymru fel rhan o adolygiad 2016 o dan y Gyfarwyddeb Nitradau .... 71

Atodiad 3: Crynodeb o gynllun ymgyrch llygredd amaethyddol is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru .... 73

Atodiad 4 Cysyniad llygredd amaethyddol Fforwm Rheoli Tir Cymru – Gwella dealltwriaeth a darparu cyngor ac arweiniad i wella arferion rheoli tir gyda'r nod o leihau llygredd amaethyddol .... 80

Atodiad 5: Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol – Gwella dealltwriaeth a rhoi cyngor a chanllawiau er mwyn gwella arferion rheoli tir, gyda’r nod o leihau llygredd amaethyddol. Adroddiad cynnydd gan Cyswllt Ffermio, 22 Mawrth 2018 .... 109

Atodiad 6 – Mesurau buddsoddi y Cynllun Datblygu Gwledig sy'n berthnasol i leihau llygredd amaethyddol .... 116

## **Pennod 1 Cyflwyniad a chefndir**

Cyflwyniad

1.3. Yn dilyn datganiad ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet ym mis Rhagfyr 2017,[1] mae'r adroddiad hwn gan is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol yn rhoi diweddariad ar y cynnydd a wnaed wrth geisio taro'r cydbwysedd cywir o ran dulliau rheoleiddio, mentrau gwirfoddol a buddsoddiad er mwyn mynd i'r afael â'r problemau.

1.4. Ar sail y gwaith sydd wedi'i wneud hyd yn hyn, rydym wedi darparu rhai argymhellion cychwynnol ar draws y pynciau rheoleiddio, mentrau gwirfoddol, cyngor a chanllawiau i ffermwyr, buddsoddiad, ac arloesedd. Nid yw'n debygol y bydd unrhyw un o'r dulliau yr ydym wedi'u harchwilio yn ddigon ar eu pen eu hunain. Er bod yr adroddiad hwn wedi'i rannu'n benodau ar wahân, dylid edrych arno fel fframwaith holistig ac integredig – un sy'n cyfuno'r rhychwant o ddulliau sy'n amrywio o reoleiddio ffurfiol (wedi'i danategu gan ddeddfwriaeth) i roi cyngor a chanllawiau, dulliau gwirfoddol, arloesedd, a buddsoddiadau a dargedir.

1.5. Yn y cyfamser, mae'r argymhellion cychwynnol hyn yn canolbwyntio ar y materion hynny y mae angen cymryd camau gweithredu arnynt yn awr. Rydym yn falch fod ein gwaith eisoes yn rhoi ffocws clir ar gyfer cyflawni'n ymarferol ar lawr gwlad – er enghraifft, drwy'r rhaglen cyngor ac arweiniad.

Cefndir

1.6. Bydd cyfres gyflawn o argymhellion yn dilyn yr adroddiad hwn yn hwyrach yn y flwyddyn, ond mae'n bwysig cydnabod bod llawer o'r gwaith dilynol ar bob un o'r themâu craidd yn debygol o barhau ymhell y tu hwnt i'r pwynt hwnnw. Caiff amserlenni manwl eu hystyried a'u rhoi i Ysgrifennydd y Cabinet yn ystod y cam nesaf o'r gwaith hwn. Bydd yr amserlenni hyn yn cydnabod yr angen ar gyfer gwneud camau gweithredu ar unwaith, a'r rheiny sydd angen gweithredu dros gyfnodau hirach o amser. Byddwn hefyd yn adolygu aelodau presennol yr is-grŵp, gyda golwg ar gryfhau ein harbenigedd mewn meysydd penodol lle teimlir bod hyn yn angenrheidiol.

1.7. Lansiwyd y Strategaeth Ddŵr i Gymru gan y Gweinidog dros Adnoddau Naturiol ar 19 Mai 2015. Mae'r strategaeth yn pennu'r cyfeiriad o ran polisi dŵr dros yr 20 mlynedd nesaf ac yn cael ei hategu gan gynllun gweithredu (gyda cherrig milltir hyd at 2025 a thu hwnt).

1.8. Gweledigaeth y Strategaeth Ddŵr yw sicrhau bod Cymru yn parhau i feddu ar amgylchedd dŵr sy'n ffynnu ac sy'n cael ei reoli'n gynaliadwy i gefnogi cymunedau iach, busnesau sy'n ffynnu, a'r amgylchedd. Mae'r cynllun gweithredu sy'n deillio o hyn yn nodi chwe blaenoriaeth polisi rhwng 2015 a 2018, gan gynnwys *"adolygu*

[1] Gellir ei weld yma: https://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2017/NVZConsultation/?skip=1&lang=cy

*arferion presennol a dulliau rheoleiddio, a'u newid lle bo'n briodol, i fynd i'r afael â llygredd gwasgaredig"*.

1.9. Ar ôl cyhoeddi'r Strategaeth Ddŵr, aeth Llywodraeth Cymru ati i greu rhaglen benodol ar lygredd gwasgaredig sy'n ymdrin â'r sector adeiladu, y sector coedwigaeth a'r sector amaethyddol. Amcan y rhaglen arfaethedig oedd sicrhau ymagwedd gydgysylltiedig tuag at reoli dŵr a'r tir drwy adolygu a, lle bo'n briodol, newid arferion presennol a dulliau rheoleiddio.

1.10. Crëwyd llifau gwaith ar wahân ar gyfer pob un o'r sectorau y mae'r rhaglen ar lygredd gwasgaredig yn berthnasol iddynt o ganlyniad i drafodaethau dilynol rhwng Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru. Fforwm Rheoli Tir Cymru (trefn y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei defnyddio i ymgysylltu â'r sectorau amaethyddol a choedwigaeth ar lefel uwch) oedd yn cael y cyfrifoldeb am ymgymryd ag elfennau amaethyddol y rhaglen.

1.11. Yn gyfochrog â datblygu dull newydd i lygredd gwasgaredig, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y Parthau Perygl Nitradau yn ystod hydref 2016. Cafodd yr ymgynghoriad ei lywio gan dystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch tueddiadau hirdymor o fewn dyfroedd yng Nghymru sydd wedi'u llygru gan nitradau. Ar hyn o bryd, mae oddeutu 2.4% o dir amaethyddol yng Nghymru wedi'i ddynodi o dan y Gyfarwyddeb Nitradau, ac archwiliwyd dau opsiwn yn yr ymgynghoriad: cynyddu cyfan y tir dynodedig i oddeutu 8% neu fabwysiadu dull tiriogaeth lawn.

1.12. Ar 13 Rhagfyr 2017, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig nodi ei bod hi'n bwriadu cyflwyno dull Cymru gyfan er mwyn mynd i'r afael â llygredd nitradau o amaethyddiaeth i sicrhau bod dŵr yn cael ei ddiogelu'n well rhag llygredd amaethyddol. Nododd y byddai gwaith ychwanegol gyda rhanddeiliaid yn cael ei wneud er mwyn taro'r cydbwysedd cywir rhwng dulliau rheoleiddiol, mentrau gwirfoddol a buddsoddiad. Gwnaeth y dull hwn dderbyn y cynigion a wnaed gan yr undebau ffermio er mwyn edrych ar ddewisiadau amgen i ddynodi Parthau Perygl Nitradau.

1.13. Mae'r dull hwn hefyd yn unol â diffiniad gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru o reoleiddio[2] fel ymyriad sy'n gwneud newid cadarnhaol – un sy'n cynnwys dulliau synergyddol eraill o ran gwneud newidiadau cadarnhaol law yn llaw â rheoleiddio ffurfiol wedi'i danategu gan ddeddfwriaeth, megis mentrau gwirfoddol ysgogol a buddsoddiadau a dargedir.

1.14. Wrth ystyried ein hargymhellion rhagarweiniol, mae'r is-grŵp hefyd wedi ystyried ymgynghoriadau blaenorol Llywodraeth Cymru ar y Rheoliadau Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol ac ar ddulliau sylfaenol.

[2] http://naturalresources.wales/about-us/what-we-do/how-we-regulate-you/regulatory-principles/?lang=cy

**Pennod 2 Methodoleg, nodau ac amcanion**

2.1  Sefydlwyd is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ym mis Ionawr 2017. Mae'r is-grŵp wedi canolbwyntio ar geisio datblygu cyd-ddealltwriaeth o achosion sylfaenol problemau llygredd amaethyddol cyn nodi'r rhychwant o ddulliau sydd ar gael ar gyfer gwneud gwelliannau. Ein huchelgais fu datblygu fframwaith galluogi sy'n gallu cefnogi ffermwyr wrth gymryd camau gweithredu, lle bo angen, wrth roi cyngor ar yr un pryd ynghylch gwneud gwelliannau i'r strwythur rheoleiddiol sylfaenol. I gychwyn, rydym wedi canolbwyntio ar reoli slyri a maetholion, wrth gydnabod hefyd fod dŵr ffo o'r pridd a chemegion a ddefnyddir ym myd amaeth megis cynhyrchion amddiffyn cnwd yn cyfrannu at broblemau o ran ansawdd dŵr.

2.2 Mae pob un o bartneriaid Fforwm Rheoli Tir Cymru wedi gwneud ymrwymiad sylweddol i waith is-grwp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol, sydd bellach yn cynrychioli dull cyd-gynhyrchu amlranddeiliaid dilys ar gyfer y gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae ein dull yn cynnwys y ffyrdd o weithio sydd wedi'u hymgorffori yn y fframwaith deddfwriaethol newydd yng Nghymru, ar y cyd â chymhwyso egwyddorion o ran rheoleiddio da, er mwyn cyflawni'r dyheadau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'r nodau llesiant.

2.3 Mae hyn yn ffordd newydd iawn o weithio sy'n hynod gydweithredol, sy’n cynnwys cymryd perchenogaeth dros broblem sy'n ymddangos yn anodd ei thrin, ac sy’n cydnabod y bydd angen gwneud newid sylweddol o ran agwedd a dulliau os ydym am lwyddo.

2.4. Mae aelodau is-grwp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol bellach yn cynnwys cynrychiolwyr o NFU Cymru, Undeb Amaethwyr Cymru (FUW), Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad, Dŵr Cymru, TFA Cymru, Hybu Cig Cymru, AHDB Dairy, Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin, Cyfoeth Naturiol Cymru, ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru, yn ogystal â’r Gangen Dŵr. Caiff pob cyfarfod ei gadeirio gan aelod o fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnig ysgrifenyddiaeth yn ogystal â staff arbenigol sydd ag arbenigedd ym maes ansawdd dŵr a pholisi amaethyddol a phrofiad o ddydd i ddydd o ymdrin â phroblemau sy'n ymwneud â llygredd (gweler Atodiad 1: ‘Cylch gorchwyl’).

2.5. Cynhelir cyfarfodydd yr is-grŵp bob mis, ac maent yn cynnwys cyflwyniadau gan aelodau ac arbenigwyr gwadd. Mae'r is-grŵp hefyd wedi cynnal dau ymweliad ar wahân i ddod o hyd i ffeithiau. Roedd y rhain yn cynnwys fferm laeth fach â thenant yn Sir Fynwy ac uned laeth llawer yn fwy sy’n eiddo i berchen-feddianwyr yn Sir Benfro.

2.6. Mae'r fframwaith rheoleiddio integredig wedi'i rannu’n bum thema graidd gydgysylltiedig. Mae pob un o'r themâu hyn yn hanfodol ar gyfer llwyddiant y fframwaith a chanddynt rôl allweddol i'w chwarae, a bydd angen datblygu pob un ohonynt er mwyn cyflawni'r canlyniadau cadarnhaol a ddymunir:

- Sicrhau bod cyngor a chanllawiau gwell yn cael eu darparu i ffermwyr a'u bod wedyn yn eu defnyddio
- Gwella'r amrediad presennol o fentrau buddsoddi

- Datblygu dull gwirfoddol a arweinir gan ffermwyr tuag at reoli maetholion
- Sicrhau bod y drefn reoleiddio ffurfiol yn ddigon cadarn er mwyn cyflawni'r canlyniadau sydd eu hangen
- Nodi a hyrwyddo arloesedd

2.7. Mae gan rai themâu craidd megis cyngor ac arweiniad bwyslais ar fynd i'r afael â llygredd gwasgaredig o bridd a maetholion, tra bo eraill, megis rheoleiddio, yn fwy tebygol o fod yn bwysig wrth fynd i'r afael â digwyddiadau llygredd yn y tarddle. Fodd bynnag, mae'r pum thema gwaith craidd yn cael eu datblygu ymhellach er mwyn cyflawni rhaglen fwy cynhwysfawr.

2.8. Yn dilyn datganiad ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet ym mis Rhagfyr 2017, mae gweddill yr adroddiad hwn yn anelu at roi diweddariad ar y cynnydd a wnaed hyd yn hyn gan yr is-grŵp, ynghyd â'n hargymhellion o ran y camau nesaf.

2.9. Ein hamcan cyffredinol yw cael gwared ar lygredd amaethyddol drwy wneud y canlynol:

- Atal digwyddiadau llygredd yn y tarddle
- Cael gwared ar ffynonellau llygredd gwasgaredig – ni ddylai slyri, cemegion a ddefnyddir ym myd amaeth a phridd fynd i gyrsiau dŵr na dŵr daear
- Sicrhau bod gan y perchennog tir y wybodaeth i leihau unrhyw ddifrod a achosir i'r amgylchedd lle mae mesurau er mwyn atal llygredd wedi methu

2.10. Mae angen gwneud pob un o'r rhain ar yr un pryd â gwella'r ffordd y caiff maetholion, pridd a chemegion a ddefnyddir ym myd amaeth eu rheoli, fel bod cynhyrchiant amaethyddol yn gwella a bod yr amgylchedd yn cael ei ddiogelu. Bydd hyn yn arwain at gydymffurfio’n well â'r safonau a sefydlwyd o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ac yn diogelu ansawdd y dŵr drwy atal nitradau, ffosffadau a gwaddod o ffynonellau amaethyddol rhag llygru dŵr daear a dŵr wyneb.

2.11. Mae rhan sylweddol o waith yr is-grŵp wedi cynnwys archwilio achosion sylfaenol llygredd amaethyddol, gan gynnwys seilwaith sy'n heneiddio, diffyg unedau storio sydd wedi'u hadeiladu'n gywir, problemau o ran tenantiaeth, ehangu buchesi heb ddarparu storfeydd slyri sy'n gyfwerth â hyn, a diffyg gwybodaeth o effeithiau go iawn llygredd amaethyddol ymhlith rhai sy'n rhan o'r sector. Bydd yr is-grŵp yn ymgymryd â gwaith pellach ar yr achosion sylfaenol hyn dros y misoedd nesaf.

2.12. Rydym o'r farn fod yr is-grŵp wedi datblygu'n dîm sydd â lefel uchel o onestrwydd ac ymddiriedaeth. Mae eraill wedi dangos diddordeb cryf mewn ymuno â'r is-grŵp, ac rydym yn cydnabod y buddion a all godi drwy gael mwy o arbenigedd ac adnoddau. Byddwn felly'n datblygu canllawiau er mwyn helpu gyda'r gwaith o nodi aelodau newydd, cael mewnbwn gan arbenigwyr technegol yn y tymor byr, a chynnal adolygiad o aelodau cyffredinol yr is-grŵp. Byddwn hefyd yn penderfynu sut y gellir rhannu gwybodaeth am waith yr is-grŵp yn gyhoeddus.

**Pennod 3 Natur a graddfa llygredd amaethyddol presennol**

3.1 Mae dŵr yn adnodd hanfodol sy’n cefnogi amrywiaeth eang o ecosystemau naturiol yng Nghymru. Mae ein hadnoddau dŵr naturiol yn cynnig manteision amlwg i bobl a’r economi. Mae pob un ohonom yn dibynnu ar ddŵr glân ar gyfer ein bywydau bob dydd, p'un a yw hyn ar gyfer yfed, golchi, y diwydiant, cynhyrchu bwyd neu hamdden. Mae rheoli'n gynaliadwy yn hanfodol os ydym am sicrhau bod ein hafonydd, ein dŵr daear a'n cyrff sy'n dibynnu ar ddŵr megis llynnoedd, yn ogystal â dyfroedd arfordirol, yn gallu parhau i roi'r buddion sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol.

3.2 Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a gyhoeddwyd yn ystod hydref 2016[3] yn disgrifio'r ffordd y mae ansawdd y dŵr mewn afonydd a dyfroedd golchi wedi gwella'n gyffredinol dros y 25 mlynedd diwethaf, yn bennaf oherwydd gwelliannau o ran gollyngiadau carthion. Serch hyn, ceir rhai heriau sylweddol o hyd. Er enghraifft, mae 63% o'r holl gyrff dŵr a ddiffinnir o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (598 o 942) yn methu â bodloni statws cyffredinol 'da' neu 'gwell' (gweler Ffigur 1 ar gyfer dyfroedd wyneb). Yn ogystal, un o bob chwe math o gynefin dŵr croyw yn unig sydd â statws cadwraeth ffafriol. Yn ôl tystiolaeth, er bod amrywiaeth o ffactorau'n dylanwadu ar ansawdd dŵr yng Nghymru, ceir gorfaethu sy'n parhau i ddifrodi dŵr wyneb a dŵr daear o ganlyniad i arferion amaethyddol.

3.3 Mae oddeutu 2.4% o dir amaethyddol yng Nghymru (tua 750 o ffermydd) wedi’i ddynodi o dan y Gyfarwyddeb Nitradau ac yn ddarostyngedig i fesurau rheoli llygredd o dan y Rhaglen Weithredu ar Nitradau. Mae hyn yn cymharu â dros 60% yn Lloegr, 14% yn yr Alban, a dull "tiriogaeth lawn" yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r lefelau dynodi hyn, i raddau helaeth, yn adlewyrchu cyfran y tir a ddefnyddir ar gyfer systemau da byw, aredig a garddwriaethol mwy dwys. Adolygwyd y dystiolaeth a gyflwynwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru fel rhan o Adolygiad y Gyfarwyddeb Nitradau yn 2016 gan gymheiriaid (arbenigwyr allanol), a awgrymodd y dylid dynodi ardaloedd arwahanol pellach yng Nghymru, gan gynyddu trwy hynny cyfran y tir dynodedig yng Nghymru i oddeutu 8%.[4]

3.4 Mae cynlluniau rheoli basn afon Cymru[5] yn nodi'r prif faterion sy'n cael effaith ar ansawdd ecolegol a chemegol ein dyfroedd. Mae ymchwiliadau Cyfoeth Naturiol Cymru i bennu'r rheswm pam fod cyrff dŵr yn methu â chyrraedd safonau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr wedi nodi effeithiau o weithgareddau amaethyddol fel rheswm drwgdybiedig, tebygol neu a gadarnhawyd mewn 162 dalgylch corff dŵr (Ffigur 2).

3.5 Gall llygredd amaethyddol fod ar ddwy ffurf:

- Llygredd yn y tarddle – o ffynhonnell adnabyddadwy sengl sy’n gollwng, megis pibell neu ffos. Os yw digon o lygryddion megis slyri, silwair, olewau tanwydd, llaeth, pridd neu slwtsh carthion yn cyrraedd cyrsiau dŵr, maen nhw'n cynyddu'r galw am ocsigen, ac nid yw pysgod yn cael

[3] https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/the-state-of-natural-resources-report-assessment-of-the-sustainable-management-of-natural-resources/?lang=cy
[4] Gweler Atodiad 1 am grynodeb o'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru.
[5] https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/water-reports/river-basin-management-plans-published/?lang=cy

eu lladd ond yn un o'r effeithiau mwyaf gofidus y gellir ei gweld ar unwaith. Yn aml, bydd yn cymryd llawer hirach i adfer yr ecosystem.

- Llygredd gwasgaredig – a achosir gan amrywiaeth o weithgareddau rheoli tir nad oes ganddynt bwynt gollwng penodol. Mae ffynonellau llygredd gwasgaredig fel arfer yn fach ar eu pen eu hunain, ond gallant arwain at effeithiau amgylcheddol sylweddol gyda'i gilydd. Gall enghreifftiau o lygredd gwasgaredig gynnwys difrod o ganlyniad i ledaenu slyri, gorddefnyddio gwrtaith, neu dda byw yn erydu glannau afonydd neu'n mynd at gyrsiau dŵr.

3.6 Mae amlder digwyddiadau llygredd amaethyddol yng Nghymru yn peri pryder mawr (gweler Ffigur 3), gyda'r sectorau dofednod, moch, aredig, defaid, cig eidion a llaeth gyda'i gilydd yn gyfrifol am o leiaf 115–165 o ddigwyddiadau llygredd mawr a gadarnhawyd bob blwyddyn yn ystod pob un o'r wyth mlynedd diwethaf (gweler Ffigur 4). Roedd dros 60% o'r digwyddiadau hyn yn ne-orllewin Cymru, gyda'r nifer fwyaf yn cyrraedd penllanw yn ystod y cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Mai (gweler Ffigur 5).

3.7 Bu 498 adroddiad o lygredd amaethyddol drwgdybiedig i ddŵr dros y cyfnod o 21 mis rhwng 1 Mawrth 2016 a 31 Rhagfyr 2017. Cadarnhawyd rhyw 33% o'r adroddiadau hyn gan staff Cyfoeth Naturiol Cymru neu drydydd partïon, neu oherwydd bod ffermwyr wedi adrodd amdanynt eu hunain.

3.8 Mae rhyw 50% o ddigwyddiadau llygredd amaethyddol sydd wedi'u cadarnhau wedi'u holrhain i ffermio llaeth,[6] er ei fod yn bwysig nodi mai 3.9% yn unig o ffermydd llaeth yng Nghymru sydd yn gysylltiedig â digwyddiad llygredd a gadarnhawyd bob blwyddyn.[7] O ystyried pob fferm, mae'r 115–165 o ddigwyddiadau llygredd a gadarnhawyd bob blwyddyn yn cynnwys llai na 1% o'r ffermydd yng Nghymru.

3.9 Yn y cyd-destun hwn, mae'n arwyddocaol fod maint y fuches laeth yng Nghymru[8] wedi codi 12.5%[9] dros y pum mlynedd diwethaf[10] tra bo nifer y cynhyrchwyr llaeth wedi lleihau 9.4% dros yr un cyfnod.[11][12] Nid yn unig yw maint cyfartalog buchesi wedi cynyddu, ond bu crynodiad mwy o dda byw yn y lleoliadau hynny sydd fwyaf

---

[6] Mae'r gyfran o ddigwyddiadau llygredd o ffermydd llaeth yn deillio o graff a thabl sy'n cyd-fynd o ddigwyddiadau amaethyddol i ddŵr, sef 50% yn 2013, 53% yn 2014, 52% yn 2015, 49% yn 2016, a 50% yn 2017.

[7] Bu ar gyfartaledd 66 o ddigwyddiadau llygredd a achoswyd gan ffermydd llaeth yn ystod 2016 a hefyd 2017, ar adeg pan mai dim ond 1,724 o ffermydd llaeth oedd yn gweithredu yng Nghymru. Mae hyn yn cyfateb i 3.8% o ffermydd llaeth sydd yn gysylltiedig â digwyddiad llygredd a gadarnhawyd bob blwyddyn, er y gall y ffigur go iawn fod rhywfaint yn llai na hyn oherwydd y gallai rhai ffermydd fod wedi cael mwy nag un digwyddiad mewn blwyddyn.

[8] Wedi'i diffinnio fel buwch laeth yn hŷn na dwy flwydd oed sydd wedi cael llo.

[9] Tyfodd buches laeth Cymru o o 223,577 o fuchod yn 2012 i 251,176 yn 2017.

[10] Arolwg o'r cyfrifiad amaethyddol a garddwrol

[11] http://dairy.ahdb.org.uk/resources-library/market-information/farming-data/producer-numbers/#.WqEXiK1LFLM (Saesneg yn unig)

[12] Yn ôl AHDB, disgynnodd nifer y ffermydd llaeth yng Nghymru o 1,904 ym mis Mai 2012 i 1,724 ym mis Mehefin 2017.

deniadol i ffermydd llaeth yn economaidd, yn hinsoddol ac yn agronomegol (Ffigur 6).

3.10 Mewn rhai achosion, gall crynhoi da byw roi mwy o bwysau ar gapasiti dal y tir, gan fod yn rhaid gwasgaru symiau mwy o slyri a thail o fewn ardal lai. Yn aml, mae hyn yn cynnwys defnyddio systemau llinyn cyswllt a thanceri i gludo slyri i leoliadau eithaf pell o'r brif fferm – a gall hyn gynyddu'r risg o ddigwyddiad llygredd.

3.11 Mae arolygon diweddar gan AHDB yn rhoi ciplun o gyflwr y diwydiant llaeth yng Nghymru yn ystod gwanwyn 2017.[13] Ymatebodd rhyw 64% o ffermwyr llaeth yng Nghymru i'r arolwg ar adeg pan oedd y farchnad laeth yn cefnu ar gyfnod o brisiau llaeth isel. Ar gyfartaledd, roedd fferm laeth yn ymestyn dros 108 hectar o dir, gyda maint buches o 169 o fuchod, er bod 44% o'r ymatebwyr yn godro 150 neu fwy o fuchod. Y canfyddiad mwyaf arwyddocaol oedd bod 49% o ymatebwyr yn bwriadu cynyddu cynhyrchiant ar ryw adeg dros y pum mlynedd nesaf. Pe bai'r holl fwriadau hyn yn cael eu gweithredu, amcangyfrifwyd y gallai cynhyrchiant llaeth yng Nghymru gynyddu 9% (neu 111 miliwn litr) erbyn 2022. Mae hefyd yn werth nodi bod y mwyafrif o ddadansoddiadau sy'n ymwneud ag effaith Brexit ar y sector llaeth yn awgrymu y gallai amodau yn y farchnad fod yn fwy ffafriol ar gyfer y sector hwn ar ôl i ni adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae hyn yn cyferbynnu â'r rhagolwg ar gyfer y sector cig coch, sy'n edrych yn fwy heriol. Er y gallai'r sefyllfa o ran llaeth fod yn gadarnhaol iawn i'r sector amaethyddol yng Nghymru a'r economi yn ehangach, ni fydd buddion o'r fath yn gynaliadwy yn y tymor hwy oni bai y gellir eu cyflawni heb gael effaith niweidiol ar yr amgylchedd.

3.12 Mae effaith amgylcheddol rhai arferion amaethyddol yn lleihau. Er enghraifft, gwnaeth y defnydd o wrteithiau sachau seiliedig ar nitrogen ddisgyn 45% rhwng 1990 a 2013, oherwydd bod ceisiadau wedi'u targedu ar anghenion y cnwd sy'n tyfu. Yn yr un modd, mae'r defnydd o blaladdwyr bellach yn cael ei reoli'n llawer mwy manwl, gyda 50% yn llai o gynhwysion gweithredol yn cael eu defnyddio er 1990. Mae llawer o ffermwyr hefyd wedi ceisio gwella ansawdd dŵr drwy gymryd rhan mewn cenedlaethau olynol o gynlluniau amaeth-amgylcheddol. Mae gan Glastir Uwch bellach 2,403 o gontractau ac, o'r rheiny, mae 895 yn gontractau annibynnol, 1,508 yn gontractau wedi'u tanategu gan Glastir Sylfaenol, a 79 yn gontractau sy'n ymwneud â Thir Comin Glastir. Mae Cyswllt Ffermio hefyd wedi darparu dros 1,000 o gynlluniau rheoli maetholion. Fodd bynnag, mae cyfuniad o ymweld â ffermydd a cherdded afonydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru wedi nodi tystiolaeth o broblemau llygredd gwasgaredig eang.

3.13 Yn ystod teithiau cerdded Cyfoeth Naturiol Cymru mewn dalgylchoedd sy'n methu â chyrraedd safonau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (a wnaed rhwng 2010 a 2015), gwelwyd bod arferion rheoli tir amaethyddol gwael a seilwaith gwael yn cyfrannu 37% o'r problemau llygredd gwasgaredig a nodwyd. Mae'r canfyddiadau hyn wedi'u crynhoi yn Nhabl 1, lle mai sathru gan dda byw mewn caeau ac ar hyd glannau afonydd oedd y problemau mwyaf niferus a nodwyd.


[13] https://dairy.ahdb.org.uk/media/1670695/WelshEUConditionalAidScheme_2018-02-23.pdf

***Argymhelliad 3.1: Dylai Fforwm Rheoli Tir Cymru anelu at gomisiynu dadansoddiad pellach o achosion sylfaenol llygredd amaethyddol. Bydd y dadansoddiad manwl hwn o fudd i waith y grŵp yn y tymor hwy drwy barhau i adeiladu dealltwriaeth gyffredin o achosion uniongyrchol ac anuniongyrchol llygredd.***

**Tabl 1 Crynodeb o'r materion a nodwyd ar deithiau cerdded Cyfoeth Naturiol Cymru**


| | |
|---|---|
| Erydu/sathru glan yr afon | 25% |
| Pibell fferm | 3% |
| Llwybr fferm / giât fferm | 11% |
| Dŵr ffo o iard fferm | 2% |
| Sathru cyffredinol, gan gynnwys ardaloedd bwyd ac yfed | 54% |
| Taenu ar y tir | 1% |
| Pentwr tail | 1% |
| Dim clustogfa | 2% |
| Cywasgiad pridd a dŵr ffo | 1% |

Ffigur 1: Dosbarthiad y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, statws cyffredinol 2015 (dŵr wyneb)[14]





[14] Paratowyd y ffigurau gan dîm ystadegau amaethyddol a thîm system gwybodaeth ddaearyddol Llywodraeth Cymru.


Ffigur 2:  Cyrff dŵr afonydd y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr lle nodwyd gweithgareddau amaethyddol fel y rheswm dros beidio â chyflawni statws da (2015)



**Ffigur 3:  Lleoliad digwyddiadau llygredd amaethyddol rhwng 2010 a 2018**



**Ffigur 4: Mathau o ddigwyddiadau llygredd amaethyddol rhwng 2010 a 2018**
*(Yn seiliedig ar adroddiadau gan Cyfoeth Naturiol Cymru)*





| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Garddwriaeth | 1 | | | | | 1 | | 1 | |
| Moch | | | 3 | | | 1 | | 1 | 1 |
| Ffermio pysgod | 2 | 1 | | 1 | 1 | | | | |
| Dofednod | 2 | 1 | 1 | 3 | 2 | | 1 | 1 | |
| Ceffylau | 2 | 4 | 2 | 1 | 2 | 1 | 2 | 1 | |
| Ffynhonnell nad yw'n amaethyddol | 4 | 1 | 5 | 1 | 1 | 1 | 1 | 5 | 2 |
| Ffermio âr | 2 | 1 | 4 | 1 | 4 | 1 | 3 | 7 | 1 |
| Coedwigaeth | | 2 | 7 | 4 | 2 | 2 | 2 | 2 | |
| Defaid | 8 | 5 | 4 | 4 | 4 | 6 | 11 | 6 | 1 |
| Ffynhonnell amaethyddol arall | 10 | 7 | 8 | 9 | 7 | 7 | 9 | 14 | 4 |
| Cig eidion | 27 | 23 | 16 | 24 | 31 | 17 | 18 | 22 | 4 |
| Ffynhonnell anhysbys | 23 | 17 | 36 | 13 | 26 | 30 | 19 | 7 | 3 |
| Llaeth | 75 | 69 | 86 | 61 | 91 | 73 | 63 | 69 | 26 |

Llaeth; Ffynhonnell anhysbys; Cig eidion; Ffynhonnell amaethyddol arall; Defaid; Coedwigaeth; Ffermio âr; Ffynhonnell nad yw'n amaethyddol; Ceffylau; Dofednod; Ffermio pysgod; Moch; Garddwriaeth


### Ffigur 5: Digwyddiadau llygredd amaethyddol fesul mis rhwng mis Mawrth 2016 a mis Rhagfyr 2017


*(Yn seiliedig ar adroddiadau gan Cyfoeth Naturiol Cymru)*




### Ffigur 6: Dwysedd gwartheg godro yng Nghymru yn 2006 a 2016

*(Tîm ystadegau amaethyddol a thîm system gwybodaeth ddaearyddol Llywodraeth Cymru)*



**Pennod 4 Y dirwedd reoleiddiol sy'n ymwneud â llygredd amaethyddol: Canfyddiadau ac arferion**

Cyflwyniad

4.1 Gwnaeth y datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet ym mis Rhagfyr 2017, a oedd yn mynd i'r afael ag ymgynghoriad 2016 ynghylch Parthau Perygl Nitradau yng Nghymru, amlinellu bod angen ceisio'r cydbwysedd cywir o ran dulliau rheoleiddiol, mentrau gwirfoddol a buddsoddiad – gan gyfuno cadernid gyda hyblygrwydd.

4.2 Mae'r dull tridarn arfaethedig (a gynorthwywyd gan arloesedd) yn unol â diffiniad gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru o reoleiddio fel ymyriad sy'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol, sy'n cynnwys mecanweithiau eraill sy'n gefnogol i'r ddwy ochr er mwyn gwneud newid cadarnhaol – megis mentrau gwirfoddol ysgogol a buddsoddiadau a dargedir, gan weithio ochr yn ochr â rheoleiddio ffurfiol wedi'i danategu gan ddeddfwriaeth. Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar reoleiddio ffurfiol.

Y broses adolygu reoleiddiol

4.3 Wrth gadw'r drafodaeth flaenorol ynghylch fframio mewn cof, mae'r bennod hon yn crynhoi cynnydd gwaith yr is-grŵp er mwyn mynd i'r afael â dimensiwn rheoleiddio ffurfiol datganiad Ysgrifennydd y Cabinet. Yn unol â hyn, diben y gwaith hwn fu adolygu tystiolaeth, creu trafodaeth, ac adeiladu consensws defnyddiol yn y grŵp ynghylch y cyfraniad y mae rheoleiddio (presennol a dyfodol) yn ei wneud wrth fynd i'r afael â llygredd amaethyddol.

4.4 Yn benodol, mae'r is-grŵp wedi ceisio cytuno ar y canlynol:

a) Pam fod adolygiad o ddulliau rheoleiddiol yn hanfodol

b) Egwyddorion arweiniol yr adolygiad

c) Y trefniadau rheoleiddiol i'w hystyried

d) Canfyddiadau a phrofiadau'r is-grŵp ynghylch rheoleiddio

e) Casgliadau ac argymhellion cynnar ar gyfer meysydd blaenoriaeth o waith pellach

Rhaglen waith

4.5 Mae'r rhaglen waith yn llunio camau cyntaf y dull i'r mater hwn, sydd yn unol ag egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan gynnwys casglu a deall egwyddorion a chanfyddiadau rhanddeiliaid, adeiladu consensws, a datblygu amrywiaeth o gynigion petrus i fynd i'r afael â'r mater.

4.6 Er mwyn gwneud cynnydd ar bwyntiau (a), (b), ac (c), cyflwynwyd papur i'r is-grŵp yn amlinellu'r egwyddorion llywio a chwmpas posibl gwaith rheoleiddiol yr is-grŵp. Cytunodd yr is-grŵp ar y papur yn ystod cyfarfod Ionawr 2018.

4.7 Ar ôl sefydlu consensws ar sylfeini'r gwaith hwn, er mwyn mynd i'r afael â phwyntiau (d) ac (e), gofynnwyd am safbwyntiau a thystiolaeth ynghylch perfformiad cyfredol y system reoleiddio sy'n ymdrin â llygredd amaethyddol. Rhannwyd cyfres fer o gwestiynau fframio gydag aelodau'r is-grŵp, a gofynnwyd am ymatebion ysgrifenedig. Dyma'r cwestiynau:

- Pa agweddau penodol o'r trefniadau rheoleiddiol presennol sy'n annigonol yn eich barn chi?
- Ym mha ffordd y maen nhw'n annigonol (e.e. effeithiolrwydd, eglurder, ymarferoldeb eu rhoi ar waith)?
- Ble yn y system reoleiddio y mae'r broblem (e.e. natur y rheoliadau presennol eu hunain, bylchau neu ryngweithio rhyngddynt, cyngor ac arweiniad, monitro cydymffurfiaeth, gorfodi)?
- Yn benodol, i ba raddau y mae'r drefn bresennol yn gefnogol (neu fel arall) i'r dull gwirfoddol a arweinir gan ffermwyr sy'n cael ei ddatblygu gan yr is-grŵp wrth gyflawni'r dull Cymru gyfan y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi ei amlinellu?

4.8 Cafwyd ymatebion ysgrifenedig gan aelodau'r is-grŵp, a chafodd yr ymatebion hyn eu crynhoi a'u tablu mewn matrics er mwyn deall y consensws yn well.

4.9 Defnyddiwyd y matrics hwn fel y sail ar gyfer dwy drafodaeth wyneb yn wyneb a oedd yn canolbwyntio ar reoleiddio a gynhaliwyd ar 9 a 14 Mawrth 2018 yn Llandrindod, a fynychwyd gan y rhai a oedd wedi cyflwyno ymatebion ysgrifenedig ar y cwestiynau fframio. Trafodwyd pob problem yn ystod y sesiynau hyn, a chofnodwyd barn gyffredin (neu fel arall) ar gyfer pob unigolyn a fynychwyd ar ddiwedd y drafodaeth. Cyflwynir y matrics wedi'i ddiweddaru yn Nhabl 2.

4.10 Cafwyd cryn gonsensws yn ystod sesiynau Llandrindod – cytunodd pob un fod angen gwneud gwaith pellach er mwyn rhoi tystiolaeth a datblygu dull sy'n gyson â brîff trosfwaol Ysgrifennydd y Cabinet. Gwnaeth y sesiynau bwysleisio gwerth cynnal trafodaeth sy'n canolbwyntio ar broblemau rhwng amrywiaeth o randdeiliaid wrth feithrin dealltwriaeth ac adeiladu consensws – dull a ddylai barhau. Pwnc craidd y bennod hon yw elfennau allweddol y consensws a'r argymhellion a gododd o'r sesiynau hyn.

<u>Maes A yr adolygiad rheoleiddiol – Pam fod adolygiad o ddulliau rheoleiddiol yn angenrheidiol</u>

4.11 Cyflwynwyd y pwyntiau hyn i'r is-grŵp am y tro cyntaf ar 30 Ionawr 2018, mewn papur fframio cychwynnol ynghylch rheoleiddio. Trafodwyd y papur, ei ddiwygio a chytuno arno fel rhan o sesiwn ragarweiniol ynghylch rheoleiddio ar 22 Chwefror 2018.

- Mae cyflwyniadau blaenorol gan nifer o aelodau wedi disgrifio eu canfyddiadau o'r dirwedd reoleiddiol bresennol fel tirwedd gymhleth a rhanedig nad yw'n cael ei deall yn iawn.
- Mae'r DU yn dal i fod yn aelod o'r UE, ac felly mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddangos i'r Comisiwn Ewropeaidd ei bod wedi sefydlu dull cadarn er mwyn mynd i'r afael â llygredd nitradau.  Ar ôl Brexit, bydd y Gyfarwyddeb Nitradau yn cael ei throsglwyddo i gyfraith y DU fel rhan o Fil yr UE (Ymadael).
- Mae canlyniad yr ymgynghoriad ar y Parthau Perygl Nitradau yn dangos bod nifer fawr o'r ymatebwyr yn dymuno gweld dynodiad tiriogaeth lawn.[15]
- Yn y tymor canolig, bydd angen cynnal archwiliad cynhwysfawr o'r rheolau trawsgydymffurfio yn dilyn Brexit.
- Yn y tymor hirach, mae'n debygol y bydd cynnal safonau rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â rheoliadau presennol a dyfodol yr UE yn ganolog i sicrhau mynediad parhaus i farchnadoedd Ewropeaidd ar ôl Brexit.
- Mae'n debygol y bydd llawr rheoleiddiol cyson a thryloyw yn cynnig manteision tebyg wrth gael mynediad at farchnadoedd premiwm eraill yr UE a rhai nad ydynt yn rhan o'r UE.
- Gyda'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael ar gyfer monitro cydymffurfiaeth a gorfodi, bydd tirwedd reoleiddiol ddi-dor a seml sy'n canolbwyntio ymdrech ac opsiynau gorfodi'r rheoleiddiwr yn ôl risg yn sicrhau y gellir cyflawni'r effaith fwyaf cadarnhaol yn y ffordd fwyaf effeithiol.
- Dylai cyfuno tirwedd reoleiddiol seml a rhesymol, a ddyluniwyd ac a weithredir ar y cyd â dull gwirfoddol a arweinir gan ffermwyr, buddsoddiad a dargedir a chefnogaeth technegau arloesol ar ffermydd er mwyn rheoli'r gwaith o storio a gwasgaru slyri yn well, ddarparu llwybr llyfn at wella canlyniadau amgylcheddol, gwella effeithlonrwydd busnesau, a chael mynediad at farchnadoedd presennol a rhai newydd. Nid yw unrhyw un o'r dulliau hyn yn gweithredu ar ei ben ei hun yn debygol o gyflawni'r canlyniad a ddymunir i'r un radd.
- Mae llawr rheoleiddiol cyson yn cynnig rhwyd ddiogelwch bwysig ar gyfer yr amgylchedd pe na bai'r cynllun gwirfoddol yn cyflawni disgwyliadau, gan sicrhau bod cyflwr yr amgylchedd dyfrol yng Nghymru yn gwella yn hytrach nag yn gwaethygu.
- Gall cydymffurfio uwchlaw llawr rheoleiddiol a leolir yn briodol hefyd weithredu'n rhesymol fel llwybr i gael mynediad at y cymhellion a'r mesurau buddsoddi yn y dyfodol y gallai'r is-grŵp ddymuno eu hargymell i Ysgrifennydd y Cabinet.

[15] https://beta.gov.wales/sites/default/files/consultations/2018-02/180223-summary-of-response-nitrate-Vulnerable-zones-in-wales-cy.pdf

Maes B yr adolygiad rheoleiddiol – Egwyddorion arweiniol yr adolygiad

- Mae'r cyd-destun deddfwriaethol yng Nghymru yn cynnig rhai egwyddorion trosfwaol sy'n berthnasol i'r adolygiad hwn o reoleiddio.
- Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn sefydlu cyfres o nodau llesiant ar gyfer Cymru y mae disgwyl i gyrff cyhoeddus wneud cynnydd tuag atynt. Mae'r nodau'n sicrhau bod cyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru, yn dewis datrysiadau atal pellgyrhaeddol a chydgysylltiedig a ddatblygwyd gyda chymunedau a rhanddeiliaid.
- Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn sefydlu egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy fel sail i ddull Llywodraeth Cymru tuag at yr amgylchedd ac yn ymgorffori'r egwyddorion hyn i ddiben Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r egwyddorion hyn yn cyd-fynd â diben yr adolygiad hwn a'r broses gydweithredol â rhanddeiliaid yr ydym yn cychwyn arni.
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi datblygu set o Egwyddorion Rheoleiddio[16] sy'n adlewyrchu cyd-destun ehangach rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac a fydd, trwy eu defnyddio, yn sicrhau bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflawni ei brif ddyletswyddau statudol o fewn cyd-destun deddfwriaethol ehangach rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ogystal â'r nodau llesiant. Dyma'r egwyddorion hynny:

    - Cyflawni canlyniadau
    - Bod yn ddeallus
    - Yn barod i herio
    - Defnyddio’r holl ystod o offer sydd ar gael
    - Bod yn hyblyg
    - Dod â’r sgiliau/arbenigedd iawn at ei gilydd
    - Bod yn effeithlon ac yn effeithiol
    - Bod yn glir ynglŷn â’r hyn rydym yn ei wneud a pham

- Ar lefel y DU, mae'r Weithrediaeth Gwell Rheoleiddio gyda'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol wedi cyflwyno cod ymarfer ar gyfer rheoleiddwyr. Mae'r Cod Rheoleiddwyr yn darparu fframwaith ynghylch sut y dylai rheoleiddwyr ymgysylltu â'r rhai y maen nhw'n eu rheoleiddio. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Naturiol roi sylw i'r cod wrth ddatblygu polisïau a gweithdrefnau gweithredol sy'n arwain eu gweithgareddau rheoleiddiol. Mae pum egwyddor rheoleiddio da yn nodi y dylai unrhyw waith rheoleiddio fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac wedi'i dargedu. Mae egwyddorion rheoleiddio Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd wedi'u cynllunio er mwyn cyflawni ymrwymiad Cyfoeth Naturiol Cymru i’r Cod Rheoleiddwyr.

---

[16] http://naturalresources.wales/about-us/what-we-do/how-we-regulate-you/regulatory-principles/?lang=cy

Maes C yr adolygiad rheoleiddiol – Y trefniadau rheoleiddio sy'n berthnasol i reolwyr tir

- Cyfarwyddeb Nitradau yr UE
- Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr
- Y Gyfarwyddeb Cynefinoedd
- Gofynion trawsgydymffurfiaeth y Polisi Amaeth Cyffredin
- Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw
- Deddf Adnoddau Dŵr
- Rheoliadau Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol (mae elfen olew tanwydd amaethyddol bellach wedi'i diddymu yng Nghymru)
- Rheoliadau Storio Olew
- Rheoliadau Slwtsh
- Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol
- Cod Amddiffyn Dŵr Daear Cymru, Rheoliadau Dŵr Daear Asiantaeth yr Amgylchedd, 2018
- Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol, Atodlen 2
- Deddfwriaeth gynllunio a Pholisi Cynllunio Cymru
- Mesurau sylfaenol (fel yr ymgynghorwyd arnynt yn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru *Bwrw Ymlaen â Rheoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy*, 2017)
- Cosbau sifil
- Cod Ymarfer Amaethyddol Da
- Defnyddio pwerau arbrofol Cyfoeth Naturiol Cymru

Maes D yr adolygiad rheoleiddiol – Canfyddiadau a phrofiadau'r is-grŵp ynghylch rheoleiddio

4.12 Cafwyd ymatebion ysgrifenedig i'r cwestiynau fframio gan gynrychiolwyr o Undeb Amaethwyr Cymru, NFU Cymru, Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin, TFA Cymru, CLA Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru.

4.13 Cafodd 43 o ddatganiadau allweddol eu crynhoi o'r ymatebion unigol – y cafodd pob un ohonynt ei ategu gan un neu ragor o'r ymatebion ysgrifenedig – a'u cyflwyno i'r grŵp fel matrics. Rhoddodd y datganiadau hyn y sail ar gyfer y trafodaethau wyneb yn wyneb.

4.14 Yn dilyn y trafodaethau ynghylch pob datganiad, cynhyrchwyd consensws wedi'i ddiweddaru (Tabl 2). Mae'r matrics hwn yn dangos yn glir y gefnogaeth eang gan randdeiliaid i'r rhan fwyaf o ddatganiadau (celloedd gwyrdd), a nodwyd bod gwneud mwy o waith ymchwil / cael mwy o dystiolaeth yn bwysig er mwyn datblygu gwybodaeth ynghylch nifer o ddatganiadau allweddol (celloedd oren).

4.15 Mae'r matrics yn Nhabl 2 yn dangos consensws eang – ynghylch cyfres o ddatrysiadau posibl yn ogystal ag ynghylch rhai o'r problemau allweddol. Ceir cytundeb hefyd ynghylch sawl maes (oren) sy'n sicrhau tystiolaeth a dadansoddiad pellach. Mae absenoldeb unrhyw goch (anghytuno) yn nodedig, ac

yn galonogol, yn enwedig wrth gofio amrywiaeth y rhanddeiliaid ynghlwm, a'r amrywiaeth o ddatganiadau a fynegwyd.

4.16 Ystyriwyd bod y dull matrics yn ffordd ddefnyddiol o strwythuro'r sesiynau wyneb yn wyneb ac o ymdrin â phob peth oedd ei angen mewn modd trefnus. Yn ystod y sesiynau hyn, bu i bob ochr ddangos agwedd adeiladol, agored ac, yn anad dim, parchus – a oedd o gymorth mawr o ran gwneud cynnydd. Mae sefydlu'r ddeialog ymarferol hon ynddo'i hun yn ganlyniad allweddol i'r broses hon, ac yn sylfaen bwysig y gellir adeiladu gwaith mwy manwl a heriol yr is-grŵp arni.

## Tabl 2: Canfyddiadau rheoleiddiol – matrics diwygiedig o gonsensws yn dilyn y sesiynau wyneb yn wyneb

ALLWEDD:
Gwyrdd = consensws
Oren = mae angen mwy o dystiolaeth a gwaith ymchwil
Gwyn = dim barn
Llwyd = adborth heb ei roi eto

| Mater | Dyddiad a adolygwyd | Undeb Amaethwyr Cymru | NFU Cymru | CLA Cymru | Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin | TFA Cymru | Gweithrediadau CNC | Gweithrediadau CNC | Bwrdd CNC | Polisi CNC | Llywodraeth Cymru, Amaethyddiaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. Datganiad eglur o'r llinell goch: ni ddylai slyri fynd i ddyfrffyrdd | 9 Mawrth | | | | | | | | | | |
| 2. Mae un digwyddiad llygredd yn un yn ormod | 9 Mawrth | | | | | | | | | | |
| 3. Nid yw'r rhan fwyaf o ffermwyr/ardaloedd yn broblem. Mae angen dull o gydnabyddiaeth a enillir / sy'n seiliedig ar risg | 9 Mawrth | | | | | | | | | | |
| 4. Mae angen datblygu fframwaith galluogi ar y cyd er mwyn cynorthwyo ffermwyr i wneud penderfyniadau gwybodus | 9 Mawrth | | | | | | | | | | |
| 5. Mae angen taro'r cydbwysedd yn iawn rhwng dulliau rheoleiddio, mentrau gwirfoddol a buddsoddiad | 9 Mawrth | | | | | | | | | | |
| 6. Mae angen i'r elfennau rheoleiddio a gwirfoddol gydweithio er mwyn i'r llall weithio! | 9 Mawrth | | | | | | | | | | |
| 7. Nifer y rheoliadau / gwahaniaethau rhyngddynt, sy'n arwain at ddiffyg ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad | 9 Mawrth | | | | | | | | | | |
| 8. Mae angen i'r datrysiad fod yn hyblyg, yn gymesuradwy ac yn lleihau cymhlethdod | 9 Mawrth | | | | | | | | | | |
| 9. Gormod o jargon / diffyg cyngor ac arweiniad hygyrch eglur, mae angen pwynt cyswllt sengl | 9 Mawrth | | | | | | | | | | |
| 10. Allgáu digidol | 9 Mawrth | | | | | | | | | | |
| 11. Anhyblygrwydd y rheolau tuag at amodau/tywydd lleol | 9 Mawrth | | | | | | | | | | |
| 12. Busnesau lleol, capasiti isel / lefel o gadw cofnodion yn feichus | 9 Mawrth | | | | | | | | | | |
| 13. Tâp coch: dylai eithriadau rheoleiddio fod yn ddiofyn, heb fod angen ailwneud cais | 9 Mawrth | | | | | | | | | | |
| 14. Cyfaddawdau rhwng gwahanol drefniadau rheoleiddio – rhaid eu cydnabod | 9 Mawrth | | | | | | | | | | |
| 15. Ymateb a chamau gweithredu amserol gan Lywodraeth Cymru yn dilyn ymgynghoriadau | 9 Mawrth | | | | | | | | | | |
| 16. Sancsiynau sifil / gwaith gorfodi / ffafrio graddfa orfodi gynyddol | 9 Mawrth | | | | | | | | | | |
| 17. Rheolau cymesurol sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn hytrach na chofnodi beichus i bawb | 9 Mawrth | | | | | | | | | | |
| 18. AEA: gwaith sgrinio / rhoi cyngor Llywodraeth Cymru yn gweithio'n dda, a gellir ei efelychu mewn mannau eraill | 14 Mawrth | | | | | | | | | | |
| 19. Cyfraddau ceisiadau slyri braidd yn ormodol mae'n debyg | 9 Mawrth | | | | | | | | | | |
| 20. Diffyg gorchudd ar ôl y cnwd indrawn yn debygol o arwain at erydiad pridd/gwaddodion | 9 Mawrth | | | | | | | | | | |
| 21. Oedi o ran dod ag achosion i'w herlyn | 9 Mawrth | | | | | | | | | | |
| 22. Y system gynllunio yn achosi rhwystr o ran cyflawni cydymffurfiaeth | 23 Mawrth | | | | | | | | | | |
| 23. Cynllunio ôl-weithredol ar waith ehangu / cyfleusterau slyri'n annerbyniol | 23 Mawrth | | | | | | | | | | |
| 24. Tenantiaid – her o ran buddsoddi / ansicrwydd oherwydd tenantiaeth | 14 Mawrth | | | | | | | | | | |
| 25. Gwendid o ran monitro a gorfodi cydymffurfiaeth | 14 Mawrth | | | | | | | | | | |
| 26. Fframio mesurau o ran manteision i fusnes y fferm | 14 Mawrth | | | | | | | | | | |
| 27. Angen ôl-stop rheoleiddiol. Dulliau sylfaenol? | 14 Mawrth | | | | | | | | | | |
| 28. Angen bod Atodlen 2 AEA yn cael ei gweithredu'n well, canllawiau mwy clir i awdurdodau cynllunio lleol | 23 Mawrth | | | | | | | | | | |
| 29. Angen i systemau cynllunio weithio'n well | 23 Mawrth | | | | | | | | | | |
| 30. Caiff canllawiau cynghori eu hanwybyddu yn aml, e.e. y Cod Ymarfer Amaethyddol Da | 9 Mawrth | | | | | | | | | | |
| 31. Diffyg eglurder yn y Cod Ymarfer Amethyddol Da rhwng cyngor a'r gyfraith | 9 Mawrth | | | | | | | | | | |
| 32. Gallai trawsgydymffurfio ategu'r Cod Ymarfer Amaethyddol Da | 9 Mawrth | | | | | | | | | | |
| 33. Y dirwedd reoleiddio bresennol yn dibynnu gormod ar y Cod Ymarfer Amaethyddol Da | 14 Mawrth | | | | | | | | | | |
| 34. Diffyg adnoddau ar gyfer gwirio/gorfodi cydymffurfiaeth | 14 Mawrth | | | | | | | | | | |
| 35. Bydd diwygiad cyn 1991 y Rheoliadau Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol yn cosbi ffermwyr sydd â phroblemau slyri | 14 Mawrth | | | | | | | | | | |
| 36. Mae eithriad cyn 1991 y Rheoliadau Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol yn broblematig | 14 Mawrth | | | | | | | | | | |
| 37. Diffyg methodoleg eglur ar gyfer cyfrifo'r gofynion o ran storio slyri | 14 Mawrth | | | | | | | | | | |
| 38. Nid yw'r hysbysiad o bythefnos ar gyfer defnyddio cyfleuster storio slyri newydd yn ddigonol | 14 Mawrth | | | | | | | | | | |
| 39. Dylid annog hunanadrodd drwyddi draw yn y sector | 9 Mawrth | | | | | | | | | | |
| 40. Angen cymryd camau ar y trywydd a fydd yn arwain at weledigaeth | 14 Mawrth | | | | | | | | | | |
| 41. Amserlen heriol ar yr ymarfer hwn | 14 Mawrth | | | | | | | | | | |
| 42. Mae angen canolbwyntio ar brofi pridd / rheoli maetholion yn seiliedig ar RB209 | 14 Mawrth | | | | | | | | | | |
| 43. Dull ffermio dwys yn berthnasol i foch a dofednod yn unig ar hyn o bryd – a ddylid ei ehangu? | 14 Mawrth | | | | | | | | | | |

Datganiadau rhagarweiniol yr oedd cefnogaeth eang iddynt (gwyrdd yn y matrics):

Datganiadau'n ymwneud ag amcanion a rennir:

- Datganiad clir o linell goch: gormod o faetholion a llygryddion eraill, e.e. ni ddylai slyri, cemegion a ddefnyddir ym myd amaeth a phridd fynd i gyrsiau dŵr na dŵr daear
- Mae un digwyddiad llygredd yn un yn ormod Anelwch at yr achos gorau, cynlluniwch ar gyfer yr achos gwaethaf
- Ceir amrywiaeth eang o ran perfformiad amgylcheddol, o fferm i fferm ac o ddalgylch i ddalgylch Mae targedu a chymesuredd yn wirebol

Datganiadau sy'n ymwneud â phroblemau allweddol:

- Nifer y rheoliadau / gwahaniaethau rhyngddynt, sy'n arwain at ddiffyg ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad
- Gormod o jargon / diffyg cyngor ac arweiniad hygyrch eglur y mae modd mynd iddynt drwy bwynt cyswllt sengl
- Anhyblygrwydd y rheolau presennol tuag at amodau/tywydd lleol
- Cyfaddawdau rhwng gwahanol drefniadau rheoleiddio yn rhoi'r gweithredwyr mewn sefyllfaoedd lle mae gwrthdaro
- Diffyg eglurder yn y Cod Arferion Amaethyddol Da o ran cyfraith a chyngor
- Diffyg adnodd digonol ar gyfer gwirio cydymffurfiaeth a gorfodi
- Oedi o ran dod ag achosion i'w herlyn yn annymunol/annerbyniol
- Cyngor ac arweiniad mewn rhai achosion yn cael eu hanwybyddu, e.e. y Cod Arferion Amaethyddol Da
- Diffyg eglurder yn y Cod Arferion Amaethyddol Da o ran cyfraith a chyngor
- Cyfraddau ceisiadau slyri weithiau llawer yn uwch na gofynion maetholion cnwd a chynhwysedd clustogi pridd
- Tenantiaid – her o ran cydbwyso rhwng yr angen am fuddsoddiad tymor hir a'r ansicrwydd oherwydd tenantiaeth
- Allgáu digidol o ran band eang gwael a sgiliau wrth ddylunio datrysiadau
- Amserlen heriol yr ymarfer hwn

Datganiadau sy'n ymwneud â datrysiadau allweddol:

- Angen datblygu cydnabyddiaeth a enillir ac ehangu dull sy'n seiliedig ar risg
- Angen cyd-ddatblygu fframwaith galluogi er mwyn cynorthwyo ffermwyr i wneud penderfyniadau gwybodus
- Taro'r cydbwysedd cywir o ran dulliau rheoleiddio, mentrau gwirfoddol, buddsoddiad ac arloesedd
- Mae angen i ddatrysiadau fod yn hyblyg, yn gymesuradwy ac yn lleihau cymhlethdod
- Ymatebion a chamau gweithredu amserol gan Lywodraeth Cymru yn dilyn ymgynghoriadau
- Sancsiynau sifil / camau gorfodi / ffafrio graddfa orfodi gynyddol

- Defnyddio rheolau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chyflawni canlyniadau yn hytrach na chofnodi beichus i bawb
- Dylid annog hunangofnodi
- Mae angen canolbwyntio ar brofi pridd / rheoli maetholion (e.e. RB209)
- Ar hyn o bryd, mae'r dull ffermio dwys yn berthnasol i foch a dofednod yn unig – archwilio rhinweddau (neu fel arall) y dull hwn ar gyfer gweithrediadau llaeth dwys, fel elfen bosibl o fframwaith rheoleiddio rhesymegol
- Mae angen i gynnydd gyd-fynd â thrywydd a fydd yn arwain at ddatrysiadau hirdymor ar ôl Brexit

<u>Maes E yr adolygiad rheoleiddiol – Argymhellion penodol sy'n codi o'r drafodaeth hyd yn hyn</u>

***Argymhelliad 4.1: Drwy adeiladu ar y broses adeiladol â rhanddeiliaid a sefydlwyd hyd yn hyn, bod yr is-grŵp, fel mater o frys, yn ceisio'r mandad ar gyfer parhau i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o'r problemau cyfredol (bylchau, gorfodi, effeithiolrwydd) yn y dirwedd reoleiddiol.***

4.17 Mae'r dasg hon yn llywio rhan o waith parhaus yr is-grŵp, yn cyfrannu at yr uchelgais y nododd Ysgrifennydd y Cabinet yn ei datganiad, ac yn unol â'r cynnig gan yr undebau ffermio o ran gweithio tuag at ddulliau gwahanol i ddynodiadau Parthau Perygl Nitradau ehangach. Mae'r canfyddiadau presennol yn nodi dechrau'r broses hon ac yn tynnu sylw at feysydd allweddol i'w hymchwilio'n bellach. Mae'n debygol y bydd pynciau eraill yn codi wrth ddatblygu'r gwaith hwn a thrwy ailadrodd y canfyddiadau cychwynnol hyn i grwpiau ehangach o aelodau.

***Argymhelliad 4.2:*** **Bwlch canfyddedig allweddol i'w archwilio ymhellach a derbyn sylw brys gan yr is-grŵp yw absenoldeb rheoliad effeithiol ynghylch arferion taenu slyri, y tu hwnt i gwmpas cyfyngedig ac effeithiolrwydd trawsgydymffurfio a'r arferion gorau a anogir gan y Cod Arferion Amaethyddol Da.Cydnabyddir bod arferion gwael yn hyn o beth yn gysylltiedig â nifer o ddigwyddiadau llygredd slyri.**

***Argymhelliad 4.3: Drwy gydweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol, dylai is-grwp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol archwilio potensial dulliau sylfaenol yn llawn fel ffordd o roi sylw i'r bylchau amlwg clir sydd yn y dirwedd reoleiddio, er mwyn mynd i'r afael â llygredd amaethyddol yn y parth critigol rhwng arferion da a throseddau atebolrwydd llym.***

4.18 Mae'r is-grŵp yn cydnabod yn glir fod gan gynlluniau rheoli maetholion ran ganolog i'w chwarae yn y gwaith o gynhyrchu, storio a defnyddio slyri a gwrteithiau eraill mewn ffordd gyfrifol, yn ogystal â ffrydiau eraill o faetholion sy'n ymwneud â phriddoedd a'r atmosffer. Mae problemau o ran storio a defnyddio slyri yn arwain at nifer o'r digwyddiadau.

***Argymhelliad 4.4:  Dylai'r is-grŵp, gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a chyrff rhanddeiliaid, archwilio'r ffyrdd mwyaf effeithiol o gyflawni cynlluniau rheoli maetholion ar raddfa a chyflymder. Gall cyngor ac arweiniad, cymorth ymarferol, dulliau gwirfoddol, arloesedd a rheoleiddio gael rhannau i'w chwarae o ran gyrru'r gwaith o ddefnyddio cynlluniau rheoli maetholion ar raddfa eang. Cam cyntaf pwysig yw asesu ymarferoldeb ac effeithiolrwydd cynlluniau rheoli maetholion ar hyn o bryd. Mae angen i'r defnydd o faetholion fod yn seiliedig ar brofi pridd a maetholion yn wyddonol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cymhwyso'n gywir mewn ffordd sy'n cyd-fynd ag anghenion cnydau.***

4.19 Ceir cysylltiadau amlwg rhwng cynlluniau rheoli maetholion a dull diwygiedig i'r Rheoliadau Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol.

***Argymhelliad 4.5:  Dylai Llywodraeth Cymru, yr is-grŵp a Cyfoeth Naturiol Cymru ailymweld ag adolygiad y Rheoliadau Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol yng nghyd-destun adolygiad integredig ehangach o'r dirwedd reoleiddiol a gynhaliwyd gan yr is-grŵp, gan gydnabod pwysigrwydd storio slyri wrth fynd i'r afael â llygredd amaethyddol. Mae angen i'r adolygiad barhau i ganolbwyntio yn eglur iawn ar y canlyniad (cadw slyri allan o ddyfrffyrdd), a graddfa'r risg o gyflawni'r canlyniad hwnnw a gynrychiolir gan bresenoldeb ac absenoldeb gwahanol strwythurau ar ffermydd.*** **Mae angen fframio mater 1991, y cyfrifiadau o ran capasiti a'r safonau/cydymffurfiaeth adeiladu yn y modd hwn, gan dynnu ar dystiolaeth o risgiau a chanlyniadau.**

4.20 Mae nifer o aelodau o'r is-grŵp wedi codi rôl y system gynllunio wrth fynd i'r afael â llygredd amaethyddol. Mynegwyd pryder arbennig ynghylch caniatâd cynllunio ôl-weithredol a sgrinio ar gyfer effaith amgylcheddol datblygiadau newydd. Nid yw'r materion hyn wedi'u trafod yn fanwl eto i'r graddau y mae materion allweddol eraill wedi derbyn sylw, er gwaethaf trafodaeth fer yr is-grŵp ar 23 Mawrth. Mae angen archwilio problemau o ran cynllunio fel mater o frys, a dylai hyn fod yn flaenoriaeth i flaenraglen waith yr is-grŵp.

***Argymhelliad 4.6:  Fel cam cyntaf i'r cyfeiriad hwn, dylai'r is-grŵp geisio casglu gweithdy ynghyd gyda chynrychiolwyr o awdurdodau cynllunio lleol ledled Cymru er mwyn codi ymwybyddiaeth ymysg awdurdodau cynllunio lleol ar eu rôl nhw o ran mynd i'r afael â llygredd amaethyddol, yn ogystal ag archwilio dulliau newydd a nodi problemau sy'n bodoli yn y dull presennol. Mae angen amseru'r digwyddiad hwn i gyd-fynd â'r broses adolygu cynlluniau datblygu lleol sydd ar fin digwydd.***

***Argymhelliad 4.7:  Yn seiliedig ar y gwaith blaenorol o baratoi dadansoddiad clir o risgiau, dylai'r is-grŵp, Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru archwilio priodoldeb dull ffermio dwys o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (mwyaf tebygol ar gyfer unedau godro mwy) yng nghyd-destun adolygiad integredig ehangach o'r dirwedd reoleiddiol. Dylid ystyried elfennau o'r drefn bresennol ar gyfer moch a dofednod, gyda dulliau newydd yn ôl yr angen.***

***Argymhelliad 4.8:  Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru, drwy gysylltu'n agos a'r is-grŵp, ddatblygu cynllun ar gyfer defnyddio sancsiynau sifil i'w archwilio ar draws agweddau priodol o'r dirwedd reoleiddiol.***

***Argymhelliad 4.9:  Mae angen i'r is-grŵp, Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymchwil ac Arloesi Cymru, ac arweinwyr y cynnig gwirfoddol wneud gwaith datblygu er mwyn penderfynu'r hyn y gallai'r cynnig cydnabyddiaeth a enillir fod, yn arbennig o ran cefnogi'r fenter wirfoddol a arweinir gan ffermwyr.***

***Argymhelliad 4.10:  Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru adolygu ei ddull gweithredol o ran blaenoriaethu a rheoli gweithdrefnau gorfodi sy'n ymwneud â llygredd amaethyddol a rhannu'r canfyddiadau gyda'r is-grŵp.***

***Argymhelliad 4.11:  Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyllid newydd / rhesymoli cyllid ar frys fel rhan o'r ymrwymiad at fynd i'r afael â llygredd amaethyddol. Mae angen adolygu'r darlun presennol o fuddsoddiad, gan ganolbwyntio ar ganlyniadau'n fwy trylwyr. Dylai'r adolygiad archwilio'r achos ar gyfer cyllid pellach i a) ddarparu cymhellion penodol sydd wedi'u targedau at annog arferion gorau; ii) cefnogi cyngor ac arweiniad tra datblygedig; iii) darparu swyddogion cyswllt cymwys wedi'u hyfforddi; iv) sicrhau ymdrech ddigonol o ran cydymffurfio a gorfodi; v) cynnig yr adnoddau dynol er mwyn parhau i ddatblygu gwaith is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol (ysgrifenyddiaeth ac ati).***

***Argymhelliad 4.12:  Yn fwy eang, mae angen i'r is-grŵp asesu cyfraniad pridd at ansawdd dŵr gwael a'r ffyrdd o fynd i'r afael â'r broblem hon, gan dynnu ar y sail dystiolaeth sylweddol a ddatblygwyd fel rhan o broses y cynllun rheoli basn afon.***

Argymhellion cyffredinol i'w gweithredu fel **cyd-destun hanfodol** i'r adolygiad o reoleiddio

4.21 Mae angen i Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru (gyda mewnbwn gan randdeiliaid) ddatblygu gwybodaeth sylfaenol fwy clir a chyson ar reoliadau presennol ac yn y dyfodol sy'n berthnasol i reolwyr tir.

4.22 Dylid ystyried yr ymadwaith rhwng gwahanol drefniadau rheoleiddio o'r cychwyn cyntaf. Wrth fynd i'r afael â llygredd amaethyddol yn y dyfodol, mae angen nodi unrhyw wrthdaro mewn rheoliadau sy'n cynyddu'r perygl o lygredd a'i ddatrys. Gall hyn gynnwys newid rheoleiddiol a/neu arweiniad gweithredol gwell.

4.23 Dylai'r gwaith o reoleiddio a chadw cofnodion cysylltiedig fod yn gymesur â risg. Mae angen cydbwyso hyn â symlrwydd ac eglurder deniadol dull sy'n addas i bawb. Gall y gwaith presennol o ymgorffori rheoliadau gwastraff a hylendid bwyd (oddi ar y fferm) fod yn enghreifftiau da o daro'r cydbwysedd hwn.

4.24 Wrth gynnig dulliau rheoleiddio er mwyn mynd i'r afael â llygredd amaethyddol, mae angen taro cydbwysedd sylfaenol rhwng cyngor ac arweiniad clir a syml ynghylch rheoleiddio clir a syml, a rheoleiddio sy'n canolbwyntio ar

ganlyniadau ac felly'n gallu addasu i amrywiaeth yr amgylchiadau sy'n bodoli yn y byd go iawn.

4.25 Mae angen cynnwys arbenigwyr cydnabyddedig ym maes cyfleu perthnasedd rheoleiddio o safbwynt busnes i ffermwyr yn ystod cam cynnar o ddylunio'r pecyn o ddulliau wrth symud ymlaen. Mae'r enghreifftiau gorau o'r dull hwn yn cynnwys tîm ymroddedig sydd â digon o adnoddau. Ni ddylid anwybyddu'r goblygiadau o ran adnoddau'r dull hwn.

4.26 Mae'n rhaid i unrhyw ddulliau sy'n defnyddio technoleg ddigidol hefyd fod yn hawdd i'r rheiny na all gael mynediad at gysylltiadau dibynadwy â rhwydwaith eu defnyddio a chydnabod sgiliau digidol o lefelau amrywiol. Ni ellir cymryd yn ganiataol fod gan bawb gysylltedd digidol a sylfaen o sgiliau.

4.27 Mae angen i Cyfoeth Naturiol Cymru archwilio dulliau amgen i esemptiadau gwastraff amaethyddol ar y fferm sy'n fwy ystyrlon ac effeithlon o ran adnoddau i ffermwyr a'r rheoleiddiwr.

4.28 Mae angen i Cyfoeth Naturiol Cymru gasglu mwy o dystiolaeth er mwyn deall maint y broblem o erydiad pridd indrawn a diffygion yn y ffyrdd presennol o fynd i'r afael â hyn / datrysiadau posibl.

4.29 Roedd yr is-grŵp yn derbyn y gellir ehangu'r cydbwysedd rhwng perfformiad amgylcheddol a chymorth y cyhoedd y tu hwnt i'r cyd-destun trawsgydymffurfio presennol, a dylai ffurfio gofyniad sylfaenol ar gyfer taliadau yn y dyfodol – sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Gallai dull o'r fath ehangu credadwyedd y sector amaethyddol yng Nghymru drwy raglen Gwerthoedd Cynaliadwyedd (a gyfeirir ati fel 'Brand Cymru').

4.30 Mae angen hyrwyddo negeseuon clir ynghylch manteision hunanadrodd drwy bob sianel sydd ar gael. Mae'r prosiectau sy'n cael eu disgrifio ym Mhennod 6 yn cynrychioli cyfle da i ddechrau ar hyn. Bydd astudiaethau achos yn helpu i gyfleu'r neges hon.

4.31 O ystyried y gyfran uchel o dir â thenantiaid yng Nghymru (tua 27%), mae angen i ddulliau i fynd i'r afael â llygredd amaethyddol weithio'n effeithiol gyda'r sector a denantir. Dylid ceisio mewnbwn pellach gan undebau, tenantiaid, a landlordiaid yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

4.32 Dylid cadw egwyddor cyflwroldeb amgylcheddol fel rhan o gynlluniau talu yn y dyfodol, gan gydnabod ei phŵer o ran cymell ffermwyr a rhoi ymdeimlad o degwch i'r trethdalwr.

<u>Casgliadau a'r camau nesaf</u>

4.33 Mae'r is-grŵp yn rhoi cydnabyddiaeth amlwg i'r angen i weithio'n gyflym ar y mater hwn, a ddengys yn rhannol gan yr ymrwymiad sylweddol o ran amser a wnaed gan aelodau wrth baratoi'r adroddiad hwn, a'r sesiynau â rhanddeiliaid sy'n sail iddo.

4.34 Mae cyflymder a chynnydd yr adolygiad rheoleiddiol wedi bod yn galonogol, diolch i'r ymagwedd adeiladol, agored a pharchus sydd wedi'i chymryd gan bob parti. Sefydlwyd consensws defnyddiol ynghylch natur yr her, yr offer allweddol er mwyn ymdrin â hi, a chyfres o feini prawf o ran dyluniad. Ond, fel bod yr argymhellion yn dangos yn glir, mae nifer o broblemau sydd angen mwy o ymchwil fanwl arnynt o hyd.

4.35 Mae meysydd allweddol ar gyfer cam nesaf gwaith yr is-grŵp yn cynnwys archwilio dulliau o gynlluniau rheoli maetholion ar raddfa fawr, potensial dulliau sylfaenol er mwyn cefnogi hyn, diwygiadau integredig sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau o ran y Rheoliadau Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol, archwilio gwerth dull Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol i ffermio llaeth dwys, cwmpasu'r defnydd ehangach o sancsiynau sifil, adolygu'r gwaith o fonitro cydymffurfiaeth a gorfodi, datblygu'r cysyniad o gydnabyddiaeth a enillir ochr yn ochr â'r cynllun gwirfoddol, ac egluro a gwella cyngor ac arweiniad ynghylch rheoleiddio. Mae angen parhau hefyd ag ymgysylltu'n eang â'n haelodau / rhwydweithiau o gydweithwyr er mwyn sicrhau ein bod wedi rhoi sylw llawn i'r materion allweddol a nodi'r bylchau y mae'r dadansoddiad cychwynnol hwn yn seiliedig arnynt.

4.36 Yn amodol ar gymeradwyaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet, mae'r is-grŵp hwn yn cynnig sefydlu blaenraglen waith gorchwyl a gorffen er mwyn archwilio pob un o'r meysydd allweddol a nodir uchod yn fanwl – wedi'i llywio gan argymhellion yr adroddiad hwn – a datblygu barn ynghylch y gwerth y gall pob un ohonynt ei gynnig (ac, yn bwysig, ar y cyd), er mwyn mynd i'r afael â phroblem llygredd amaethyddol. Bydd yr ymchwiliadau manwl hyn yn tynnu sylw at ystyriaethau allweddol o ran ymgorffori ac, yn bwysig, yn ehangu ar sut y gallai pob un ohonynt gefnogi a chael ei chefnogi gan yr elfennau gwirfoddol a chymhellol a drafodir mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn.

Manteisio ar gydweithio

4.37 Wrth symud ymlaen, mae angen talu sylw manwl i ddyluniad elfennau unigol er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio ar eu pen eu hunain a gyda'i gilydd. Dylai rheoleiddio gefnogi'r cynllun gwirfoddol, a dylai'r cynllun gwirfoddol gefnogi rheoleiddio. Gellir cyflawni'r synergedd hwn drwy'r awgrymiadau canlynol.

Sut y gall cynllun gwirfoddol priodol gefnogi rheoleiddio

- Nid yw rheoleiddiwr yn rheoleiddio heb adnoddau, ac nid oes ychwaith adnoddau di-ben-draw ganddo. Drwy gysoni rheoleiddio ffurfiol â chamau gwirfoddol a chymhellion, mae cyrraedd canlyniadau a rennir yn dod yn weithgaredd ar y cyd, gan gynnwys llawer mwy o bobl a chyrff aelodau yn y gwaith o gyflawni'r canlyniadau hynny a rennir trwy gynnig cyfrwng cyflawni go iawn.
- Mae cynnwys ffermwyr yn y modd hwn yn dod â'u dealltwriaeth ymarferol ddofn o'u hamgylchedd eu hunain i'r amcanion, gan arwain at gyflawni canlyniadau'n well.

- Caiff arloesedd ei feithrin drwy roi llai o bwyslais ar gyfarwyddyd.
- Gall hyblygrwydd y dull gwirfoddol, ar y cyd â rheoliadau craidd craff sy'n cydnabod cyd-destun, weithio'n effeithiol gyda natur ddeinamig (ac un sy'n dibynnu ar y tywydd yn y bôn) busnesau fferm.

Mae dull gwirfoddol a gefnogir gan fuddsoddiadau o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat yn galluogi i ddull marchnad gael ei ddatblygu: cymerir camau gweithredu yn seiliedig ar faint y broblem (y galw, a nodir gan reoleiddio) a chost ac argaeledd cymharol datrysiadau posibl (y cyflenwad). Mae'r farchnad wedyn yn ysgogi arloesedd a buddsoddiad a dargedir (gan gynnwys y taliadau ar gyfer gwasanaethau ecosystem (TWE)) er mwyn mynd i'r afael â'r problemau mewn ffordd sy'n effeithlon o ran adnoddau.

<u>Sut y gall rheoleiddio priodol gefnogi camau gweithredu gwirfoddol:</u>

- Cynnig sylfaen deg a chyfartal lle mae pob un sy'n rhan o'r cynllun gwirfoddol yn adeiladu ar yr un safonau cyffredinol o'r cychwyn cyntaf.
- Rhoi eglurdeb ynghylch yr hyn y mae'r buddsoddwyr yn talu amdano (boed yn fuddsoddwyr TWE sy'n cael eu harwain gan y farchnad, yn ddefnyddwyr Brand Cymru neu o'r sector cyhoeddus) yn y cynllun gwirfoddol.
- Mae rheoleiddio da yn ymgorffori proses a allai helpu'r ffermwr i nodi problemau, a gwirio cydymffurfiaeth o ran cynnydd er mwyn eu datrys. Gall y dull gwirfoddol ddefnyddio'r problemau fel canllaw i ddatblygu a chyflawni cynllun gweithredu priodol, yn unol â chymhellion addas.
- Gall dull cymesur sy'n seiliedig ar risg tuag at reoleiddio gydnabod y perygl is a berir gan ffermwyr sy'n cymryd rhan mewn cynllun gwirfoddol a archwiliwyd yn dda ac arfer cydnabyddiaeth a enillir – sy'n cynnig anogaeth ychwanegol nad yw'n ariannol er mwyn cymryd rhan yn y rhaglen wirfoddol.
- Mae rheoleiddio'n amodol ar adolygiad cyfnodol yn erbyn perfformiad. Byddai methu â chyflawni canlyniadau yn y modd a ragwelir drwy gymryd camau gweithredu gwirfoddol yn rhoi mwy o bwysau ar ddull rheoleiddio mwy ffurfiol er mwyn mynd i'r afael â'r broblem yn y dyfodol. Gallai'r posibilrwydd hwn fod yn ymrwymiad ychwanegol i'r dull gwirfoddol, fel ffordd o osgoi dull amgen a fyddai'n rhoi mwy o bwyslais ar reoleiddio ffurfiol.

4.38 Mae Ffigurau 7 ac 8 yn gosod y cysyniadau hyn a rhai argymhellion petrus o'r adolygiad hwn o fewn fframwaith cysyniadol ehangach. Gellir dadlau bod y sefyllfa bresennol yn cael ei chynrychioli yn Ffigur 7. Cefnogir y llawr rheoleiddiol tameidiog ac aneglur (llinell las) gan argaeledd anghyflawn sancsiynau sifil, a phrin yw'r cymhellion i weithredu uwchlaw'r llawr rheoleiddiol, na'r cymhellion er mwyn i fuddsoddwyr fuddsoddi. Yn y cyd-destun hwn, mae canlyniad 'da' gan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn parhau'n heriol.


4.39 Mae Ffigur 8 yn amlinellu'r synergedd posibl o gyflawni statws 'da' y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, rhwng amrediad eang o ddulliau rheoleiddio ffurfiol ac anffurfiol – yn bwysicaf oll, llawr rheoleiddiol wedi'i resymoli sydd wedi’i danategu, lle mae angen profedig, gan ddulliau sylfaenol. Mae'r llawr rheoleiddiol yn gweithredu ar y cyd â chynllun gwirfoddol sy'n gysylltiedig â chydnabyddiaeth a enillir, gyda chymhellion ychwanegol uwchlaw'r llawr rheoleiddiol a ddarperir gan TWE a mynediad at farchnadoedd premiwm. Islaw'r llawr rheoleiddiol, mae sancsiynau sifil yn helpu i gyflawni'r dull cymesur o orfodi sy'n seiliedig ar risg, sydd wrth wraidd egwyddorion rheoleiddiol Cyfoeth Naturiol Cymru.

4.40 Er bod rhinweddau dull ar y cyd sy'n cynnwys rheoleiddio ffurfiol ac elfen wirfoddol yn glir, ceir hefyd risgiau, megis diffyg ymrwymiad at gynllun gwirfoddol, gan arwain at y system gyffredinol yn tanberfformio. Mae rôl buddsoddiad yn hanfodol fan hyn, er mwyn rhoi'r cymhellion ariannol i annog pobl i ymgysylltu â'r elfen wirfoddol. Mae cydnabyddiaeth a enillir a datblygiad fframwaith gweithredu addas hefyd yn ffactorau hanfodol ar gyfer gweithredu dull ar y cyd, gan gynnwys datblygiad proffesiynol parhaus a'r gallu a'r hyder i adrodd am gydymffurfiaeth.


4.41 Yn olaf, mae hefyd wedi cael ei ddangos bod cadw'r opsiwn o reoleiddio ffurfiol pellach ar sail adolygu cynnydd yn gymhelliad cadarnhaol pwerus ar gyfer ymgysylltu gwirfoddol (er enghraifft, gwaith yn nalgylch Catskills, UDA).

4.42 Nid yw'r risgiau'n unigryw i'r gwaith o gynllunio ac ymgorffori'r elfen wirfoddol: bydd symud y llawr rheoleiddiol yn rhy uchel neu'n rhy isel o ran y cynllun gwirfoddol naill ai'n gorgyffwrdd â gwerth ychwanegol y cynllun gwirfoddol a'i danseilio, neu'n gadael bwlch mawr lle bydd y rheoleiddio'n dod i ben a'r dulliau gwirfoddol yn cychwyn – bwlch y mae'n bosibl y gall ffermwyr dynnu yn ôl o'r broses o’i herwydd. Mae cydnabod a lliniaru risgiau o'r fath yn amlygu pwysigrwydd cydgynllunio elfennau rheoleiddiol, gwirfoddol a chymhellol y dull.

**Ffigur 7 – Adolygiad rheoleiddiol o lygredd amaethyddol – y canfyddiad presennol**




**Ffigur 8 – Adolygiad rheoleiddiol o lygredd amaethyddol – y potensial ar gyfer synergedd**



**Pennod 5 Datblygu dull gwirfoddol ar gyfer rheoli maethynnau**

Cefndir

5.1 Yn unol â datganiad ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch mynd i'r afael â llygredd nitradau, mae'r bennod hon yn edrych ar ddatblygu dull gwirfoddol o ran rheoli maethynnau a'r opsiynau ar gyfer rhoi hyblygrwydd i reolwyr tir – lle byddai'r rhain yn cyflawni'r un canlyniadau neu rai gwell na dull rheoleiddiol. Fel rhan o'r dull hwn, rhoddir ystyriaeth bellach i gynnig gan y diwydiant amaethyddol a ysbrydolwyd gan brosiect gwrthbwyso maetholion First Milk.

5.2 Mae is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol wedi nodi rôl dull gwirfoddol a chydnabyddiaeth a enillir fel techneg allweddol yn y rhychwant o ddulliau sydd ar gael i gefnogi'r gwaith o gyflawni canlyniadau cadarnhaol ar gyfer ansawdd dŵr. Yn dilyn cyflwyniad gan y ffermwyr Mike Smith a Will Pritchard, ac ymweliad fferm ym mis Hydref 2017, mae'r is-grŵp wedi bod yn weithgar wrth ddilyn y dull safonol gwirfoddol fel un o'r pum prif thema graidd.

5.3 Y nod yw creu cynllun gwrthbwyso maetholion, ar sail yr hyn a ddysgwyd gan brosiect gwrthbwyso maetholion First Milk, a datblygu proses cydnabyddiaeth a enillir dan arweiniad ffermwyr i greu dull Cymru gyfan o reoli maethynnau sy’n hawdd i ffermwyr ledled Cymru fynd ato ac sy'n cynnwys pob sector ym maes ffermio.

5.4 Mae dull gwirfoddol yn cyd-fynd â'r fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, drwy Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sy'n rhoi'r ddeddfwriaeth sydd ei hangen ar waith i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgysylltiedig. Mae'n sefydlu egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan adlewyrchu partneriaeth hynod gydweithredol, a gellir ei addasu a'i ddatblygu er mwyn rheoli ein hadnoddau naturiol – gan roi'r cyfle i ffermwyr arloesi er mwyn cyflenwi buddion lluosog.

5.5 Mae'r buddion lluosog yn cynnwys gwell dŵr arwyneb, dŵr daear ac ansawdd pridd; cynefinoedd o ansawdd gwell a phoblogaethau mwy o bysgod; a chydnerthedd a hyfywedd gwell i fusnes y fferm drwy effeithlonrwydd adnoddau a chyfleoedd marchnata, yn ogystal â'r gallu i gyflawni 'mwy gyda llai' oherwydd synergedd gyda dulliau rheoleiddio.

5.6 Rydym yn cydnabod bod yn rhaid i unrhyw ddull gwirfoddol fod yn seiliedig ar dystiolaeth a chael ei fonitro mewn ffordd sy'n dangos bod gwelliannau mesuradwy mewn ansawdd dŵr yn cael eu cyflawni. Mae ei rôl o ddangos ei gywerthedd â deddfwriaeth Ewrop yn dilyn Brexit, fel bod modd cynnal mynediad at farchnad cynhyrchion amaethyddol yn y dyfodol, hefyd yn ystyriaeth bwysig.

Cynllun gwrthbwyso maetholion First Milk

5.7 Datblygwyd prosiect First Milk, sydd bellach ar fin dechrau ei bedwaredd flwyddyn, fel rhan o'r drwydded weithredol a gyflwynwyd i Hufenfa Hwlffordd. Mae'r cynllun yn bodloni'r amodau trwyddedu penodol a gyflwynir o dan y dull trwyddedu amgylcheddol ehangach a weithredwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Caiff arbedion

allyriadau maetholion wedi’u modelu o bob fferm sy'n cymryd rhan eu cofnodi a'u harchwilio'n annibynnol bob blwyddyn gan y Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol fel rhan o fanylebau'r drwydded.

5.8 Mae'r dull dewisol yn gofyn bod ffermwyr yn dewis mesurau lliniaru maetholion sy'n briodol i'w systemau ffermio. Mae effaith pob mesur o ran allyrru llai o nitradau, ffosfforws a gronynnau pridd wedi'i modelu gan ddefnyddio teclyn cymorth wrth wneud penderfyniadau Farmscoper y Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol.[17]

5.9 Mae'r ffermwyr sy'n cymryd rhan yn y cynllun gwrthbwyso maetholion yn dewis y mesurau lliniaru sydd fwyaf priodol a chyraeddadwy ar gyfer eu mentrau eu hunain. Mae hyn yn galluogi'r hufenfa i gyflawni'r cwota o ran y gostyngiad angenrheidiol mewn allyriadau maetholion, fel y gall gydymffurfio â'i thrwydded weithredu.

5.10 Ar hyn o bryd, mae 22 o ffermydd yn cymryd rhan yn y cynllun, y mae 12 ohonynt yn draenio i ddalgylch Afon Cleddau. Ar gyfartaledd, mae pob un o'r ffermwyr yn arbed tunnell o nitradau bob blwyddyn. Mae'r data allbwn gan fodel Farmscoper yn mesur y gostyngiad o ran colledion llygrydd ac yn caniatáu cymariaethau rhwng ffermydd a lleoliadau. Mae'n hawdd mesur y buddion economaidd, ac mae cymryd rhan yn y cynllun wedi bod yn bwysig o ran newid ymddygiad ymysg y garfan o ffermwyr sy'n cymryd rhan.

5.11 Yng nghyd-destun Adolygiad Nitradau Llywodraeth Cymru, cododd cyfleoedd i adeiladu ar sylfaen cynllun gwrthbwyso maetholion First Milk fel datrysiad posibl sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, gan gyflawni gostyngiadau mesuradwy mewn nitradau ym maes amaethyddiaeth yn unol ag uchelgais Cyfarwyddeb Nitradau yr UE.

<u>Ffermio Baner Las</u>

5.12 Dull partneriaeth a arweinir gan ffermwyr o gyflawni canlyniadau amgylcheddol cadarnhaol i ddŵr drwy broses o gydnabyddiaeth a enillir yw dull ‘Ffermio Baner Las’. Mae'n ceisio adeiladu ar brofiadau cynllun gwrthbwyso maetholion First Milk a dysgu ohonynt, ac yn cynnwys cyfranogiadau gweithredol gan nifer o brif gwmnïau cydweithredol y mae ffermwyr yn berchen arnynt yng Nghymru.

5.13 Mae'r cynnig yn seiliedig ar fethodoleg Farmscoper – a'r nod yw ehangu nifer y ffermwyr sy'n cymryd rhan o'r nifer sydd eu hangen ar gyfer cynllun gwrthbwyso maetholion First Milk ar hyn o bryd. Byddai datblygu dull gweithredu ledled Cymru yn cael ei gyflawni drwy broses o ymgysylltu'n raddol â ffermwyr:

---

[17] Dyma system sy'n seiliedig ar Excel, a ddatblygwyd yn wreiddiol ar gyfer dadansoddi polisi fel rhan o brosiect a ariannwyd gan DEFRA.Mae'r model yn cynnwys 'llyfrgell' o oddeutu 100 o fesurau lliniaru, y gellir eu defnyddio i fynd i'r afael â llygredd dŵr gwasgaredig, allyriadau nwyon tŷ gwydr ac allyriadau amonia o amaethyddiaeth.

**Haen 1**

Casglu data gwaelodlin gan ddefnyddio teclyn Farmscoper
Nodi ac ymrwymo i ymgymryd â mesurau lliniaru maetholion fel y nodir mewn cynllun lliniaru ac a ddatblygwyd drwy ap ffôn symudol
Datblygu asesiadau risg ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau ffermio, gan gynnwys storio a thaenu slyri
Ymrwymo i gyflogi contractwyr cymeradwy wedi'u hyfforddi ar gyfer gweithgareddau ar y fferm

*Uchelgais – nifer uchel yn cymryd rhan*

**Haen 2**

Cynnal archwiliad o'r cynllun lliniaru
Ymgysylltu ar sail gynghorol â Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyswllt Ffermio a chyrff eraill
Nodi ac ymrwymo i ymgymryd â mwy o fesurau lliniaru sydd o fudd i'r amgylchedd (fel y nodir yn y cynllun lliniaru)

*Uchelgais – lleihad o 15% mewn allyriadau nitradau*

**Haen 3**

Cynnal archwiliad o'r cynllun lliniaru
Nodi ac ymrwymo i fesurau lliniaru pellach (fel y nodir yn y cynllun lliniaru)
Cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol parhaus perthnasol a dangos tystiolaeth ohono

*Uchelgais – lleihad o 25% mewn allyriadau nitradau*

5.14 Mae'r model lliniaru'n gweithio ar gyfer pob sector, a'r nod yw dangos gwelliant o ran canran a fesurir o'r gwaelodlin.

5.15 Byddai defnyddio baneri ar gatiau fferm pob un sy'n cymryd rhan (gan wahaniaethu rhwng pob haen o ran cynnydd) yn hynod weladwy ac yn sicrhau cydnabyddiaeth gyhoeddus ac yn y diwydiant.Byddai system o archwilio bob blwyddyn yn sefydlu'r cysyniad o 'gydnabyddiaeth a enillir' – y gellid ei chydnabod gan y rheoleiddiwr. Byddai hyn yn arwain at lai o arolygiadau rheoleiddiol ar y ffermydd sy'n cymryd rhan, yn amodol ar y ffaith y gellir dangos bod y ffermydd hyn yn peri llai o risg trwy archwiliad y cynllun. Drwy'r dull hwn, mae'n bosibl y bydd modd hefyd ailddyrannu adnoddau cydymffurfio/gorfodi er mwyn canolbwyntio ar ffermwyr sy'n peri risg uwch / y rheiny sy'n dewis peidio â chofrestru ar y rhaglen.

5.16 Nodwyd rôl contractwyr amaethyddol o bwysigrwydd hanfodol, yn enwedig o ran taenu slyri. Oherwydd hyn, ystyrir bod datblygu Cod Ymarfer ar gyfer Contractwyr Amaethyddol yn ganolog i ddull Ffermio Baner Las. Byddai hyn yn cynnwys hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus, safonau cynnal a chadw gofynnol, defnyddio'r technolegau diweddaraf, gan gynnwys System Leoli Fyd-eang a mesuryddion llif, i fonitro ceisiadau slyri, a thechnegau ffermio manwl, yn ogystal â chadw cofnodion digidol. Mae cynnwys pob un o'r gofynion hyn ar gyfer Ffermio Baner Las yn sicrhau bod y farchnad yn datblygu ar gyfer gweithredwyr 'arferion gorau.'

Datblygu'r cysyniad o Ffermio Baner Las

5.17 Mae datganiad ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet wedi rhoi hwb pellach i ddatblygu'r cysyniad o Ffermio Baner Las. Hyd yma, mae hyn wedi ystyried y rhyngwyneb rhwng y teclyn Farmscoper a ffermwyr. Cynlluniwyd y teclyn Farmscoper yn wreiddiol ar gyfer dadansoddi polisi ac adeiladu ar brofiad y cynllun gwrthbwyso First Milk, sy'n cyflwyno dull 'a arweinir gan ymgynghorwyr' tuag at gefnogi ffermwyr i ryngweithio â'r model Farmscoper. O ganlyniad i hyn, cydnabuwyd bod angen datblygu rhyngwyneb gwell rhwng Farmscoper a ffermwyr.Bydd hyn yn hanfodol os yw niferoedd sylweddol o ffermwyr yn mynd i ymgysylltu â'r teclyn modelu hwn.

5.18 Ar hyn o bryd, mae Ffermio Baner Las yn mynd ati i ddatblygu ap ar gyfer ffonau symudol gyda chwmni meddalwedd blaenllaw. Bydd hyn yn cynnig teclyn syml, hawdd i'w ddefnyddio er mwyn i ffermwyr gasglu holl ddata allweddol o'r fferm, a bydd yn gweithio ar-lein neu all-lein. Bydd y teclyn yn cynnwys amserlen o ofynion data, gyda rhaglen o hysbysiadau wedi'i gosod arno i ffermwyr, fel bod modd ychwanegu data fesul cam. Bydd y teclyn yn defnyddio datrysiad sy'n seiliedig ar gwmwl gyda data'n cael ei gyflwyno i set adrodd. Bydd set gynhwysfawr o declynnau adrodd wedi'u cynllunio ar gyfer y gynulleidfa darged ar gael ar-lein a gyda hysbysiadau awtomatig.

5.19 Mae sgrinluniau enghreifftiol o'r teclyn casglu data ar gael.Mae Ffermio Baner Las bellach yn awyddus i ddatblygu'r ap, sy'n cynnwys datblygu'r feddalwedd a phrofion gan ddefnyddwyr.

5.20 Mae gwaith hefyd ar waith i ddatblygu pecyn cynhwysfawr o hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer contractwyr ar y fferm. Mae hyn yn cynnwys trafod gyda'r sefydliad sgiliau ar gyfer diwydiannau sy'n seiliedig ar y tir (Lantra) ynghylch datblygu cwrs hyfforddiant achrededig penodol mewn perthynas â'r risgiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â thaenu slyri. Nodwyd hyn fel bwlch oherwydd nad yw'n bodoli yn fframwaith Cyswllt Ffermio ar hyn o bryd, er y rhagwelir y gellir ei gynnwys yng 'nghynnig' Cyswllt Ffermio unwaith y bydd y gwaith datblygu wedi'i gwblhau.

5.21 Mae ymrwymiad ffermwyr yn hanfodol er mwyn sicrhau llwyddiant, a chynhaliwyd cyfarfodydd â ffermwyr ledled Cymru yn rhan o'r gwaith hyrwyddo, drwy'r undebau ffermio yn ogystal ag ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ehangach. Mae hyn yn cynnwys trafodaethau parhaus â nifer o gwmnïau cydweithredol blaenllaw Cymru, gan gynnwys First Milk, Puffin Produce, Amaethwyr Clynderwen a Cheredigion, a Pembrokeshire Machinery Ring, sydd â'r potensial i gael cymorth gan aelodaeth eu priod sefydliadau. Mae cyfarfodydd pellach gyda chwmnïau cydweithredol ledled Cymru wedi'u cynllunio. Mae'r gefnogaeth dros ddull Ffermio Baner Las wedi bod yn galonogol tu hwnt.

5.22 Wrth symud i gam nesaf datblygiad Ffermio Baner Las, mae is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol yn nodi bod angen gwneud cynnydd mewn nifer o feysydd allweddol (yn ogystal â'r rhai a ddisgrifir uchod) mewn perthynas â fframwaith gweithredu cyffredinol dull gwirfoddol, gan gynnwys:

- Cyngor, canllawiau, sgiliau a hyfforddiant – yn ogystal â'r ffrwd waith i gontractwyr a nodir uchod, bydd angen cynnal arfarniad o'r cymorth y bydd ei angen ar ffermwyr er mwyn cynorthwyo'r defnydd o'r ap Ffermio Baner Las, yn ogystal â sefydlu'r mesurau lliniaru a nodwyd
- Dull canolog o gasglu data – ystyried ble y bydd y data a gesglir gan yr ap Ffermio Baner Las yn cael ei gadw a chan bwy, gofynion o ran rhannu data i ddangos cydnabyddiaeth a enillir ac ati
- Teclyn modelu – ystyried Farmscoper ac a oes ganddo rym ac a yw'n dderbyniol i randdeiliaid ehangach i fod yn sail i ddull Ffermio Baner Las; mae hyn yn cynnwys deall a yw'n gallu (fel dull modelu) dangos tystiolaeth gadarn o welliannau mesuradwy o ran ansawdd dŵr ar lefel fferm, dalgylch a Chymru gyfan
- System i weld a ellir ei wirio/archwilio – er mwyn sicrhau bod yr ymrwymiad at fesurau lliniaru drwy'r ap Ffermio Baner Las ar lefel fferm yn cael ei gyflawni, a bod modd ei wirio yn unol â'r dull o gydnabyddiaeth a enillir
- Llywodraethu'r cynllun Ffermio Baner Las a arweinir gan ffermwyr – datblygu fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd cyffredinol, y mae Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn gefnogol ohono
- Cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu – symud tuag at y camau o brofi gan ddefnyddwyr ac ymgorffori, strategaeth gynhwysfawr er mwyn codi ymwybyddiaeth, rhoi gwybodaeth, ac ymgysylltu'n rhagweithiol â busnesau fferm o ran y dull Ffermio Baner Las
- Adnoddau – cynnal arfarniad o'r adnoddau sydd eu hangen er mwyn datblygu’r cysyniad o Ffermio Baner Las tuag at y cam ymgorffori, gan baratoi cynllun manwl o'r prosiect yn ogystal ag archwilio ffyrdd o ariannu
- Integreiddio ag agenda bolisi ehangach – yn unol ag egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, bydd angen deall sut a lle mae'r cynllun Ffermio Baner Las yn cyd-fynd â'r agenda bolisi gyffredinol, gan gynnwys polisi amaethyddol ar ôl PAC a datblygu rhaglen gwerthoedd brand cynaliadwyedd

5.23 Nododd yr is-grŵp y gall y rhai sy’n cymryd rhan yn y cynllun Ffermio Baner Las ddatblygu rhai o’r meysydd eu hunain, a bydd agweddau eraill yn dibynnu ar lefel uchel o gydweithredu a chyfeiriad gan is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol, yn ogystal â meysydd polisi ehangach.

5.24 Bydd y meysydd y mae angen i is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol eu hystyried er mwyn rhoi cyfeiriad i ddull Ffermio Baner Las hefyd yn darparu canllaw defnyddiol i bartïon eraill sydd â diddordeb mewn datblygu dulliau gwirfoddol.

***Argymhelliad 5.1: Dros y misoedd nesaf, bydd is-grwp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol yn ystyried ac yn pennu cyfeiriad ym meysydd systemau profi/archwilio ac integreiddio â'r agenda bolisi ehangach, canllawiau a llywodraethu er mwyn cefnogi cam nesaf datblygiad Ffermio Baner Las, a datblygiad dulliau gwirfoddol posibl eraill o gydnabyddiaeth a enillir. Awgrymir bod y gwaith hwn yn cael ei wneud trwy gyfrwng grŵp gorchwyl a gorffen.***

***Argymhelliad 5.2: Fel rhan o'r grŵp gorchwyl a gorffen, bydd angen i Lywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ddatblygu canllawiau ar gyfer cynlluniau sicrwydd cymeradwy, y mae angen iddynt gynnwys y canlynol:***

- ***Sut y mae cynlluniau sicrwydd yn dod yn gynlluniau sicrwydd cymeradwy ar gyfer ansawdd dŵr***
- ***Sut y mae cynlluniau sicrwydd cymeradwy yn gweithredu wedi iddynt gael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru***
- ***Sut y mae Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoli cydnabyddiaeth a enillir trwy gynlluniau sicrwydd cymeradwy***
- ***Sut y mae awdurdodau gorfodi yn dileu cydnabyddiaeth a enillir***

Cais am bartneriaeth â Cyfoeth Naturiol Cymru

5.25 Er mwyn cefnogi'r gwaith o roi adnoddau ar gyfer cam nesaf y datblygiad, mae is-grwp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol, dan arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru, wedi gwneud cais am gyllid partneriaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Nod y prosiect hwn yw archwilio opsiynau ar gyfer datblygu dulliau a arweinir gan ffermwyr tuag at wneud gwelliannau i ansawdd dŵr.

5.26 Os yw'n llwyddiannus, bydd y cyllid yn hwyluso'r gwaith o benodi un rheolwr prosiect / arweinydd technegol llawn amser er mwyn datblygu dull a arweinir gan ffermwyr.

5.27 Mae'r cais hwn wedi symud ymlaen yn llwyddiannus trwy'r cam mynegi diddordeb, ac mae yng ngham y cais llawn ar hyn o bryd. Os yw'r cais am gyllid yn llwyddiannus, rhagwelir y bydd yn dechrau ar y cyfle cyntaf posibl, a bydd yn rhedeg tan 31 Rhagfyr 2019.

***Argymhelliad 5.3: NFU Cymru i symud y cais llawn ar gyfer cyllid partneriaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei flaen, er mwyn darparu adnoddau ar gyfer datblygu'r prosiect. Y nod yw dechrau ar y cam hwn o waith erbyn mis Gorffennaf 2018 (yn amodol ar gais llwyddiannus).***

Ymgysylltu â ffermwyr

5.28 Yn ogystal â'r gwaith a ddisgrifiwyd, rydym yn cydnabod bod ymgysylltu â ffermwyr a chodi ymwybyddiaeth yn allweddol os ydym am ddatblygu.

5.29 Fel partneriaeth o sefydliadau, rydym wedi bod yn weithgar tu hwnt yn y maes hwn, gan weithio o fewn ein rhwydweithiau aelodaeth perthnasol a rhoi mecanweithiau ar waith er mwyn codi ymwybyddiaeth ynghylch rôl ffermwyr o ran gwella ansawdd dŵr yng Nghymru, yn ogystal â chymryd rhan yn natblygu dull gwirfoddol.

***Argymhelliad 5.4: Is-grwp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol i barhau i godi ymwybyddiaeth a sicrhau bod eu priod sefydliadau yn ymrwymo i ddull gwirfoddol, ac archwilio cyfleoedd ar gyfer digwyddiad ymgysylltu â ffermwyr (haf 2018).***

<u>Ymgysylltu â rhanddeiliaid ehangach a chyrff gwarant fferm</u>

5.30 Mae is-grwp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol a sefydliadau cynrychioliadol hefyd wedi ymgysylltu'n sylweddol ag amrediad o sefydliadau a phrosiectau perthnasol, gan roi pwyslais ar hyrwyddo dealltwriaeth o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan yr is-grŵp, yn ogystal â dysgu o eraill, y tu fewn i ffiniau Cymru a thu hwnt iddynt.

<u>Y cyd-destun ehangach</u>

5.31 Ar y cyd â symud datblygiad y cysyniad o Ffermio Baner Las yn ei flaen, mae'r is-grŵp yn ymwybodol fod Llywodraeth Cymru a phartneriaid wedi cynnal gwaith ymchwil er mwyn deall y potensial ar gyfer datblygu rhaglen Gwerthoedd Brand Cynaliadwyedd ar gyfer y sector bwyd-amaeth. Byddai'r cysyniad 'Brand Cymru', wedi'i gadarnhau drwy arferion ffermio, yn adeiladu ar enw da Cymru fel cynhyrchydd bwyd i safonau amgylcheddol blaenllaw ac o ran iechyd a lles anifeiliaid, a byddai’n cael ei wthio trwy weledigaeth o safonau amgylcheddol uchel a safonau cynaliadwyedd mwy eang.

5.32 Mae tystiolaeth hyd yn hyn yn dangos bod angen i'r gwaith o adeiladu rhaglen Gwerthoedd Brand Cynaliadwyedd i Gymru ganolbwyntio ar ddarparu ffermio a chadwyn cyflenwi bwyd gynaliadwy yng Nghymru, er mwyn sicrhau buddion lluosog a chyflawni yn erbyn tri philer cynaliadwyedd. Mae'n gofyn am ddull cenedlaethol o ran pennu safonau / meini prawf a monitro ac archwilio ar lefel genedlaethol er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd.

5.33 Er mwyn sicrhau uniondeb, ac er mwyn sicrhau y cânt eu derbyn yn erbyn nifer o agendâu polisi sylweddol, mae'n hanfodol fod unrhyw safonau / meini prawf sy'n cael eu cynnwys yn y cynllun yn gallu gwneud y canlynol: (i) gwrthsefyll y cwestiynau gwyddonol mwyaf cadarn, (ii) cael eu mesur gan y prosesau cywir er mwyn osgoi'r amrywiaeth sy'n digwydd ar hyn o bryd gydag offer cyfrifyddu carbon/cynaliadwyedd yn y farchnad, a (iii) yn gallu cydgasglu data o ffermydd a'i ddadansoddi ar lefel genedlaethol, fel y gellir pennu tueddiadau ar gyfer ystod o ofynion adrodd a hyrwyddo.

5.34 Er bod y rhaglen Gwerthoedd Brand Cynaliadwyedd yn ceisio deall y meysydd ffocws y byddai eu hangen i gynnal rhaglen o'r fath, mae gwaith a wnaed gan raglen Arweinyddiaeth Hinsawdd Clyfar, wedi’i ariannu gan y Rhaglen Datblygu

Gwledig, dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi datblygu'r thema garbon.Nod y prosiect hwn yw llywio a chefnogi rhaglen datgarboneiddio Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector drwy archwilio'r opsiynau lliniaru ac addasu i nwyon tŷ gwydr ar gyfer da byw Cymru, yn ogystal â nodi teclyn monitro ar gyfer ffermwyr yng Nghymru. Mae'r teclyn hwn ar hyn o bryd yng nghanol cam profi beta ar draws 250 o ffermydd yng Nghymru (yn adrodd ym mis Mai 2018).

5.35 Yn amlwg, mae pethau tebyg a chyfleoedd ar gyfer rhannu gwybodaeth wrth symud y datblygiad yn ei flaen a chyflwyno safonau ar gyfer carbon a dŵr. Bydd manteision synergeddol yn codi o sicrhau cydlyniad ar draws nifer o feysydd allweddol neu safonau cynaliadwyedd (gan gynnwys ansawdd dŵr).

5.36 Oherwydd hyn, gwnaed gwaith ar y cyd er mwyn archwilio cyfleoedd ar gyfer datblygu fframwaith cynaliadwyedd unedig a fyddai'n cynnig pwynt gwerthu unigryw i Gymru yn ogystal â darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen gan Lywodraeth Cymru er mwyn profi cywerthedd rheoleiddio ar ôl Brexit.

5.37 Argymhelliad is-grwp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol yw dod â'r holl waith hyn ynghyd. O ran symud ymlaen, byddai'r is-grŵp yn gwneud yr argymhellion canlynol er mwyn datblygu'r thema graidd hon:

***Argymhelliad 5.5: Is-grwp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol i fod yn gyfrifol am ddiffinio 'sut olwg sydd ar statws da' ar gyfer dŵr o ran rheoleiddio, dulliau gwirfoddol a Thalu am Wasanaethau Ecosystemau, er mwyn cefnogi a dylanwadu ar y rhaglen Gwerthoedd Brand Cynaliadwyedd i Gymru (Brand Cymru) a chyd-destun ehangach polisi amaethyddol yn y dyfodol.***

***Argymhelliad 5.6: Bydd is-grwp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol yn parhau i weithio'n agos gyda'r grŵp i ddatblygu Brand Cymru fel bod ffrydiau gwaith yn integreiddio lle bo'n briodol. Ein hargymhelliad yw bod yn rhaid i ansawdd dŵr fod yn un o'r gwerthoedd sy'n sail i frand cynaliadwyedd.***

**Pennod 6 Cyngor a chanllawiau gwell**

6.1 Mae sicrhau bod gan ffermwyr cyngor a chanllawiau gwell yn un o'r pum thema graidd. Dyma faes y mae is-grwp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol wedi bod yn weithredol o ran ei gyflawni. Nid yw hyn yn nhermau cylchau gwaith sefydliadau aelodaeth yn unig, ond hefyd drwy weithio mewn partneriaeth â Cyswllt Ffermio er mwyn datblygu a chyflwyno rhaglen waith bwrpasol genedlaethol ac wedi'i thargedu o ran gwella ansawdd dŵr.

6.2 Mae is-grwp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol hefyd wedi datblygu cynllun cyfathrebu integredig er mwyn darparu negeseuon cyson a chryf i ffermwyr ynghylch rheoli maethynnau a lleihau llygredd. Bydd y gwaith parhaus hwn o drosglwyddo gwybodaeth a hyfforddi ffermwyr ynghylch eu cyfrifoldebau yn hanfodol ar gyfer llwyddiant(Atodiad 3).

6.3 Mae rôl cyngor, arweiniad a hyfforddiant yn hanfodol mewn unrhyw ddiwydiant. Nid yw'r sectorau amaethyddol yn eithriad. Ar hyn o bryd, mae sawl ffordd o gymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol parhaus, ac mae'r dadansoddiad yn ôl segmentau a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn dangos nad oes un dull o gymryd rhan yn addas i bawb. Er mai fframwaith strategol yw Cyswllt Ffermio er mwyn annog ffermwyr i ymgysylltu â chyngor, canllawiau a datblygiad proffesiynol parhaus, mae hyn yn dod ar wahân i ddulliau eraill megis cydnabyddiaeth a enillir neu fynediad amodol oni bai fod angen mynychu digwyddiadau cenedlaethol er mwyn cael mynediad at Grantiau Busnes i Ffermydd.

***Argymhelliad 6.1: Yn y tymor hwy, datblygu dulliau posibl sy'n annog ymgysylltiad â gwasanaethau cynghori a datblygiad proffesiynol parhaus, sydd wedi'u halinio â chyfleoedd megis datblygiad Brand Cymru neu gydnabyddiaeth a enillir.***

***Argymhelliad 6.2: Yn y tymor hwy, gwerthuso'r posibilrwydd o gysylltu cyngor, canllawiau a datblygiad proffesiynol parhaus yn y dyfodol â mentrau strategol er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni canlyniadau drwy bob dull, megis 'Brand Cymru', y Fframwaith Rheoli Adnoddau Naturiol gan gynnwys datganiadau ardal, a chyllid ar gyfer nwyddau cyhoeddus yn y dyfodol.***

<u>Wedi'u cyflwyno gan y rheoleiddwyr</u>

6.4 Mae penderfynu 'sut olwg sydd ar statws da' o ran safonau i'w cyrraedd ar gyfer rheoleiddio, dulliau gwirfoddol, arferion gorau a Thalu am Wasanaethau Ecosystemau yn anodd o'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae'r rheoleiddwyr (Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru) yn darparu gwybodaeth ysgrifenedig o ran eu swyddogaethau priodol. Mae'n anodd dod o hyd i hyn ar eu gwefannau weithiau (Llywodraeth Cymru, Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, a Cyfoeth Naturiol Cymru) ac mae'n bosibl y bydd angen ymweld â sawl gwefan er mwyn cael gwybodaeth fanwl ynghylch y gofynion, er nad yw'r rhain wedi'u cysylltu'n dda bob amser. Er enghraifft, mae'r cod arferion gorau ar gyfer dipio defaid i'w weld ar wefan Llywodraeth Cymru, mae'r ffurflen gais a'r wybodaeth sydd ei hangen er mwyn gwneud cais am drwydded i gael gwared ar ddip defaid i'w cael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru, ac mae'r gofynion cyfreithiol ynghylch defnyddio cemegau i'w cael ar

wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Gall datblygu gwefan LLYW.CYMRU ymhellach gynnig cyfle i fynd i'r afael â materion o'r fath. Mae'r broblem o ran allgáu digidol, yn nhermau'r sgiliau sydd eu hangen yn ogystal â'r seilwaith i gefnogi band eang digon da mewn ardaloedd gwledig, yn broblem sylweddol.

6.5 Mae'r Cod Ymarfer Amaethyddol Da yn cynnig y rhan fwyaf o'r wybodaeth, ond mae Llywodraeth Cymru wrthi'n diweddaru'r cod hwn. Ar hyn o bryd, nid yw'n cynnwys pob un o'r gofynion rheoleiddiol mewn perthynas â mynd i'r afael â llygredd amaethyddol. Yn ogystal, nid yw'r cod ymarfer da yn bodloni'r safonau sy'n ofynnol gan y Weithrediaeth Gwell Rheoleiddio, sef y dylai rheoliadau fod yn glir ac yn syml a dylai canllawiau fod wedi'u hysgrifennu mewn iaith seml sy'n gwahaniaethu'n amlwg rhwng y gyfraith ac arferion gorau.

***Argymhelliad 6.3: Mae angen dybryd i gwblhau'r diweddariad i'r Cod Ymarfer Amaethyddol Da yn unol ag argymhellion y Weithrediaeth Gwell Rheoleiddio, a fydd yn rhoi cyfle i ymgysylltu'n ehangach â'r sector ffermio o ran ansawdd dŵr.***

***Argymhelliad 6.4: Dylid ystyried siop un stop ar gyfer darparu gwybodaeth ynghylch rheoleiddio amaethyddol ac mae angen gwerthuso sut y mae hyn yn cyd-fynd ag egwyddorion a datblygiad LLYW.CYMRU.***

6.6 Mae swyddogion cyswllt fferm yn bwyntiau cyswllt sefydledig sy'n cael eu parchu ymhlith rhai sectorau o'r diwydiant amaethyddol. Datblygwyd cyhoeddiad Llywodraeth Cymru, 'Pan ddaw'r archwilydd', fel rhan o fenter 'Hwyluso'r Drefn'. Yn gyffredinol, mae ffermwyr yng Nghymru wedi croesawu'r cyhoeddiad, a gellid ei ddiweddaru er mwyn adlewyrchu rheoliadau presennol o ran ansawdd dŵr, a'i hyrwyddo fel un man i ffermwyr gyfeirio ato.

***Argymhelliad 6.5: Bydd is-grwp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn cynnwys rheoliadau ehangach sy'n gysylltiedig â gwelliannau ansawdd dŵr yn y llyfryn 'Pan ddaw'r archwilydd'.***

***Argymhelliad 6.6: Bydd is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol yn trosi 'sut olwg sydd ar statws da' o ran y safonau sydd i'w cyrraedd ar gyfer rheoleiddio ac arferion da yn ganllawiau sydd ar gael yn hawdd ac sy'n hygyrch ac yn addas ar gyfer y ffyrdd gwahanol y mae'r sector amaethyddol yn hoffi eu defnyddio i ymgysylltu â gwybodaeth.***

<u>Wedi'u cyflwyno gan y sector</u>

6.7 Mae cyrff gwarant (Gwarant Fferm Da Byw Cymru, Tractor Coch) a chynrychiolwyr eraill o'r diwydiant (Hybu Cig Cymru, AHDB ac undebau ffermio) hefyd yn darparu gwybodaeth. Mae gwybodaeth o'r cyrff gwarant yn amlinellu'r hyn sydd ei angen o ran y canlyniadau er mwyn bodloni'r safonau ar gyfer pob ardystiad unigol.Er bod hyn yn ffynhonnell o wybodaeth sy'n llawn gwybodaeth ac yn ddefnyddiol iawn o ran helpu i yrru newidiadau yn y diwydiant, efallai na fydd yn adlewyrchu rhwymedigaethau cyfreithiol yn uniongyrchol – ac nid yw'n gwahaniaethu

rhwng gofynion cyfreithiol ac arferion da. Efallai nad yw'r wybodaeth a ddarperir yn adlewyrchu'r fframwaith deddfwriaethol yng Nghymru, yn enwedig pan fydd yn wahanol i Loegr.  Fodd bynnag, bydd is-grwp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol yn parhau i weithio gyda'r cyrff hyn ac yng nghyd-destun y rhaglen Gwerthoedd Brand Cynaliadwyedd.

Darparwyr cyngor a chanllawiau eraill

6.8 Rydym yn cydnabod hefyd fod amrediad o brosiectau eraill a ariennir gan y Rhaglen Datblygu Gwledig neu ffynonellau eraill sy'n ceisio gweithio gyda ffermwyr er mwyn gwella ansawdd dŵr.Mae gan ffermwyr yng Nghymru hanes blaenorol da o ymgysylltu â dulliau o'r fath. Fodd bynnag, gall dulliau sy'n seiliedig ar brosiectau ychwanegu cymhlethdod, gan arwain at ansicrwydd i ffermwyr o ran lle y dylent fynd iddo am gyngor ac arweiniad, ac, ar adegau, gallant gynnig prosiectau gwahanol sy'n cystadlu am sylw ffermwyr. Gall y dull prosiect 'stop-cychwyn' hefyd fynd yn groes i'r meddylfryd hirdymor sydd ei hangen i sicrhau canlyniadau ystyrlon – nid lleiaf oherwydd bod tystiolaeth yn dangos bod ffermwyr yn datblygu perthnasau llawn ffydd parhaol â'u cynghorwyr allweddol.Yn ogystal, mae'r is-grŵp hefyd yn awyddus i sicrhau bod cynghorwyr â chymwysterau addas a bod dulliau sicrhau ansawdd digonol ar waith pan fo arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio.

***Argymhelliad 6.7: Dylai fod goruchwyliaeth strategol well o brosiectau a ariennir gan y Rhaglen Datblygu Gwledig a ffynonellau arian cyhoeddus eraill gan, er enghraifft, is-grwp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol. Dylid datblygu dull sicrhau ansawdd er mwyn sicrhau bod prosiectau sydd wedi'u hanelu at weithio gyda ffermwyr ynghylch ansawdd dŵr yn briodol, a bod unigolion sydd â chymwysterau addas yn cael eu cyflogi.***

***Argymhelliad 6.8: Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried penodi tîm cyswllt fferm Cymru gyfan, yn debyg i'r un sydd wedi'i sefydlu yn Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau bod rhwydwaith o staff ar lawr gwlad sydd â'r sgiliau priodol i roi cyngor ac arweiniad i'r sector ynghylch rheoleiddio ac arferion da.***

Sefydliadau cynghori ac ymgynghorol ffermwyr

6.9 Mae ymgysylltu â sefydliadau cynghori ac ymgynghorol yn wirfoddol, ac mae'n bosibl nad yw o reidrwydd yn cynnwys rhoi cyngor mewn perthynas â chyflenwi ansawdd dwr. Efallai na fydd defnyddio pecynnau cyngor cyfredol yn cyd-fynd ag ardaloedd lle mae ansawdd dŵr yn cael ei herio. Rydym yn ffodus yng Nghymru fod gennym y gwasanaeth cynghori cenedlaethol hwn drwy Cyswllt Ffermio, sy'n mynd y tu hwnt i'r gofynion trawsgydymffurfio ar gyfer y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Ers mis Hydref 2015, mae dros 1,000 o ffermwyr wedi gwneud cais am gyllid ar gyfer Cynllun Rheoli Maethynnau, sy'n cael ei baratoi drwy wasanaeth cynghori Cyswllt Ffermio. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnig cyngor penodol wedi'i deilwra i ffermwyr ynghylch eu ffermydd unigol, a fydd o fudd i'r amgylchedd, gwella pridd ar y fferm, a lleihau'r gwariant ar fewnbynnau.

6.10 Gall busnes sydd wedi'i gofrestru gyda Cyswllt Ffermio gael mynediad at gyngor, ymweld â safleoedd ffocws a ffermydd enghreifftiol, cymryd rhan mewn grwpiau trafod, a manteisio ar canolfannau gwybodaeth a chyfleoedd dysgu.  Caiff

rhai agweddau eu hariannu'n llawn ac mae eraill yn cael eu hariannu'n rhannol. Gall pob busnes fanteisio ar gyngor ynghylch amrediad o faterion penodol hyd at uchafswm o bedair gwaith, yn dibynnu ar gymhwysedd, drwy gydol cyfnod Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 – 2020.Fel yr oedd ar 26 Mawrth 2018, roedd 1,772 o fusnesau wedi cael cyngor (rhwng un a phedair gwaith), ac mae 1% o fusnesau wedi mynd at y rhaglen bedair gwaith yn barod, gyda 3% eisoes wedi mynd at y rhaglen dair gwaith. Mae perygl y bydd rhai busnesau'n cyrraedd yr uchafswm o ran nifer y weithiau y gallant fynd at gyngor cyn 2023, a fydd yn arwain at gyfyngu'r cyngor ar broblemau sy'n ymwneud â lleihau llygredd amaethyddol.

<u>Ymgyrch bwrpasol a chenedlaethol er mwyn gwella dealltwriaeth a rhoi cyngor a chanllawiau i wella arferion rheoli tir, gyda'r nod o leihau llygredd amaethyddol</u>

6.11 Mae is-grwp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol yn gweithio gyda Cyswllt Ffermio, ac mae wedi comisiynu ymgyrch bwrpasol a chenedlaethol drwy'r broses *o gysyniad i ganlyniad* er mwyn gwella dealltwriaeth a rhoi cyngor a chanllawiau i wella arferion rheoli tir, gyda'r nod o leihau llygredd amaethyddol (Atodiad 4).

6.12 Cynhaliwyd hyfforddiant cychwynnol gyda staff Cyswllt Ffermio ym mis Ionawr 2018 o ran yr ymgyrch i wella dealltwriaeth, gyda’r nod o leihau llygredd amaethyddol, ac roedd staff Cyfoeth Naturiol Cymru ac o'r gwasanaeth cyswllt fferm hefyd yn cymryd rhan. Mae cyfleoedd pellach ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus wedi'u trefnu ar gyfer gweithlu maes Cyswllt Ffermio.

6.13 Mae'r ymgyrch bwrpasol ar draws 28 corff dŵr wedi dechrau, a bydd Cyswllt Ffermio yn trefnu 15 o ddigwyddiadau er mwyn rhoi cyngor a chanllawiau penodol i ffermwyr yn yr ardaloedd targed hyn. Bydd yr ymgyrch yn canolbwyntio ar sicrhau bod y nifer uchaf posibl yn cymryd rhan, a galluogi gwaith i drosi hyn yn gamau gweithredu dilynol ar lawr gwlad. Mae pob aelod o is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol yn annog ei aelodau sy'n ffermio yn y cyrff dŵr i fynychu'r cyfarfodydd. Amlinellir manylion o ran cynnydd yn Atodiad 5.

6.14 Mae rhywfaint o broblemau capasiti wedi bod ynghylch argaeledd cynghorwyr cymwys sy’n gallu cyflawni a darparu cynlluniau storio a rheoli maethynnau o ganlyniad i'r galw uwch am gymorth a hyfforddiant gan ffermwyr mewn perthynas â llygredd amaethyddol dros Gymru gyfan.Mae hyn wedi arwain at orfod cyflwyno'r ymgyrch bwrpasol fesul cam er mwyn rheoli disgwyliadau a rhoi cyngor mewn modd amserol.

***Argymhelliad 6.9: Cyswllt Ffermio i adeiladu capasiti ychwanegol ar frys o ran ei rwydwaith o gynghorwyr, er mwyn sicrhau bod digon o gynghorwyr ar gael i roi cyngor ac arweiniad ynghylch problemau ansawdd dŵr, gan gynnwys seilwaith fferm a chynlluniau rheoli maethynnau yng Nghymru – yn ddwyieithog pan ofynnir am hyn.***

***Argymhelliad 6.10: Adolygu llwyddiant y rhaglen bwrpasol a chenedlaethol gan Cyswllt Ffermio, a datblygu rhaglen hirdymor er mwyn mynd i'r afael â phroblemau o ran dalgylchoedd â blaenoriaeth nad ydynt wedi'u targedu hyd yma. Bydd hyn yn cynnwys monitro'r gwaith o'i hymgorffori a'i heffaith yn erbyn gwelliannau yn y dalgylchoedd presennol a nodwyd, fel bod modd ei haddasu yn unol â monitro egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy***.

Datblygiad proffesiynol parhaus

6.15 Mae cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus mewn perthynas â llygredd amaethyddol eisoes yn cael eu datblygu gan y rhaglen Cyswllt Ffermio. Mae modiwlau ar gyfer contractwyr yn cael eu datblygu fel rhan o gymorth cyflawni is-grwp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol.

***Argymhelliad 6.11: Mae angen adeiladu capasiti o ran 'asiantau newid, nid swyddogion datblygu Cyswllt Ffermio yn unig' yn y sector amaethyddol,ond hefyd cysylltiadau lleol sy'n gallu ymgysylltu'n effeithiol â ffermwyr, adeiladu perthnasau llawn ffydd â nhw, a chychwyn newid cadarnhaol.***

**Pennod 7 Gwella'r amrediad o gyfleoedd buddsoddi**

7.1 Er bod amrediad o gamau gweithredu y gall ffermwyr eu cymryd er mwyn helpu i leihau llygredd, neu debygolrwydd digwyddiadau o lygredd, mae angen buddsoddiadau sylweddol ar sailwaith fel arfer (miloedd o bunnoedd a mwy) ar gyfer y camau gweithredu hynny sydd fwyaf effeithiol. O'r herwydd, ac o ganlyniad i'r hinsawdd sydd ohoni lle mae incwm cyfartalog ffermydd yng Nghymru yn isel, ac o ran adennill incwm ffermydd llaeth, mae costau seilwaith o'r fath yn parhau'n rhwystr sylweddol i lawer o hyd – yn enwedig pan fo elw yn isel, benthyciadau eisoes yn uchel, neu lle mae ffermwyr yn denantiaid.

7.2 Ochr yn ochr â defnyddio gwasanaethau rheoleiddio a chynghori, mae darparu cyllid buddsoddi yn cefnogi ffermwyr wrth gymryd camau gweithredu i leihau'r perygl o lygredd amaethyddol.

7.3 Mae Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014 – 2020 yn cynnwys amrediad o fesurau buddsoddi sy'n addas i fynd i'r afael ag ansawdd dŵr a llygredd amaethyddol. Mae'r rhain yn cynrychioli'r cyfleoedd sydd ar gael ar unwaith i gefnogi buddsoddiad ar y fferm, ac yn cynnwys y Grant Busnes i Ffermydd, y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy, Grant Bach Glastir, Grant Glastir Uwch a'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy – cewch wybodaeth ychwanegol ar bob un o'r mesurau hyn yn Atodiad 6.

7.4 Fel rhan o'r gwaith a wnaed gan is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol, rydym eisoes wedi cyfarfod â swyddogion perthnasol Llywodraeth Cymru er mwyn trafod y Grant Busnes i Ffermydd a'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy. Yn dilyn adolygiad yr is-grŵp o'r cynlluniau hyn, rydym wedi darparu adborth ysgrifenedig ar nifer o eitemau ychwanegol, a fyddai'n cynorthwyo wrth wneud gwelliannau o ran ansawdd dŵr. Rhoddwyd adborth hefyd ynghylch agweddau gweithredol ac o ran cymhwysedd y cynlluniau.

***Argymhelliad 7.1: Archwilio p'un a ellir galluogi contractwyr amaethyddol i gael mynediad at gyllid o dan y Grant Busnes i Ffermydd a'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy.***

***Argymhelliad 7.2: Archwilio manteision dileu'r cyfyngiad £1 miliwn o ran trosiant a roddir ar y ddau Grant Busnes i Ffermydd ar hyn o bryd.***

7.5 Er bod cyfres o ddulliau cymhelliant wedi'i datblygu fel rhan o'r Rhaglen Datblygu Gwledig bresennol, mae'r rhain wedi'u hanelu at fynd i'r afael ag amrediad eang o faterion economaidd, cymdeithasol ac o ran rheoli adnoddau naturiol ledled Cymru. Mae trin y Rhaglen Datblygu Gwledig o safbwynt un broblem, megis lleihau llygredd amaethyddol, yn helpu i gynnig persbectif gwahanol.

7.6 O ran lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â llygredd amaethyddol, mae angen ystyried yn fwy manwl y cwestiwn ynghylch sut y caiff dulliau amrywiol eu cyflwyno – ac a ydynt yn cael eu defnyddio i'w llawn potensial. Ceir tystiolaeth dda gan werthusiadau a wnaed o'r Rhaglen Datblygu Gwledig yn y gorffennol er mwyn cefnogi buddsoddi'n barhaus mewn eitemau cyfalaf. Mae diben deublyg i hyn. Yn

gyntaf, er mwyn gweld a ellir gwella'r ffordd y caiff y gyfres bresennol o ddulliau ei hymgorffori ac, yn ail, er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu polisi ar ôl Brexit.

7.7 Gwnaeth y Cynllun Ffermio Sensitif i Ddalgylch a chynllun Glastir – Grantiau Effeithiolrwydd arwain at welliannau o ran rheoli maethynnau a thail, a gwella'r capasiti o ran storio tail.[18]Dangosodd gwaith modelu a wnaed ar y 12 fferm a oedd wedi derbyn cymorth o dan y cynllun blaenorol fod colledion maethynnau o iardiau a mannau caled yn ddibwys yn dilyn y gwaith lliniaru a wnaed; dangosodd monitro dŵr ffo welliannau hefyd. Gwelwyd buddion ychwanegol o ganlyniad i ffensio cyrsiau dŵr rhag da byw, gwahanu dŵr ffo glân a brwnt o arwynebau anathraidd, ac o wella offer taenu tail.

7.8 Er y bydd yn heriol mynd i'r afael â maint y gyllideb sydd ei hangen erbyn hyn, ceir cyfle clir yn ôl pob golwg i gynyddu'r dyraniad presennol ar gyfer dulliau buddsoddi'r Rhaglen Datblygu Gwledig, nid yn lleiaf oherwydd bod y Grant Busnes i Ffermydd a'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy wedi cael eu hailganolbwyntio ar effeithlonrwydd rheoli adnoddau. Mae cynnydd o ran ymgysylltu â ffermwyr a chontractwyr ynghylch y broblem o lygredd amaethyddol yn ei chyfanrwydd bellach yn dechrau dod i'r amlwg o ganlyniad i bartneriaeth is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol, yn ogystal â rhaglen benodol Cyswllt Ffermio.Yn benodol, mae'n debygol y bydd yr ymgyrchoedd pwrpasol a chenedlaethol ar lygredd amaethyddol sy'n cael eu cyflawni fel rhan o'r gwaith a gomisiynwyd gan Cyswllt Ffermio yn arwain at gynnydd yn nifer y ceisiadau o dan y Grant Busnes i Ffermydd a'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy.

7.9 Mae'r amserlen ar gyfer defnyddio cymorth buddsoddi hefyd yn hynod berthnasol. Yng nghyd-destun Brexit, rydym yn deall y bydd pob cynllun buddsoddi presennol o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig yn parhau i weithredu nes y daw cyfnod lle na fydd gofynion y Polisi Amaethyddol Cyffredin bellach yn gymwys. Mae Llywodraeth y DU eisoes wedi cadarnhau y bydd yn gwarantu cyllid gan yr UE ar gyfer prosiectau ariannu strwythurol a buddsoddi (gan gynnwys cynlluniau amaeth-amgylcheddol) tan fis Mawrth 2019.Nid yw'n glir a fydd yr ymrwymiad hwn yn cael ei adolygu o ystyried y trafodaethau parhaus sy'n digwydd rhwng y DU ac UE ynghylch trefniadau pontio.

7.10 Os yw'r dulliau buddsoddi presennol o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig yn parhau i weithredu ar hyd yr un llinellau amser (ar gyfer mynegi diddordeb a chyflwyno cais llawn) fel y maent ar hyn o bryd, mae gennym bryderon sylweddol na fydd digon o amser ar gael er mwyn i bob cais gwblhau'r broses cyn y dyddiad cau ym mis Mawrth 2019. Mewn sefyllfa o'r fath, rydym o'r farn y byddai analluogrwydd i roi cymorth buddsoddi ochr yn ochr â chyngor a chanllawiau, ynghyd â dull gwell o reoleiddio, yn cyfyngu'n ddifrifol ar allu Cymru i wneud cynnydd ynghylch mynd i'r afael â llygredd amaethyddol.

[18] https://gov.wales/docs/wefo/publications/evaluation/171205-rdp-2007-2013-ex-post-accompanying-note-and-response-cy.pdf

7.11 O ran y dulliau amaeth-amgylcheddol, mae'r cyfleoedd ar gyfer gwneud gwelliannau mesuradwy ar y raddfa sydd ei hangen yn diflannu. Mae'r ceisiadau ar gyfer Glastir Uwch 2019 yn llawer yn fwy na'r cyllid sydd ar gael, ac, ar hyn o bryd, bydd yr estyniadau i Glastir Uwch yn dod i ben ar ddiwedd mis Rhagfyr 2019. Mae'r math o gymorth a fydd ar gael i reolwyr tir ar ôl Brexit yn cael ei drafod ar hyn o bryd, ac mae'n aneglur o hyd beth fydd effaith y cyfnod pontio arfaethedig.

***Argymhelliad 7.3: Llywodraeth Cymru i ystyried rhoi dyraniad uwch o'r gyllideb tuag at ddulliau buddsoddi, a symud y cyfnod ar gyfer gwneud cais ymlaen cyn gynted ag y bo modd.***

***Argymhelliad 7.4: Llywodraeth Cymru i roi arweiniad pellach i ffermwyr ynghylch yr amserlen o ran y cyfnod y daw dulliau buddsoddi presennol y Rhaglen Datblygu Gwledig i ben, er mwyn eu galluogi i greu cynlluniau busnes â phwyslais.***

***Argymhelliad 7.5: Cynnwys dulliau i gefnogi buddsoddiad ar y fferm mewn unrhyw system newydd o gymorth yn dilyn y Polisi Amaethyddol Cyffredin.***

7.12 O ran ymgeiswyr unigol, ceir cymhlethdod sylweddol o hyd o fewn y system gyllido bresennol. Mae hyn yn cynnwys diffyg eglurdeb o ran yr amrediad eang o gynlluniau sydd ar gael a'r hyn y gallant ei ariannu. Mae defnyddio cyfnod penodol ar gyfer ymgeisio yn rhoi mwy o sicrwydd wrth reoli cyllidebau, ond mae rhai ffermwyr wedi methu â gwneud cynnydd oherwydd y prinder cyfnodau sydd ar gael ar gyfer gwneud cais.

***Argymhelliad 7.6: Edrych ar gyfleoedd i wneud mwy i gydlynu'r ddarpariaeth o gyllid buddsoddi drwy gysylltu hyn â rhaglen strategol o godi ymwybyddiaeth, gan gynnwys rhoi cyngor a chanllawiau ynghylch materion sy'n ymwneud ag ansawdd dŵr yn ogystal â rhoi mwy o wybodaeth ar y 'cynnig' yn ei holl agweddau, h.y. yr amrediad llawn o ddulliau ariannu sydd ar gael, yr hyn a ellir ei ariannu drwy bob dull, a'r broses o wneud cais ar gyfer cynlluniau penodol.***

7.13 Mae cymhlethdod y dulliau buddsoddi presennol yn herio ein gallu i ddatblygu un ymateb cydlynol a fydd yn arwain at wneud buddsoddiadau cywir yn y mannau cywir, er mwyn cyflawni'r canlyniad dymunol. Yn amlwg, mae gan y system gynghori rôl allweddol. Yn ystod ein hymweliad i ddod o hyd i ffeithiau yn Sir Fynwy, roedd yr is-grŵp yn llawn edmygedd o'r rôl y gall cynghorwyr Cyswllt Ffermio ei chwarae wrth ddatblygu datrysiadau cost effeithiol wedi'u cynllunio'n dda er mwyn rheoli'r gwaith o storio slyri. Mae is-grwp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol yn croesawu ymyriad Cyswllt Ffermio er mwyn i hwyluswyr weithio gyda ffermwyr a datblygu datganiadau o ddiddordeb a arweinir gan ffermwyr ar gyfer cyfnod penodol nesaf y Cynllun Rheoli Cynaliadwy, ac mae'n gobeithio y bydd y gwaith hwn o hwyluso ar gael i gynlluniau eraill y Rhaglen Datblygu Gwledig.

***Argymhelliad 7.7: Archwilio'r potensial ar gyfer defnyddio mwy o gynghorwyr a ariennir gan Cyswllt Ffermio sydd â sgiliau arbenigol ym maes dylunio dulliau integredig tuag at reoli dŵr glaw a slyri ar iard y fferm ac ar draws y fferm, ac ymyriadau eraill ar raddfa fferm a fydd yn mynd i'r afael â llygredd gwasgaredig a llygredd yn y tarddle.***

7.14 Mae mannau mynediad gwahanol gan bob un o ddulliau buddsoddi'r Rhaglen Datblygu Gwledig, ac mae angen eu datganiadau o ddiddordeb eu hunain arnynt a chyflwyno cais llawn dilynol. Bydd cynnull pob portffolio o dan un cynllun strategol a gynlluniwyd i gyflawni blaenoriaethau'r Polisi ar Adnoddau Naturiol yn galluogi i adnoddau prin gael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithlon. Er y bydd angen dull syml o ran ymgeisio a chyflawni o safbwynt y ffermwr unigol, mae'n rhaid i'r fframwaith sydd y tu ôl i'r mesurau datblygu a defnyddio gynnwys buddion lluosog yn unol â'r gwaith o gyflawni egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Un enghraifft o ble mae hyn yn digwydd eisoes yw'r dadansoddiad o fuddion lluosog sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd er mwyn dewis mesurau ar gyfer y fenter 'Hinsawdd Clyfar' sy'n cael ei chyflawni fel rhan o ddatblygiad y rhaglen Gwerthoedd Brand Cynaliadwyedd. Bydd y gwaith ar hyn o bryd yn ddefnyddiol wrth ddeall sut y gellir datblygu hyn. Bydd angen gwneud rhagor o archwilio er mwyn sicrhau y gellir mesur ac integreiddio mesurau polisi yn y dyfodol i gyflawni'r uchelgais honno.

***Argymhelliad 7.8: Ystyried datblygu un rhaglen integredig o fesurau buddsoddi (a gefnogir gan gyngor) sydd wedi'i dylunio'n benodol er mwyn mynd i'r afael ag ansawdd dŵr a llygredd amaethyddol.***

7.15 Yn olaf, gydag oddeutu 27% o dir yng Nghymru yn cael ei ffermio gan rywun ac eithrio perchennog y tir, rydym yn credu ei fod yn bwysig cydnabod yr heriau sydd ynghlwm â'r sector ffermio â thenantiaid a bod angen gwella capasiti tenantiaid i gael mynediad at gyllid, fel bod modd iddynt oresgyn problemau llygredd yn y tarddle sy'n ymwneud â seilwaith, yn ogystal â lleihau'r risg o lygredd gwasgaredig. Er enghraifft, rydym yn ymwybodol na fydd rhai landlordiaid efallai yn fodlon, neu'n gallu, darparu'r arian sydd ei angen i gefnogi'r gwaith o adeiladu cyfleusterau storio slyri newydd, hyd yn oed pan fo cytundebau tenantiaeth yn mynnu mai cyfrifoldeb y landlord (gwelliannau landlordiaid) ydyw.

7.16 Gall tenantiaid sy'n meddiannu o dan gytundebau tenantiaeth a reoleiddir o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 fod â mynediad at y darpariaethau gorfodi o dan Adran 11 o'r ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, mae'r darpariaethau hyn yn gymhleth i'w defnyddio ac yn cymryd amser hir iawn, ac nid ydynt yn cynnig modd a fydd yn sicrhau llwyddiant.

7.17 Mae'n bosibl na fydd modd i ffermwyr tenant eu hunain fanteisio ar gyllid ar gyfer buddsoddiadau sylweddol iawn a chostus. Mae tenantiaid sy'n meddiannu o dan gytundebau tenantiaeth a reoleiddir o dan Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 yn arbennig o fregus. Maent yn brin o unrhyw ddulliau ymarferol a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r landlord ddarparu storfa slyri newydd neu wedi'i diweddaru iddynt, a gallant fod â thenantiaethau rhy fyr i gyfiawnhau'r buddsoddiad angenrheidiol o ran sefydlu storfa slyri newydd gan ddefnyddio eu hadnoddau eu hunain neu drwy fenthyg arian. Gall problemau o'r fath gael effaith ar allu tenantiaid i

barhau i ffermio – mae'n bosibl y bydd angen i rai leihau niferoedd eu da byw, neu roi terfyn ar gynhyrchu da byw yn gyfan gwbl er mwyn bodloni gofynion rheoleiddiol.

7.18 Yn ogystal, hyd yn oed pan fo landlordiaid yn barod i dalu am storfa slyri newydd, gallai hyn arwain at gynnydd o ran rhent y fferm. Fodd bynnag, gellir eithrio buddsoddiadau â chymorth grant o gyfrifiadau ar gyfer rhent. Gall tenantiaid nad oes ganddynt y diogelwch a'r mynediad angenrheidiol at gyllid wynebu anawsterau eraill hefyd os oes angen caniatâd y landlord arnynt cyn buddsoddi mewn offer sefydlog newydd ar y fferm. Weithiau, bydd angen i'r tenant ofyn am ganiatâd y Tribiwnlys Tir Amaethyddol er mwyn gwneud hyn – sy'n broses hir a chostus unwaith eto. Gall landlordiaid hefyd wrthwynebu i denantiaid godi cyfleusterau newydd fel gwelliannau i'r fferm a fydd â buddion hirdymor ond a fydd yn gofyn i'r landlord roi iawndal i'r tenant pan ddaw'r brydles i ben. Dim ond ar y sail y bydd yr offer sefydlog yn cael eu trin fel gosodiadau'r tenant, nad oes gan y tenant yr hawl i unrhyw iawndal ar ddiwedd y brydles ar eu cyfer, y bydd rhai landlordiaid yn fodlon ar roi eu caniatâd. Mae hyn hefyd yn gwneud y penderfyniad o ran buddsoddi yn fwy cymhleth o lawer ar gyfer y sector a denantir.Fodd bynnag, mae angen gwella ansawdd dŵr o hyd, a dylai'r tenant a'r landlord ei ystyried fel mater o flaenoriaeth.

***Argymhelliad 7.9: Mae'n rhaid i'r amserlen ar gyfer cymryd camau gorfodi mewn perthynas â ffermydd â thenantiaid roi ystyriaeth i'r amser y bydd yn ei gymryd i ddatrys unrhyw anghydfodau rhwng y landlord a'i denant.***

***Argymhelliad 7.10: Dylid targedu buddsoddiad cyhoeddus er mwyn hyrwyddo offer sefydlog newydd at y ffermwr gweithredol a busnes y fferm.***

***Argymhelliad 7.11: Gall gwasanaethau hwyluso er mwyn cynorthwyo ffermwyr tenant i weithio gyda'u landlordiaid helpu wrth oresgyn rhai o'r heriau a nodwyd.***

***Argymhelliad 7.12: Efallai bydd angen newid deddfwriaeth sy'n ymwneud â thenantiaeth yng Nghymru os yw'n dod yn rhwystr o ran datblygu.***

**Pennod 8 Nodi a hyrwyddo arloesedd**

8.1 Mae'n bosibl nad yw'r gwaith o fuddsoddi mewn technegau newydd a dulliau arloesol er mwyn sicrhau bod sgil gynhyrchion a sylweddau llygru a gynhyrchir gan arferion ffermio modern yn cael eu rheoli'n gynaliadwy wedi datblygu mor gyflym ag y mae mewn sectorau eraill. Gallai hyn fod oherwydd ystod o ffactorau. Gallai'r rhain gynnwys diffyg cydnabyddiaeth neu wybodaeth o werth go iawn y deunyddiau sy'n cael eu colli o dir fferm, yn ogystal â'r effaith y gallai rheoli sylweddau yn wael ei chael. Gallai hefyd ddeillio o ddiffyg buddsoddiad mewn ymchwil, rheoli asedau a thechnegau. Gall mesurau i rwystro ffermwyr rhag llygru fod yn aneffeithiol, neu efallai bod pwerau a rheoliadau presennol (gan gynnwys pwerau arbrofol newydd) yn cael eu cymhwyso mewn modd anghyson neu nid i'r graddau mwyaf posibl sydd ar gael.

8.2 Beth bynnag fo'r rheswm, gellir ystyried cymhwyso unrhyw sgil gynnyrch i dir, dŵr neu'r aer yn gynaliadwy yn unig os oes gan y derbynnydd (megis y pridd) y capasiti i glustogi hyn, drwy adweithiau cemegol neu fiolegol neu drwy wanhau'n ddigonol.Yn achos slyri (a sgil gynhyrchion eraill er budd amaethyddol sy'n cael eu taenu ar y tir), mae gan gyflwr y pridd, lefel mewnlifiad y cnydau ac adeg y flwyddyn i gyd rolau i'w chwarae o ran penderfynu faint o faethynnau y gellir eu hychwanegu cyn mynd y tu hwnt i gapasiti clustogi'r tir ac i faethynnau drwytholchi i'r dŵr.Yn ogystal, os nad yw'r amodau tywydd yn ffafriol, gall y slyri gael ei olchi neu ei chwythu ymaith cyn ei fod yn gallu ychwanegu ei faethynnau i'r pridd.

8.3 n yr un modd, mae diogelu'r pridd rhag erydiad, a llygredd aer a dŵr o gemegau amaethyddol, yn peri risgiau mawr i ffermio a'r amgylchedd.

8.4 Cydnabyddir yn eang y gallai maethynnau gwerthfawr o ganlyniad i roi sgil gynhyrchion ar y tir fod yn llygredig os nad ydynt yn cael eu cymhwyso yn y ffordd gywir; mewn gwirionedd, maent yn hanfodol ac yn cyd-fynd â dull yr economi gylchol sydd wedi'i ymgorffori yn y Polisi ar Adnoddau Naturiol.


8.5 Trwy gydnabod yr effaith go iawn o roi sgil gynhyrchion amaethyddol ar y tir, ar y cyd â derbyn bod sgil gynhyrchion o'r fath yn werthfawr pan gânt eu rheoli'n briodol, ceir y posibilrwydd o sefydlu cyfleoedd newydd yn y farchnad ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru, yn ogystal â chreu busnesau newydd a allai fanteisio ar y potensial hwn. Yn yr un modd, mae colli pridd yn broblem na all y gymuned ffermio fforddio ei gadael i ddigwydd. Mae angen cydnabod a manteisio ar gyfleoedd o'r faith, yng Nghymru a thu hwnt.

<u>Pwrpas cadwyn brosesu sgil gynhyrchion</u>

8.6 Methiant mawr o ran rheoli adnoddau yw ceisio mynd i'r afael â phroblemau ar y pwynt lle teimlir yr effaith. Yn syml, mae hyn yn rhy hwyr; mae angen dybryd ein bod yn edrych ar fan cychwyn problem, ac yn datblygu dulliau sy'n gallu mynd i'r afael â hi wrth ei gwreiddiau. Gellir defnyddio dull y 'gadwyn brosesu' i ystyried datrysiadau ychwanegol neu ategol mewn modd dilyniannol fel y dangosir yn y diagram isod. Yn achos llygredd gwasgaredig ac erydiad, er enghraifft, mae'n anodd iawn mynd i'r afael â dŵr ffo wyneb llygredig ar draws dalgylch.Ond drwy ddeddfwriaeth neu gymhellion eraill, mae'n bosibl mynd i'r afael â man cychwyn y

llygredd. Er enghraifft, mae safonau allyriadau cerbydau wedi'u haddasu yn gwella ansawdd yr aer, ac mae llai o lygredd yn cael ei ollwng dros gefn gwlad os yw'r aer yn fwy glân.Yn ei dro, mae hyn yn lleihau’r cyfanswm o ddŵr ffo llygredig.

8.7 Mae'r dull pedwar cam canlynol yn rhoi fframwaith ar gyfer datrys problemau mor agos i'w ffynhonnell â phosibl.




8.8 Wrth geisio mynd i'r afael â llygredd gwasgaredig, llygredd yn y tarddle ac erydiad o amaethyddiaeth, mae angen i ni edrych ar natur yr heriau sy'n bodoli eisoes. I gychwyn, dylem ystyried y ffordd orau o atal y broblem rhag digwydd yn y lle cyntaf. Unwaith y bydd yr holl bosibiliadau derbyniol wedi'u harchwilio, ond na fydd y broblem wedi'i dileu yn gyfan gwbl, byddwn wedyn yn symud tuag at ystyried y ffyrdd o fynd i'r afael â'r broblem wrth ei gwreiddiau.Wrth i'r cyfleoedd hyn gael eu dihysbyddu (neu y ceir eu bod yn rhy ddrud neu'n anymarferol), byddwn yn symud yn ddilyniannol ‘i lawr yr afon’. Rydym ni'n anwybyddu gwaith atal yn aml iawn, neu'n ymdrin â ffynhonnell y broblem, ac yn cymhwyso ein datrysiadau yn ystod y cam olaf un – y cam lle teimlir yr effaith fwyaf. Mae datrysiadau yn ystod camau mor hwyr yn bwysig, ond gall anwybyddu'r datrysiadau ‘i fyny'r afon’ fod yn fwy costus ac anhyblyg yn y pendraw.

<u>Creu arloesedd ac osgoi'r naid tuag at ddatrysiadau</u>

8.9 Yn achos rheoli maethynnau, y pridd a chemegion a ddefnyddir ym myd amaeth, mae gennym gyfle yng Nghymru i ymgysylltu â'r sector rheoli tir, busnesau bach a chanolig a'r byd academaidd er mwyn archwilio ffyrdd presennol o ddatrys yr heriau, yn ogystal â dod o hyd i ddulliau newydd ac arloesol – y mae'n debyg nad ydym eto yn gwybod amdanynt. Yn y lle cyntaf, mae angen diffiniad clir arnom ynghylch beth yw'r problemau. Dim ond pan fydd yr heriau hyn wedi cael eu disgrifio'n ofalus y gallwn wedyn archwilio pa ddatrysiadau sy'n bodoli neu'n cael eu cynllunio.

8.10 O'r gwaith sydd wedi'i wneud gan is-grwp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol, mae'n glir fod arferion ffermio presennol yn aml yn cynhyrchu sgil gynhyrchion ar raddfa sy'n mynd y tu hwnt i allu tir ffermio lleol i storio a phrosesu maethynnau yn effeithiol, neu fod rhesymau gweithredol sy'n cyfyngu'r ardaloedd lle gellir defnyddio deunydd megis slyri –er enghraifft, y drefn bori, torri silwair, capasiti

storio, offer neu seilwaith. Unwaith y mae lefel y maethynnau yn mynd yn uwch na chapasiti clustogi'r tir, mae'r hyn sy'n weddill naill ai'n llygru'r pridd ei hun neu'n cael ei olchi neu ei chwythu ymaith i lygru'r amgylchedd.

8.11 Mae dilyn dull y gadwyn brosesu ‘heriau’ yn sicrhau y caiff dilyniant rhesymegol o gwestiynau eu gofyn, a bod yr holl ddatrysiadau posibl yn cael eu hystyried. Mae'n bwysig nad oes un o'r datrysiadau posibl hyn yn cael ei ddiystyru oni bai ei fod yn amhriodol, yn debygol o fod yn aneffeithiol oherwydd amodau lleol penodol, neu'n rhy gostus.

**Tabl 3 – Dull pedwar cam tuag at fynd i'r afael â llygredd amaethyddol**

| | |
|---|---|
| ATAL | 1. Atal neu leihau crynodiad y maethynnau a chyfaint y sgil gynhyrchion, lleihau'r risg o erydiad, cyfyngu ar yr angen ar gyfer cemegion a ddefnyddir ym myd amaeth. |
| RHEOLI'R FFYNHONNELL | 2. Dylid adolygu rheolaeth maethynnau, y pridd a chemegion a ddefnyddir ym myd amaeth yn y tarddle. |
| RHEOLI'R SAFLE | 3. Dylid ystyried y dulliau rheoli ar lefel y fferm, neu o fewn grŵp bach o ffermydd, er mwyn sicrhau nad ydynt yn mynd y tu hwnt i allu'r amgylchedd lleol i unioni’r effaith yn ddigonol a sicrhau rheoli cynaliadwy, h.y. ni ddylid cael unrhyw effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd. |
| RHEOLI'R DALGYLCH | 4. Dylid ystyried dulliau rheoli ar lefel is-ddalgylch neu ddalgylch. Unwaith eto, dylai'r dull arfaethedig anelu at sicrhau nad yw'n mynd y tu hwnt i allu amgylchedd y dalgylch i unioni’r effaith yn ddigonol a sicrhau rheoli cynaliadwy. |

Dulliau penodol

8.12 Mae’r is-grŵp eisoes yn ymwybodol o nifer o dechnegau, cynhyrchion a dulliau a allai gyflawni yn erbyn nifer o'r amcanion a nodir uchod. Wrth ystyried y datrysiadau posibl hyn, mae angen i ni hefyd archwilio dulliau newydd hanfodol wahanol. Er mwyn arloesi, mae angen ein bod yn osgoi disgyn yn syth i ‘fodd datrys’. Yn hytrach, mae angen i ni ddatgelu'r heriau, megis yr angen o symud oddi ar ystyried slyri fel gwastraff yn unig, a'i droi'n gynnyrch gwerthfawr ar raddfa fferm.Mae angen i ni wedyn wahodd cynulleidfa mor eang â phosibl i ddeall ein heriau, a gweld a oes ganddynt ddatrysiadau newydd sbon. Mewn achosion tebyg, rydym wedi sylwi bod heriau tebyg yn bodoli mewn sectorau eraill, ac mae datrysiadau eisoes ar waith a allai gynnig dulliau newydd ar ôl buddsoddi ynddynt rhywfaint. Mewn achosion eraill, gall ffyrdd newydd o feddwl o sector arall helpu i gyflawni datrysiadau posibl.

8.13 Yr allwedd i ddatgloi'r dull hwn yw buddsoddiad digonol er mwyn galluogi i ddulliau newydd a chyfredol gael eu hariannu a'u treialu. Mae lleoliad Cymru yn unigryw er mwyn gwneud hyn, oherwydd bod ganddi amrywiaeth eang o dir a mathau o ffermydd, cyfleusterau ymchwil blaenllaw, a chwmnïau arloesol sy'n arbenigo mewn pynciau sy'n berthnasol yn uniongyrchol i faes amaethyddiaeth.Cydnabyddir pwrpas rhoi cychwyn ar arloesedd ymysg y

llywodraeth ac mewn nifer o gynlluniau ar lefel Ewrop, San Steffan a Chymru er mwyn cefnogi arloesedd.

8.14 Fodd bynnag, er gwaethaf y cyfleoedd calonogol a ddarperir gan fentrau megis y rhai sy'n cael eu gyrru gan Innovate UK a rhaglen y Fenter Ymchwil Busnesau Bach, ceir rhwystrau o hyd o ran gyrru ymchwil, arloesedd a'r gwaith o drosglwyddo technoleg. Mae enghreifftiau'n cynnwys yr amser y mae wedi'i gymryd i symud syniadau arloesol tuag at y cam treialu – fel y dengys gan ddechrau araf Prosiect Slyri yng Nghelli Aur.

8.15 I'r gwrthwyneb, gall polisi a fframwaith rheoleiddio priodol greu'r fframwaith sydd ei angen i annog pobl i gymryd rhan a rhoi hyder i'r arloeswr a'r farchnad fel ei gilydd. Unwaith y bydd y cysyniad wedi'i brofi, gall y farchnad ei hun gefnogi wedyn y cynnydd sydd ei angen yn y nifer sy'n cymryd rhan. Mae'r tabl canlynol yn cynnwys yr heriau sydd wedi'u diffinio fel rhan o'r gwaith a wnaed gan is-grwp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol. Mae hefyd yn awgrymu rhai enghreifftiau o'r dulliau a allai gael eu harfer. Yn y ddau achos, mae heriau a dulliau pellach a allai gael eu diffinio.

8.16 Nid yw'r dull a amlinellir uchod yn un gwreiddiol; mae wedi cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus i roi cychwyn ar y cynllun Prosiect Slyri ar gampws amaethyddol Coleg Sir Gâr, Gelli Aur, ac arweiniodd at ddatblygu rhaglen PestSmart rhwng Dŵr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer adfer cemegion a ddefnyddir ym myd amaeth nas dymunir. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd brosiectau ar fynd sy'n rhoi sylw i heriau o ran mynd i'r afael â llygredd o gloddfeydd metel, adfer pridd sydd wedi'i ddifrodi gan blanhigion estron goresgynnol, a chasglu data ar raddfa fawr sy'n nodi newidiadau amgylcheddol mewn amser real. Mae'r llywodraeth, y byd academaidd a'r sector yn cynnig cymorth i ddiffinio'r heriau ac i gefnogi'r camau arloesol a fydd nid yn unig yn datrys y broblem, ond sydd â'r potensial i sefydlu 'sector' newydd o ddiwydiannau/cynhyrchion yng Nghymru. Ceir hefyd dulliau profedig presennol a allai fod yn barod i'w comisiynu. Mae angen i ni sicrhau llwybrau haws i'r farchnad ac ysgogi pobl i'w defnyddio.

8.17 Drwy fabwysiadu dull y gadwyn prosesu 'heriau', dylai'r sector fod yn gallu dod o hyd i'r datrysiadau cywir ar y raddfa gywir ar gyfer yr heriau o ran llygredd gwasgaredig a llygredd yn y tarddle yr ydym yn eu hwynebu.

8.18 Mae rôl ffermwyr wrth ddatblygu dulliau neu dechnolegau arloesol hefyd yn hanfodol. Fel unigolion ymarferol sy'n adnabod eu tir, mae ganddynt rôl bwysig o ran dod o hyd i ddatrysiadau. Mae dull Ffermio Baner Las yn cynrychioli enghraifft o ffermwyr yn archwilio'r ffordd y gallant gydweithio er mwyn cyflawni canlyniad cadarnhaol i'r amgylchedd. Mae'n rhaid rhoi blaenoriaeth i ddatblygu fframwaith sy'n grymuso ffermwyr yn gadarnhaol i ddod yn arloeswyr. Mae Partneriaeth Arloesi Ewrop yn anelu at ddatrys problemau cyffredin ym maes amaethyddiaeth a choedwigaeth drwy ddod â phobl o gefndiroedd ymarferol a gwyddonol ynghyd.O ran ansawdd dŵr, rydym yn ymwybodol fod Partneriaeth Arloesi Ewrop yn ystyried cais ar hyn o bryd i adeiladu gwelyau cyrs a glasbrint ar gyfer gwaith dylunio a allai gydymffurfio â rheoliadau yng Nghymru. Gellir defnyddio gwelyau cyrs ar gyfer trin dŵr brwnt a lleihau'r baich o ran storio slyri, gan leihau'r risg o lygredd o ganlyniad.Nid yw'r cais penodol hwn gan Bartneriaeth Arloesi Ewrop wedi'i

gymeradwyo hyd yn hyn, ond mae'n enghraifft o rywle y mae angen cyflymu prosesau gweinyddu.

**Tabl 4 – Dull pedwar cam o fynd i'r afael â llygredd amaethyddol – heriau ac arloesedd**

| | Enghreifftiau o heriau | Enghreifftiau o arloesedd |
|---|---|---|
| ATAL | Lleihau faint o faethynnau a gynhyrchir gan wartheg godro / gwartheg cig eidion / dofednod | • Rheoli'r dasg o fwydo manwl gywir<br>• Golchwyr<br>• Arloesedd |
| | Lleihau'r angen ar gyfer defnyddio cemegion a ddefnyddir ym myd amaeth a meddyginiaethau o'r milfeddyg | • Hwsmonaeth stoc<br>• Arloesedd |
| RHEOLI'R FFYNHONNELL | Lleihau faint o slyri a thail sydd mewn siediau a thai godro | • Systemau golchi clyfar<br>• Systemau amsugno – deunydd gorwedd<br>• Gwahanwyr slyri<br>• Arloesedd |
| | Lleihau faint o slyri a thail sydd ar lwybrau ac iardiau agored ac sy'n cael eu rhoi'n uniongyrchol ar y tir | • Systemau glanhau<br>• Cynllun a strwythur yr arwyneb<br>• Cafnau dŵr yn y cae a ffensys ar lannau'r afon<br>• Arloesedd |
| RHEOLI'R SAFLE | Datblygu cynnyrch unigryw a gwerthadwy o slyri | • Cynhyrchu ynni<br>• Cemegion aeddfedu'r pridd<br>• Arloesedd |
| | Rheoli slyri er mwyn galluogi integreiddio i systemau ffermio modern | • Modelu i baru cynhyrchu maethynnau â chapasiti'r tir i'w trin<br>• Ap "bod yn ddoeth am slyri"<br>• Triniaethau gwelyau cyrs<br>• Arloesedd |
| | Lleihau erydiad tir | • Ffensys ar lannau'r afon a lleiniau clustogi<br>• Hau cnwd arall dan gnydau india-corn<br>• Arloesedd |
| RHEOLI'R DALGYLCH | Rheoli slyri er mwyn galluogi allforion risg isel o ddalgylch penodol | • Casglu a thrin slyri mewn canolbwynt (e.e. treulio anaerobig)<br>• Datblygu marchnadoedd maethynnau<br>• Casglu gwybodaeth<br>• Arloesedd |
| | Lleihau llygredd cemegol | • Gwella dulliau trin dŵr<br>• Cyfarpar chwynnu<br>• Arloesedd |

***Argymhelliad 8.1: Bydd is-grwp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol yn anelu at ddiffinio'r heriau yn well wrth i ni ddatblygu ein gwaith yn ystod 2018, ac ehangu'r rhain i gynnwys yr heriau sy'n gysylltiedig â dŵr ffo pridd a chemegion a ddefnyddir ym myd amaeth. Byddwn wedyn yn gweithio gyda grwpiau arloesi, gan gynnwys y rhai yn y llywodraeth, er mwyn dod o hyd i'r cyfleoedd er mwyn sicrhau arloesedd.***

***Argymhelliad 8.2: Bydd is-grwp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol yn gweithio gyda'r sector er mwyn nodi'r amrediad o gynhyrchion sy'n bodoli eisoes a allai helpu hefyd wrth leihau llygredd. Byddwn yn archwilio sut y gall y rhai a fydd yn elwa arnynt fynd at y rhain yn haws. Enghraifft bresennol dda yw'r gwasanaeth a ddarperir gan Dŵr Cymru o ran sicrhau bod modd cael cyfarpar chwynnu ar log. Rhan allweddol o waith is-grwp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol fydd sicrhau bod offer, cyllid a gwybodaeth i gyd yn hygyrch drwy'r dulliau cyflawni amrywiol yn y sector. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys dylanwadu ar gynlluniau ariannu yn y dyfodol a helpu i ddatblygu dulliau TWE at y dyfodol.***

***Argymhelliad 8.3: Mae is-grwp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol hefyd yn cydnabod pwysigrwydd posibl rheoleiddio o ran galluogi i ddulliau arloesol gael eu datblygu a'u defnyddio. Bydd yr is-grŵp yn ystyried sut y gall greu'r amgylchedd rheoleiddio cywir er mwyn annog arloesedd.***

## Pennod 9 Crynodeb o'r argymhellion

**Argymhelliad 3.1:** Dylai Fforwm Rheoli Tir Cymru anelu at gomisiynu dadansoddiad pellach o achosion sylfaenol llygredd amaethyddol. Bydd y dadansoddiad manwl hwn o fudd i waith y grŵp yn y tymor hwy drwy barhau i adeiladu dealltwriaeth gyffredin o achosion uniongyrchol ac anuniongyrchol llygredd.

**Argymhelliad 4.1:** Drwy adeiladu ar y broses adeiladol â rhanddeiliaid a sefydlwyd hyd yn hyn, bod yr is-grŵp, fel mater o frys, yn ceisio'r mandad ar gyfer parhau i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o'r problemau cyfredol (bylchau, gorfodi, effeithiolrwydd) yn y dirwedd reoleiddiol.

**Argymhelliad 4.2:** Bwlch canfyddedig allweddol i'w archwilio ymhellach a derbyn sylw brys gan yr is-grŵp yw absenoldeb rheoliad effeithiol ynghylch arferion taenu slyri, y tu hwnt i gwmpas cyfyngedig ac effeithiolrwydd trawsgydymffurfio a'r arferion gorau a anogir gan y Cod Arferion Amaethyddol Da.Cydnabyddir bod arferion gwael yn hyn o beth yn gysylltiedig â nifer o ddigwyddiadau llygredd slyri.

**Argymhelliad 4.3:** Drwy gydweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol, dylai is-grwp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol archwilio potensial dulliau sylfaenol yn llawn fel ffordd o roi sylw i'r bylchau amlwg clir sydd yn y dirwedd reoleiddio, er mwyn mynd i'r afael â llygredd amaethyddol yn y parth critigol rhwng arferion da a throseddau atebolrwydd llym.

**Argymhelliad 4.4:** Dylai'r is-grŵp, gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a chyrff rhanddeiliaid, archwilio'r ffyrdd mwyaf effeithiol o gyflawni cynlluniau rheoli maetholion ar raddfa a chyflymder. Gall cyngor ac arweiniad, cymorth ymarferol, dulliau gwirfoddol, arloesedd a rheoleiddio gael rhannau i'w chwarae o ran gyrru'r gwaith o ddefnyddio cynlluniau rheoli maetholion ar raddfa eang. Cam cyntaf pwysig yw asesu ymarferoldeb ac effeithiolrwydd cynlluniau rheoli maetholion ar hyn o bryd. Mae angen i’r defnydd o faetholion fod yn seiliedig ar brofi pridd a maetholion yn wyddonol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cymhwyso’n gywir mewn ffordd sy’n cyd-fynd ag anghenion cnydau.

**Argymhelliad 4.5:** Dylai Llywodraeth Cymru, yr is-grŵp a Cyfoeth Naturiol Cymru ailymweld ag adolygiad y Rheoliadau Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol yng nghyd-destun adolygiad integredig ehangach o’r dirwedd reoleiddiol a gynhaliwyd gan yr is-grŵp, gan gydnabod pwysigrwydd storio slyri wrth fynd i'r afael â llygredd amaethyddol. Mae angen i'r adolygiad barhau i ganolbwyntio yn eglur iawn ar y canlyniad (cadw slyri allan o ddyfrffyrdd), a graddfa'r risg o gyflawni'r canlyniad hwnnw a gynrychiolir gan bresenoldeb ac absenoldeb gwahanol strwythurau ar ffermydd. Mae angen fframio mater 1991, y cyfrifiadau o ran capasiti a'r safonau/cydymffurfiaeth adeiladu yn y modd hwn, gan dynnu ar dystiolaeth o risgiau a chanlyniadau.

**Argymhelliad 4.6:** Fel cam cyntaf i'r cyfeiriad hwn, dylai'r is-grŵp geisio casglu gweithdy ynghyd gyda chynrychiolwyr o awdurdodau cynllunio lleol ledled Cymru er mwyn codi ymwybyddiaeth ymysg awdurdodau cynllunio lleol ar eu rôl nhw o ran mynd i'r afael â llygredd amaethyddol, yn ogystal ag archwilio dulliau newydd a nodi problemau sy'n bodoli yn y dull presennol. Mae angen amseru'r digwyddiad hwn i gyd-fynd â'r broses adolygu cynlluniau datblygu lleol sydd ar fin digwydd.

**Argymhelliad 4.7:** Yn seiliedig ar y gwaith blaenorol o baratoi dadansoddiad clir o risgiau, dylai'r is-grŵp, Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru archwilio priodoldeb dull ffermio dwys o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (mwyaf tebygol ar gyfer unedau godro mwy) yng nghyd-destun adolygiad integredig ehangach o'r dirwedd reoleiddiol. Dylid ystyried elfennau o'r drefn bresennol ar gyfer moch a dofednod, gyda dulliau newydd yn ôl yr angen.

**Argymhelliad 4.8:** Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru, drwy gysylltu'n agos a'r is-grŵp, ddatblygu cynllun ar gyfer defnyddio sancsiynau sifil i'w archwilio ar draws agweddau priodol o'r dirwedd reoleiddiol.

**Argymhelliad 4.9:** Mae angen i'r is-grŵp, Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymchwil ac Arloesi Cymru, ac arweinwyr y cynnig gwirfoddol wneud gwaith datblygu er mwyn penderfynu'r hyn y gallai'r cynnig cydnabyddiaeth a enillir fod, yn arbennig o ran cefnogi'r fenter wirfoddol a arweinir gan ffermwyr.

**Argymhelliad 4.10:** Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru adolygu ei ddull gweithredol o ran blaenoriaethu a rheoli gweithdrefnau gorfodi sy'n ymwneud â llygredd amaethyddol a rhannu'r canfyddiadau gyda'r is-grŵp.

**Argymhelliad 4.11:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyllid newydd / rhesymoli cyllid ar frys fel rhan o'r ymrwymiad at fynd i'r afael â llygredd amaethyddol. Mae angen adolygu'r darlun presennol o fuddsoddiad, gan ganolbwyntio ar ganlyniadau'n fwy trylwyr. Dylai'r adolygiad archwilio'r achos ar gyfer cyllid pellach i a) ddarparu cymhellion penodol sydd wedi'u targedau at annog arferion gorau; ii) cefnogi cyngor ac arweiniad tra datblygedig; iii) darparu swyddogion cyswllt cymwys wedi'u hyfforddi; iv) sicrhau ymdrech ddigonol o ran cydymffurfio a gorfodi; v) cynnig yr adnoddau dynol er mwyn parhau i ddatblygu gwaith is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol (ysgrifenyddiaeth ac ati).

**Argymhelliad 4.12:** Yn fwy eang, mae angen i'r is-grŵp asesu cyfraniad pridd at ansawdd dŵr gwael a'r ffyrdd o fynd i'r afael â'r broblem hon, gan dynnu ar y sail dystiolaeth sylweddol a ddatblygwyd fel rhan o broses y cynllun rheoli basn afon.

**Argymhelliad 5.1:** Dros y misoedd nesaf, bydd is-grwp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol yn ystyried ac yn pennu cyfeiriad ym meysydd systemau profi/archwilio ac integreiddio â'r agenda bolisi ehangach, canllawiau a llywodraethu er mwyn cefnogi cam nesaf datblygiad Ffermio Baner Las, a datblygiad dulliau gwirfoddol posibl eraill o gydnabyddiaeth a enillir. Awgrymir bod y gwaith hwn yn cael ei wneud trwy gyfrwng grŵp gorchwyl a gorffen.

**Argymhelliad 5.2:** Fel rhan o'r grŵp gorchwyl a gorffen, bydd angen i Lywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ddatblygu canllawiau ar gyfer cynlluniau sicrwydd cymeradwy, y mae angen iddynt gynnwys y canlynol:

**Argymhelliad 5.3:** NFU Cymru i symud y cais llawn ar gyfer cyllid partneriaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei flaen, er mwyn darparu adnoddau ar gyfer datblygu'r prosiect. Y nod yw dechrau ar y cam hwn o waith erbyn mis Gorffennaf 2018 (yn amodol ar gais llwyddiannus).

**Argymhelliad 5.4:** Is-grwp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol i barhau i godi ymwybyddiaeth a sicrhau bod eu priod sefydliadau yn ymrwymo i ddull gwirfoddol, ac archwilio cyfleoedd ar gyfer digwyddiad ymgysylltu â ffermwyr (haf 2018).

**Argymhelliad 5.5:** Is-grwp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol i fod yn gyfrifol am ddiffinio 'sut olwg sydd ar statws da' ar gyfer dŵr o ran rheoleiddio, dulliau gwirfoddol a Thalu am Wasanaethau Ecosystemau, er mwyn cefnogi a dylanwadu ar y rhaglen Gwerthoedd Brand Cynaliadwyedd i Gymru (Brand Cymru) a chyd-destun ehangach polisi amaethyddol yn y dyfodol.

**Argymhelliad 5.6:** Bydd is-grwp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol yn parhau i weithio'n agos gyda'r grŵp i ddatblygu Brand Cymru fel bod ffrydiau gwaith yn integreiddio lle bo'n briodol. Ein hargymhelliad yw bod yn rhaid i ansawdd dŵr fod yn un o'r gwerthoedd sy'n sail i frand cynaliadwyedd.

**Argymhelliad 6.1:** Yn y tymor hwy, datblygu dulliau posibl sy'n annog ymgysylltiad â gwasanaethau cynghori a datblygiad proffesiynol parhaus, sydd wedi'u halinio â chyfleoedd megis datblygiad Brand Cymru neu gydnabyddiaeth a enillir.

**Argymhelliad 6.2:** Yn y tymor hwy, gwerthuso'r posibilrwydd o gysylltu cyngor, canllawiau a datblygiad proffesiynol parhaus yn y dyfodol â mentrau strategol er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni canlyniadau drwy bob dull, megis 'Brand Cymru', y Fframwaith Rheoli Adnoddau Naturiol gan gynnwys datganiadau ardal, a chyllid ar gyfer nwyddau cyhoeddus yn y dyfodol.

**Argymhelliad 6.3:** Mae angen dybryd i gwblhau'r diweddariad i'r Cod Ymarfer Amaethyddol Da yn unol ag argymhellion y Weithrediaeth Gwell Rheoleiddio, a fydd yn rhoi cyfle i ymgysylltu'n ehangach â'r sector ffermio o ran ansawdd dŵr.

**Argymhelliad 6.4:** Dylid ystyried siop un stop ar gyfer darparu gwybodaeth ynghylch rheoleiddio amaethyddol ac mae angen gwerthuso sut y mae hyn yn cyd-fynd ag egwyddorion a datblygiad LLYW.CYMRU.

**Argymhelliad 6.5:** Bydd is-grwp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn cynnwys rheoliadau ehangach sy'n gysylltiedig â gwelliannau ansawdd dŵr yn y llyfryn 'Pan ddaw'r archwilydd'.

**Argymhelliad 6.6:** Bydd is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol yn trosi 'sut olwg sydd ar statws da' o ran y safonau sydd i'w cyrraedd ar gyfer rheoleiddio ac arferion da yn ganllawiau sydd ar gael yn hawdd ac sy'n hygyrch ac yn addas ar gyfer y ffyrdd gwahanol y mae'r sector amaethyddol yn hoffi eu defnyddio i ymgysylltu â gwybodaeth.

**Argymhelliad 6.7:** Dylai fod goruchwyliaeth strategol well o brosiectau a ariennir gan y Rhaglen Datblygu Gwledig a ffynonellau arian cyhoeddus eraill gan, er enghraifft, is-grwp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol. Dylid datblygu dull sicrhau ansawdd er mwyn sicrhau bod prosiectau sydd wedi'u hanelu at weithio gyda ffermwyr ynghylch ansawdd dŵr yn briodol, a bod unigolion sydd â chymwysterau addas yn cael eu cyflogi.

**Argymhelliad 6.8:** Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried penodi tîm cyswllt fferm Cymru gyfan, yn debyg i'r un sydd wedi'i sefydlu yn Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau bod rhwydwaith o staff ar lawr gwlad sydd â'r sgiliau priodol i roi cyngor ac arweiniad i'r sector ynghylch rheoleiddio ac arferion da.

**Argymhelliad 6.9:** Cyswllt Ffermio i adeiladu capasiti ychwanegol ar frys o ran ei rwydwaith o gynghorwyr, er mwyn sicrhau bod digon o gynghorwyr ar gael i roi cyngor ac arweiniad ynghylch problemau ansawdd dŵr, gan gynnwys seilwaith fferm a chynlluniau rheoli maethynnau yng Nghymru – yn ddwyieithog pan ofynnir am hyn.

**Argymhelliad 6.10:** Adolygu llwyddiant y rhaglen bwrpasol a chenedlaethol gan Cyswllt Ffermio, a datblygu rhaglen hirdymor er mwyn mynd i'r afael â phroblemau o ran dalgylchoedd â blaenoriaeth nad ydynt wedi'u targedu hyd yma. Bydd hyn yn cynnwys monitro'r gwaith o'i hymgorffori a'i heffaith yn erbyn gwelliannau yn y dalgylchoedd presennol a nodwyd, fel bod modd ei haddasu yn unol â monitro egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

**Argymhelliad 6.11:** Mae angen adeiladu capasiti o ran 'asiantau newid, nid swyddogion datblygu Cyswllt Ffermio yn unig' yn y sector amaethyddol,ond hefyd cysylltiadau lleol sy'n gallu ymgysylltu’n effeithiol â ffermwyr, adeiladu perthnasau llawn ffydd â nhw, a chychwyn newid cadarnhaol.

**Argymhelliad 7.1:** Archwilio p'un a ellir galluogi contractwyr amaethyddol i gael mynediad at gyllid o dan y Grant Busnes i Ffermydd a'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy.

**Argymhelliad 7.2:** Archwilio manteision dileu'r cyfyngiad £1 miliwn o ran trosiant a roddir ar y ddau Grant Busnes i Ffermydd ar hyn o bryd.

**Argymhelliad 7.3:** Llywodraeth Cymru i ystyried rhoi dyraniad uwch o'r gyllideb tuag at ddulliau buddsoddi, a symud y cyfnod ar gyfer gwneud cais ymlaen cyn gynted ag y bo modd.

**Argymhelliad 7.4:** Llywodraeth Cymru i roi arweiniad pellach i ffermwyr ynghylch yr amserlen o ran y cyfnod y daw dulliau buddsoddi presennol y Rhaglen Datblygu Gwledig i ben, er mwyn eu galluogi i greu cynlluniau busnes â phwyslais.

**Argymhelliad 7.5:** Cynnwys dulliau i gefnogi buddsoddiad ar y fferm mewn unrhyw system newydd o gymorth yn dilyn y Polisi Amaethyddol Cyffredin.

**Argymhelliad 7.6:** Edrych ar gyfleoedd i wneud mwy i gydlynu'r ddarpariaeth o gyllid buddsoddi drwy gysylltu hyn â rhaglen strategol o godi ymwybyddiaeth, gan gynnwys rhoi cyngor a chanllawiau ynghylch materion sy'n ymwneud ag ansawdd dŵr yn ogystal â rhoi mwy o wybodaeth ar y 'cynnig' yn ei holl agweddau, h.y. yr amrediad llawn o ddulliau ariannu sydd ar gael, yr hyn a ellir ei ariannu drwy bob dull, a'r broses o wneud cais ar gyfer cynlluniau penodol.

**Argymhelliad 7.7:** Archwilio'r potensial ar gyfer defnyddio mwy o gynghorwyr a ariennir gan Cyswllt Ffermio sydd â sgiliau arbenigol ym maes dylunio dulliau integredig tuag at reoli dŵr glaw a slyri ar iard y fferm ac ar draws y fferm, ac ymyriadau eraill ar raddfa fferm a fydd yn mynd i'r afael â llygredd gwasgaredig a llygredd yn y tarddle.

**Argymhelliad 7.8:** Ystyried datblygu un rhaglen integredig o fesurau buddsoddi (a gefnogir gan gyngor) sydd wedi'i dylunio’n benodol er mwyn mynd i'r afael ag ansawdd dŵr a llygredd amaethyddol.

**Argymhelliad 7.9:** Mae'n rhaid i'r amserlen ar gyfer cymryd camau gorfodi mewn perthynas â ffermydd â thenantiaid roi ystyriaeth i'r amser y bydd yn ei gymryd i ddatrys unrhyw anghydfodau rhwng y landlord a’i denant.

**Argymhelliad 7.10:** Dylid targedu buddsoddiad cyhoeddus er mwyn hyrwyddo offer sefydlog newydd at y ffermwr gweithredol a busnes y fferm.

**Argymhelliad 7.11:** Gall gwasanaethau hwyluso er mwyn cynorthwyo ffermwyr tenant i weithio gyda'u landlordiaid helpu wrth oresgyn rhai o'r heriau a nodwyd.

**Argymhelliad 7.12:** Efallai bydd angen newid deddfwriaeth sy'n ymwneud â thenantiaeth yng Nghymru os yw'n dod yn rhwystr o ran datblygu.

**Argymhelliad 8.1:** Bydd is-grwp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol yn anelu at ddiffinio'r heriau yn well wrth i ni ddatblygu ein gwaith yn ystod 2018, ac ehangu'r rhain i gynnwys yr heriau sy'n gysylltiedig â dŵr ffo pridd a chemegion a ddefnyddir ym myd amaeth. Byddwn wedyn yn gweithio gyda grwpiau arloesi, gan gynnwys y rhai yn y llywodraeth, er mwyn dod o hyd i'r cyfleoedd er mwyn sicrhau arloesedd.

**Argymhelliad 8.2:** Bydd is-grwp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol yn gweithio gyda'r sector er mwyn nodi'r amrediad o gynhyrchion sy'n bodoli eisoes a allai helpu hefyd wrth leihau llygredd. Byddwn yn archwilio sut y gall y rhai a fydd yn elwa arnynt fynd at y rhain yn haws. Enghraifft bresennol dda yw'r gwasanaeth a ddarperir gan Dŵr Cymru o ran sicrhau bod modd cael cyfarpar chwynnu ar log. Rhan allweddol o waith is-grwp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol fydd sicrhau bod offer, cyllid a gwybodaeth i gyd yn hygyrch drwy'r dulliau cyflawni amrywiol yn y sector. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys dylanwadu ar gynlluniau ariannu yn y dyfodol a helpu i ddatblygu dulliau TWE at y dyfodol.

**Argymhelliad 8.3:** Mae is-grwp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol hefyd yn cydnabod pwysigrwydd posibl rheoleiddio o ran galluogi i ddulliau arloesol gael eu datblygu a'u defnyddio. Bydd yr is-grŵp yn ystyried sut y gall greu'r amgylchedd rheoleiddio cywir er mwyn annog arloesedd.

---

Y safbwyntiau, barnau a datganiadau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn yw'r rhai a ddatblygwyd ac a gytunwyd gan aelodau o is-grwp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol.Felly, mae'n bosibl nad ydynt yn adlewyrchu rhai y sefydliadau partner sy'n cael eu cynrychioli gan yr aelodau.Darperir yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad hwn i lywio, cynghori a chychwyn trafodaeth ar y ffyrdd posibl o fynd i'r afael â llygredd amaethyddol yng Nghymru yn unig. Mae aelodau o'r is-grŵp wedi gwneud pob ymdrech i greu safbwynt cyffredin sy'n gydgysylltiedig a sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir yn gywir ac yn ddibynadwy. Mae pob sefydliad partner yn cadw'r hawl i barhau i roi cyngor unigol neu safbwyntiau gwahanol wrth i dystiolaeth newydd ddod i'r amlwg neu mewn ymateb i geisiadau gan eu cyrff llywodraethu neu aelodau.

**Atodiad 1 Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol – Cylch Gorchwyl**

1. Cefndir

1.1. Mae dadansoddiad o raglen ymchwiliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar gyfer 2015 yn dangos bod arferion amaethyddol yn cyfrannu at fethiant 110 o gyrff dŵr.

1.2. Er bod ansicrwydd ynghylch dyfodol y fframwaith rheoleiddiol a lefel yr adnoddau sydd ar gael yn dilyn penderfyniad y DU i adael yr UE, mae'n amlwg bod angen mynd i'r afael â llygredd gwasgaredig a llygredd yn y tarddle yng Nghymru gyn gynted ag y bo modd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael o fewn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a gyhoeddwyd yn ddiweddar.19

1.3. Mae'r Strategaeth Ddŵr i Gymru yn amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli dŵr hyd at 2020. Mae'r cynllun gweithredu sy'n cyd-fynd â'r strategaeth yn ymroddi i adolygu'r fframwaith ar gyfer llygredd gwasgaredig erbyn 2018.

2. Dull strategol ar gyfer mynd i'r afael â llygredd yn y tarddle a llygredd gwasgaredig

2.1. Mae'r ddogfen hon yn sefydlu'r cylch gorchwyl ar gyfer is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar fynd i'r afael â llygredd amaethyddol gwasgaredig a llygredd yn y tarddle ('y grŵp').

2.2. Mae'r grŵp yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid archwilio a datblygu dulliau ar gyfer mynd i'r afael â llygredd dŵr amaethyddol gwasgaredig ac yn y tarddle yng Nghymru, yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru wedi'i amlinellu yn y Strategaeth Ddŵr i Gymru.

2.3 Bydd y grŵp yn datblygu dull yn unol ag egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (fel yr amlinellir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016) a gofynion statudol cyfredol megis y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, gan gynnwys Erthygl 7, sydd â'r nod o ddiogelu ansawdd dŵr sy'n cael ei dynnu i'w yfed.

2.4 Mae aelodau'r grŵp yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru (NFU Cymru), Undeb Amaethwyr Cymru (FUW), Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad, Cymdeithas Ffermwyr Tenant Cymru, Dŵr Cymru, Hybu Cig Cymru, AHDB Dairy, a Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'n bosibl y gwahoddir sefydliadau eraill i fynychu cyfarfodydd a/neu ymuno â'r grŵp yn ôl disgresiwn y cadeirydd.

[19] https://naturalresources.wales/our-evidence-and-reports/the-state-of-natural-resources-report-assessment-of-the-sustainable-management-of-natural-resources/?lang=en

2.5 Nod y grŵp yw defnyddio dull Cymru gyfan i ddeall a datrys y broblem o lygredd amaethyddol. Bydd yn ymgysylltu â'r Panelau Cyswllt Rheoli Basn Afon (Gorllewin Cymru ac Afon Dyfrdwy) ynghylch y cynnydd a wnaed i sicrhau bod dull cydlynol yn cael ei ddefnyddio.

2.6 Prif ddiben y grŵp yw ymchwilio i ddatrysiadau posibl ar gyfer mynd i'r afael â llygredd amaethyddol gwasgaredig ac yn y tarddle yng Nghymru, cytuno arnynt, adrodd amdanynt, a'u gweithredu. Bydd y grŵp hefyd yn ceisio cyflawni dull mwy integredig ar gyfer mynd i'r afael â phroblemau llygredd amaethyddol ar ran yr holl sefydliadau sy'n cymryd rhan, wrth adeiladu cysylltiadau â fforymau cysylltiedig megis y Panelau Cyswllt Rheoli Basn Afon. Bydd dathlu a chyfleu llwyddiannau yn rhan allweddol o'r broses hon.

2.7 Mae amcanion y grŵp fel a ganlyn:

- Cynnal dadansoddiad o achosion sylfaenol er mwyn meddu ar gyd-ddealltwriaeth o achosion llygredd amaethyddol a'r ffyrdd y mae'r rhain yn derbyn sylw ar hyn o bryd
- Nodi opsiynau posibl ar gyfer mesurau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â llygredd amaethyddol
- Amcangyfrif yr adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r newidiadau sydd eu hangen, a gwerthuso pob opsiwn o ran dadansoddiad o'r gost cyn belled ag y bo modd
- Dewis nifer llai o opsiynau â blaenoriaeth i'w datblygu ymhellach, gan ystyried y rhai sy'n debygol o gynnig y manteision mwyaf yng nghyd-destun ffynonellau eraill o lygredd gwasgaredig a llygredd yn y tarddle
- Mabwysiadu dull partneriaeth ar gyfer nodi a gwneud cynigion am yr adnoddau sydd eu hangen i ddatblygu mentrau penodol a, phan fydd hynny'n briodol, gweithredu fel y grŵp llywio yn ystod y cam gweithredu
- Rhoi sylw i'r angen i sefydlu targedau mesuradwy ar gyfer lleihau nifer y digwyddiadau llygredd amaethyddol yn y tarddle, gan fynd i'r afael â maint llygredd gwasgaredig a gwella ansawdd dŵr o fewn amserlen benodol
- Codi ymwybyddiaeth ac ymrwymiad rhanddeiliaid allweddol o fewn Fforwm Rheoli Tir Cymru, Grŵp Partneriaeth y Strategaeth Amaethyddol (Amaeth Cymru), cyrff sector perthnasol megis AHDB Dairy a Hybu Cig Cymru, cynghorwyr amaethyddol o fewn y sector bancio, a’r Panelau Cyswllt Rheoli Basn Afon.

2.8 Ymgymerir â'r tasgau uchod yng nghyd-destun gwaith arall sy'n mynd rhagddo, sy'n cynnwys edrych ar lygredd gwasgaredig o safbwynt coedwigaeth, cloddfeydd metel, tanciau septig, a defnyddiau eraill o dir gwledig a threfol.[20]

[20] https://cdn.naturalresources.wales/media/4059/diffuse-water-pollution-in-wales.pdf?mode=pad&rnd=131596369370000000

2.9 Bydd aelodau'r grŵp yn cefnogi'r cadeirydd, a fydd yn adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch argymhellion.

## 3. Dull ar gyfer y gwaith

3.1 Fel rhan o gyflawni'r amcanion uchod, bydd y grŵp yn gwneud y canlynol:

- Adolygu'r dystiolaeth gyfredol a datblygu sail gadarn i danategu'r argymhellion uniongyrchol a thymor hwy hynny y credir bod eu hangen ar gyfer mynd i'r afael â llygredd amaethyddol gwasgaredig ac yn y tarddle.
- Archwilio cydrannau amaethyddol dogfen gyfredol Cyfoeth Naturiol Cymru – Cynllun ar gyfer Llygredd Dŵr Gwasgaredig yng Nghymru[21] – a chynorthwyo gyda'r gwaith o'i hadolygu'n barhaus.
- Ystyried cynigion a nodwyd fel rhan o ymarfer cwmpasu diweddar gan Cyfoeth Naturiol Cymru, sef 'Identifying Opportunities for Tackling Agricultural Pollution Issues and Promoting the Better On-farm Management of Nutrients'.[22]
- Sicrhau bod ffrydiau gwaith Llywodraeth Cymru perthnasol ar gyfer Talu am Wasanaethau Ecosystemau (TWE) yn cael eu cysylltu â gwaith yr is-grŵp.
- Ystyried grwpiau eraill Llywodraeth Cymru a grwpiau allanol sy'n ymdrin â llygredd amaethyddol er mwyn osgoi dyblygu ymdrechion ac i sicrhau bod argymhellion yn cael eu datblygu mewn modd cydgysylltiedig.
- Sicrhau bod aelodau o Fforwm Dŵr Llywodraeth Cymru a'r Panelau Cyswllt Rheoli Basn Afon yn cael eu hysbysu am waith y grŵp. O gofio bod cryn orgyffyrddiad rhwng aelodau Fforwm Rheoli Tir Cymru a grwpiau eraill sy'n gweithio ar faterion ansawdd dŵr, disgwylir y gwneir hyn trwy ddiweddariadau byr ar lafar yn hytrach na rhannu cofnodion.

## 4. Aelodaeth

4.1. Mae aelodaeth y grŵp yn seiliedig ar strwythur cyfredol Fforwm Rheoli Tir Cymru, sy'n cynnwys sefydliadau rheoli tir sy'n seiliedig ar aelodaeth lle mae gan aelodau unigol rôl uniongyrchol wrth reoli tir. Mae sefydliadau eraill yn cael eu cynrychioli yn y grŵp lle mae ganddynt rôl fawr yn ymwneud â pholisi, gweithredu, cyllid neu gyngor.

[21] https://www.naturalresources.wales/media/4059/diffuse-water-pollution-in-wales.pdf

-----------------------------

[22] Ar gael ar gais gan Brian Pawson, Cynghorydd Amaethyddiaeth Cyfoeth Naturiol Cymru.

| Rôl | Unigolyn Penodedig |
|---|---|
| **Cadeirydd** | *Zoe Henderson (Aelod Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru)* |
| **Aelodau** | *James Dowling (Llywodraeth Cymru – Y Gangen Dŵr)*<br><br>*Andrew Chambers (Llywodraeth Cymru – Yr Amgylchedd a Materion Gwledig)*<br><br>*Ryan Davies (Llywodraeth Cymru – Yr Amgylchedd a Materion Gwledig)*<br><br>*Betsan John (Llywodraeth Cymru – Yr Amgylchedd a Materion Gwledig)* |
| **Aelodau** | *Robert Vaughan (Pennaeth Grŵp Rheoli Tir yn Gynaliadwy Cyfoeth Naturiol Cymru)*<br><br>*Sarah Hetherington (Cynghorydd Amaethyddol Cyfoeth Naturiol Cymru)*<br><br>*Matt Lowe (Uwch-swyddog Amaethyddol Cyfoeth Naturiol Cymru, de Cymru) NEU Nichola Taylor (Uwch-swyddog Amaethyddol Cyfoeth Naturiol Cymru, gogledd Cymru)*<br><br>*Geraint Weber (Cynghorydd Strategaeth Ddŵr Cyfoeth Naturiol Cymru)*<br><br>*Rob McCall (Arweinydd Tîm Arloesi Cyfoeth Naturiol Cymru)*<br><br>*Meinir Wigley (Tîm Cysylltiadau Allanol a Chyfathrebu Cyfoeth Naturiol Cymru)* |
| **Aelodau** | *Olynwyd Rhianne Jones (Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad) gan Branwen Miles*<br><br>*Bernard Griffiths (Undeb Amaethwyr Cymru)*<br><br>*Rachel Lewis-Davies (Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru)*<br><br>*Dennis Matheson (Cymdeithas y Ffermwyr Tenant)* |

| | |
|---|---|
| | *Phillippa Pearson a Steven Bradley (Dŵr Cymru)*<br><br>*Olynwyd Julie Finch (Rheolwr Strategaeth Gorfforaethol a Pholisi, Hybu Cig Cymru) gan Kirsten Hughes*<br><br>*Jamie McCoy (AHDB Dairy)*<br><br>*Olynwyd David Saywell (Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin) gan Creighton Harvey*<br><br>*Eirwen Williams (Menter a Busnes – yn bresennol i drafod cynllun cyflawni Cyswllt Ffermio)*<br><br>*Sara Jenkins (Menter a Busnes – yn bresennol i drafod cynllun cyflawni Cyswllt Ffermio)* |
| **Ysgrifenyddiaeth** | *Jill Brown (Swyddog Cyfathrebu Cyfoeth Naturiol Cymru – Tîm y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr*<br><br>*Brian Pawson (Uwch-gynghorydd Amaethyddol Cyfoeth Naturiol Cymru)* |

4.2. Disgwylir i aelodau o'r grŵp wneud y canlynol:

- Cyfrannu eu syniadau, a rhai'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli, ar yr holl faterion sy'n ymwneud â llygredd gwasgaredig a llygredd yn y tarddle sy'n deillio o amaethyddiaeth
- Cyfrannu at y gwaith o baratoi adroddiad byr ar y ffyrdd gorau ar gyfer mynd i'r afael â phroblemau llygredd amaethyddol
- Ystyried a fydd yn bosibl gwneud argymhellion i'w gwahanol sefydliadau ac i Lywodraeth Cymru – yn y tymor byr (yn gynnar yn 2017) ac yn y tymor hwy
- Gwneud yr adnoddau sydd eu hangen ar gael o fewn eu sefydliad i gefnogi gwaith y grŵp
- Dilyn polisi 'dim byd annisgwyl' fel rhan o ymagwedd gydweithrediadol tuag at waith y grŵp

4.3. Yn dibynnu ar yr agenda, caiff y grŵp gyfethol cynrychiolwyr ychwanegol i roi tystiolaeth a chyngor ychwanegol lle mae angen. Bydd mewnbwn o'r fath yn cael ei drefnu trwy'r ysgrifenyddiaeth.

5. Amlder a natur cyfarfodydd

5.1. Fel sy'n ofynnol i gyflawni gofynion (3) uchod, ond mae'n debygol y bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn fisol yn ystod y cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2017.

5.2. Bydd cyfarfodydd yn cael eu trefnu trwy Skype/saingynhadledd lle y credir mai dyma'r dull mwyaf effeithiol o sicrhau cynnydd, ond ffefrir cyfarfodydd wyneb yn wyneb er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd ar gyfer gwaith cydweithrediadol.

5.3. Lle mae cyfarfodydd wyneb yn wyneb wedi cael eu trefnu, gwneir ymdrechion i sicrhau y darperir cyfleusterau saingynadledda ar gyfer aelodau nad ydynt yn gallu teithio, pryd bynnag y bo modd gwneud hynny.

6. Ysgrifenyddiaeth

6.1. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn trefnu'r holl gyfarfodydd a llunio rhestr o bwyntiau gweithredu cyn gynted ag y bo modd ar ôl i bob cyfarfod ddod i ben.

6.2. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn darparu adroddiadau drafft/argymhellion o'r grŵp er mwyn eu hystyried ymhellach a gwneud sylwadau.

***Cyfoeth Naturiol Cymru***
***Mawrth 2018***

**Atodiad 2 Crynodeb o dystiolaeth a gyflwynir gan Cyfoeth Naturiol Cymru fel rhan o adolygiad 2016 o dan y Gyfarwyddeb Nitradau**

Argymhellion ynghylch Dŵr Croyw Ewtroffig

Casglwyd data ansawdd dŵr o 88 llyn a data ecolegol o 101 llyn ledled Cymru gan ddefnyddio data gan Cyfoeth Naturiol Cymru a, lle roedd ar gael, o drydydd partïon. Defnyddiwyd setiau data a oedd yn bodoli eisoes, yn enwedig ar gyfer gwaith monitro a gyflawnwyd ar gyfer y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

Roedd yr asesiad ewtroffigedd o'r llynnoedd mewn Parthau Perygl Nitradau yn darparu dull cadarn, yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer nodi llynnoedd lle yr ystyrir bod ewtroffigedd yn broblem sylweddol:

- Nodwyd 25 corff dŵr a oedd mewn perygl posibl o ewtroffigedd, yn seiliedig ar naill ai data cemegol neu ecolegol.
- Roedd wyth corff dŵr yn dangos tystiolaeth gref iawn o ewtroffigedd, a oedd yn cynnwys yr holl Barthau Perygl Nitradau cyfredol (Llyn Coron, Llyn Syfaddan, Llyn Hanmer a Llynnoedd Bosherton), yn ogystal â phum corff dŵr ychwanegol (Llyn Maelog, Llyn yr Wyth Eidion, Llynnau y Fali, Llyn Traffwll a Llyn Pencarreg).
- Mae pob un o'r pedwar Parth Perygl Nitradau a ddynodwyd oherwydd ewtroffigedd (Llynnoedd Bosherton, Llyn Hanmer, Llyn Syfaddan a Llyn Coron) yn parhau i fodloni'r meini prawf ar gyfer llynnoedd ewtroffig, a gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru argymell eu bod yn parhau i fod yn ddynodedig.
- Roedd tri chorff dŵr yn dangos rhywfaint o dystiolaeth o ewtroffigedd. Y rhain oedd Llyn Tegid, Cronfeydd Dŵr Plas Uchaf a Dolwen, a Phwll Witchett.
- Yn dilyn adolygiad annibynnol, gwrthodwyd argymhellion i ddynodi dau o'r llynnoedd (Llynnau y Fali a Llyn Traffwll). Argymhellwyd y dylid gwneud achos o dan ddarpariaethau'r Gyfarwyddeb Nitradau dros ddynodi Llyn Maelog (Ynys Môn), Llyn yr Wyth Eidion (Ynys Môn) a Llyn Pencarreg (Sir Gaerfyrddin) oherwydd tystiolaeth gref iawn o ewtroffigedd.

Argymhellion Ynghylch Môr Ewtroffig

Cafodd cwrs dŵr Aberdaugleddau ei adolygu gyntaf fel corff dŵr llygredig posibl yn 2009. Daeth yr adolygiad i'r casgliad nad oedd digon o dystiolaeth i gefnogi cynnig dros ei ddynodi, ond argymhellwyd y dylai'r gwaith monitro parhau a dylid ei adolygu fel corff dŵr llygredig posibl eto pan fydd rhagor o dystiolaeth ar gael – mae'r rhan fwyaf o'r gwaith hwn wedi cael ei wneud fel rhan o'r adolygiad Parthau Perygl Nitradau diweddaraf.

O dan yr adolygiad diweddaraf, argymhellwyd bod y dalgylch ar gyfer corff dŵr mewnol Aberdaugleddau yn cael ei ddynodi o dan ddarpariaethau'r Gyfarwyddeb

Nitradau. Cafodd hyn ei gefnogi gan dystiolaeth ym mhob un o'r tri chategori a seiliwyd yr asesiad arnynt. Ar gyfer y corff dŵr allanol, roedd hefyd dystiolaeth i awgrymu bod y dyfroedd yn cynnwys gormodedd o faetholion (mae'n methu o ran nitradau anorganig toddedig); fodd bynnag, nid yw'r dystiolaeth Categori II yn cefnogi achos dros ddynodi, gan fod tyfiant macroalgaidd yn fwy lleol yn y corff dŵr allanol ac nid yw'n methu o ran macroalgâu oportiwnistaidd neu ffytoplancton.

Roedd yr asesiad ewtroffigedd a gynhaliwyd ar gyfer Aberdaugleddau'n darparu dull cadarn, yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer nodi cyrff dŵr morol lle roedd ewtroffigedd wedi'i nodi ac yn cael ei ystyried yn broblem sylweddol.

Argymhellwyd bod y corff dŵr allanol yn parhau i gael ei fonitro a bod yr allbynnau'n cael eu hadolygu yn yr adolygiad pedair blynedd nesaf.

Dangosodd adolygiad o ddŵr wyneb a dŵr daear yng Nghymru nad oedd safleoedd dynodedig cyfredol yn dangos unrhyw welliant o ran nitradau yn yr ansawdd dŵr, a byddant yn parhau i fod yn ddynodedig. Argymhellwyd un dynodiad newydd ar gyfer dŵr wyneb ac un ar gyfer dŵr daear, oherwydd tueddiadau cynyddol nitradau yn yr ardaloedd lleol hynny.

**Atodiad 3: Crynodeb o gynllun ymgyrch llygredd amaethyddol is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru**

Amcanion y cynllun

- Lleihau nifer yr achosion o lygredd amaethyddol yn y tarddle yn ogystal â maint llygredd gwasgaredig.
- Cyfeirio ffermwyr a chontractwyr at y rhai a all ddarparu cyngor ymarferol ynghylch lleihau'r risg o lygredd (gan gynnwys argaeledd ffynonellau cyllid neu grantiau). Mae ffynonellau cyngor yn cynnwys Cyswllt Ffermio, cynghorwyr ffermwyr eu hunain, staff Cyfoeth Naturiol Cymru, a gwefannau Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru.
- Annog ffermwyr yng Nghymru i gydymffurfio â'r rheoliadau cyfredol, gan gynnwys Cod Ymarfer Amaethyddol Da, y Rheoliadau Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol, a Rhaglen Gweithredu Parthau Perygl Nitradau (lle bônt yn berthnasol).
- Annog unrhyw ffermwr sy'n ymwneud ag achos o lygredd amaethyddol i adrodd amdano cyn gynted ag y bo modd, fel y gellir cymryd camau i leihau'r risg i ansawdd dŵr, bywyd gwyllt a'r economi fel mater o flaenoriaeth.
- Dathlu a hyrwyddo enghreifftiau o arferion da wrth leihau'r risg o lygredd amaethyddol.
- Codi ymwybyddiaeth o is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol a’r ffyrdd mae'r holl sefydliadau cysylltiedig yn cydweithredu i ddatrys problem sy'n effeithio ar bawb, a sicrhau ymwybyddiaeth uwch o'r papurau/argymhellion a gynhyrchir gan y grŵp.

Gofynion y gynulleidfa

## Mae'r gynulleidfa hon yn ceisio:

- Gwybodaeth dda a chlir am reoli maetholion
- Awgrymiadau ymarferol ynghylch yr hyn y gallant ei wneud
- Gweithio mewn partneriaeth yn hytrach na chael 'pregeth'
- Cydnabyddiaeth pan wneir pethau'n dda
- Awgrymiadau sy'n effeithiol o ran cost a chymorth ariannol

## Dylanwadu arnynt a chysylltu â nhw trwy:

- Grwpiau sector, e.e. Cyswllt Ffermio, yr undebau ffermio, Hybu Cig Cymru, AHDB Dairy
- Cymraeg/Saesneg clir – yn hawdd ei ddarllen ond yn cyfleu'r neges
- Digwyddiadau gan eraill, e.e. Cyswllt Ffermio, yr undebau ffermio, CFfI, AHDB Dairy, Hybu Cig Cymru, Dŵr Cymru
- Rhwydweithiau eraill, e.e.  CFfI Cymru
- Adeiladu ar berthnasau cyfredol â staff o’r holl sefydliadau sy'n cynrychioli is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol

Yn ogystal â ffermwyr a chontractwyr, mae'n rhaid inni ddangos i lunwyr polisi, Aelodau’r Cynulliad, y cyhoedd a'r cyfryngau ei bod yn bosibl, trwy fabwysiadu'r egwyddorion sy'n tanategu rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, i grwpiau cyffredinol o randdeiliaid megis Fforwm Rheoli Tir Cymru ddatblygu datrysiadau creadigol ac yn barhaol i broblemau cymhleth sydd â gwreiddiau dwfn megis llygredd amaethyddol.

Negeseuon allweddol

***Negeseuon ehangach y grŵp gorchwyl***

- Trwy weithio gyda'n gilydd, fel rheoleiddwyr, undebau ffermio, defnyddwyr terfynol a physgotwyr, rydym yn deall yn well anghenion a chyfyngiadau ein gilydd, sy'n golygu ein bod yn gallu dod ar draws syniadau a datrysiadau a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r problemau llygredd amaethyddol yn y tymor hir.

- Mae'r grŵp yn gweithio ar nifer o brosiectau i lywio polisi amaethyddol. Mae'r rhain yn edrych ar y fframwaith rheoleiddio cyfredol, dulliau gwirfoddol, cyngor i ffermwyr, buddsoddiadau ac arloesedd.

***Negeseuon ynghylch trin slyri mewn modd call***

Mae is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru wedi cytuno ar naratif a fyddai'n cael ei ddefnyddio yn sail i'n gwaith cyfathrebu. Mae'r naratif llawn yn Atodiad 1 ond mae'r pwyntiau allweddol fel a ganlyn:

- Mae gormod o achosion o lygredd amaethyddol sy'n deillio o ffermydd yn effeithio ar amgylchedd Cymru, yn enwedig afonydd. Mae pawb sy'n gysylltiedig – cynrychiolwyr ffermwyr, cyrff diwydiannol, rheoleiddwyr, y llywodraeth, Dŵr Cymru, genweirwyr – yn gweithio gyda'i gilydd i newydd y ffordd rydym yn ymdrin â'r broblem.

- Mae cyngor ymarferol ar gael yn rhad ac am ddim o Cyswllt Ffermio a Cyfoeth Naturiol Cymru – gall hwn roi arweiniad a chyngor ar storio, pryd i daenu, argaeledd grantiau, a chreu cynlluniau wrth gefn rhag ofn bod rhywbeth yn mynd o'i le.

- Os oes rhywbeth yn mynd o'i le ac mae slyri wedi mynd i nant neu afon, neu os oes risg o hynny'n digwydd, adroddwch am y mater i Cyfoeth Naturiol Cymru ar unwaith ar ei linell frys 24 awr, rhif 03000 65 3000, lle bydd swyddogion dyletswydd ar gael ar bob adeg i roi cyngor. Gorau po gyntaf!

***Negeseuon ynghylch rheoli maetholion***

- Mae rheoli maetholion yn dda **yn allweddol i** broffidioldeb fferm.

- Nid gwybod faint o wrtaith i'w roi yw'r unig reswm dros wybod statws maetholion a pH pridd, ond mae'n ymwneud â chynllunio ar gyfer y dyfodol a sicrhau bod ffrwythlondeb y pridd yn gytbwys.

Mae rhai is-negeseuon tymhorol allweddol – yr hyn i'w wneud bob mis – yn cael eu hamlinellu isod, ond mae hon yn ddogfen fyw ac ychwanegir at y rhestr yn rheolaidd.

| MIS | Negeseuon allweddol |
|---|---|
| Ionawr – Chwefror | Gwerth slyri o ran maetholion a dulliau gosod |
| Mawrth – Ebrill | Adolygu capasiti storio slyri ar gyfer y gaeaf nesaf. Didoli dŵr glân a budr |
| | |
| Gorffennaf | Effeithlonrwydd dŵr: cysylltu â Cyswllt Ffermio ynghylch unrhyw dechnoleg newydd – pympiau porfeydd, pympiau solar ac ati |
| Medi | Samplu pridd am faetholion – sut i wneud hyn a'r manteision |
| Tachwedd | Taenu slyri dros y gaeaf – y risgiau i ddŵr, pridd ac ati |
| | |

Gweithredu

| Math o weithgaredd | Sianel | Mecanwaith |
|---|---|---|
| Cyfryngau | Papurau newydd ffermio (er enghraifft, Farmers Weekly, Farmers Guardian) | Datganiadau tymhorol rheolaidd i'r wasg<br>Astudiaethau achos o arferion ffermio da<br>Erthyglau nodwedd a osodir / cyfweliadau |
| | Colofnau ac atodiadau ffermio a chefn gwlad ym mhapurau newydd Cymru | Datganiadau i'r wasg a chysylltu'n rheolaidd â newyddiadurwyr |
| | Papurau newydd lleol mewn mannau gwledig – er enghraifft, Anglesey Mail a Cambrian News | Datganiadau lleol i'r wasg gyda gwybodaeth sy'n berthnasol i'r ardal honno |
| | Cyfryngau darlledu – Country Focus ar BBC Radio Wales a Ffermio ar S4C | Gwerthu darnau cyfoes yn rhagweithiol a meithrin perthynas ar gyfer storïau ffermio yn y dyfodol – cynnig cyfweliadau ar y cyd |
| Digidol | Gwefan | Diweddaru'r holl wefannau i gynnwys naratif y cytunwyd arno a chyfeirio at gyngor |
| | Twitter<br>Facebook | Negeseuon rheolaidd ar Twitter yn cyfeirio traffig i wefannau priodol, gan ddefnyddio'r hashnod #farmingandcleanwater #ffermioadŵrglân |
| | Blogiau fideo | Defnyddio astudiaethau achos i gynhyrchu flogiau. Yn bennaf, bydd hyn am ffermwyr ac yn dathlu arferion da o ganlyniad. Yn ddelfrydol, byddem yn dewis ffermwr i wneud blog amdano ei hun. Gwneir flog am y grŵp ei hun hefyd. |
| Marchnata | Offerynnau gweledol creadigol | Dylunio a chynhyrchu ffeithlun i'w ddefnyddio yn ystod yr ymgyrch |
| Ymgysylltu â rhanddeiliaid | Canolbwyntio ar Lywodraeth Cymru, Cyswllt Ffermio, Busnes Cymru, a chyflenwyr a busnesau amaethyddol | Bydd yr holl bartneriaid yn defnyddio eu sianeli eu hunain i gysylltu â rhanddeiliaid, e.e. newyddlenni, grwpiau postio ac ati. Gofyn i randdeiliaid cysylltiedig eraill gyfeirio ffermwyr at wefannau. Defnyddio Gwlad |

| Math o weithgaredd | Sianel | Mecanwaith |
|---|---|---|
| Ymgysylltu â ffermwyr | Yn uniongyrchol | Trwy Cyswllt Ffermio |
| Cyfathrebu mewnol | Sianeli cyfathrebu allanol | Bydd yr holl sefydliadau partner yn defnyddio eu sianeli eu hunain i hysbysu staff/swyddogion. |

<u>Amserlen gweithgareddau</u>

| Amser | Gweithgarwch cyffredinol a cherrig milltir |
|---|---|
| Awst – Rhagfyr 2017 | - Cynllunio a darparu<br>- Dylunio'r deunyddiau creadigol ar gyfer yr ymgyrch, gan gynnwys ffeithlun<br>- Creu cynnwys y wefan – gyda llawer o gysylltiadau â sefydliadau partner eraill<br>- Anfon nodyn at bartneriaid posibl ac Aelodau'r Cynulliad am waith y grŵp a gweithgarwch yn y dyfodol – gan geisio cymeradwyaeth a mwyhad ein gweithgareddau cyfryngau cymdeithasol yn benodol<br>- Digwyddiad 'Muck & Soil' CAFC |
| Chwefror 2018 | - Datganiad i'r wasg am daenu slyri yn dilyn tywydd gwlyb, gan dargedu cyhoeddiadau a gwefannau ffermio llaeth arbenigol yn benodol<br>- Flog ar sail resymegol a gweithgareddau'r gweithgor<br>- Creu cynnwys y wefan – gyda llawer o gysylltiadau â sefydliadau partner eraill<br>- Nodi problemau ansawdd dŵr ac opsiynau eraill ar gyfer Parthau Perygl Nitradau gydag aelod-sefydliadau |

| Amser | Gweithgarwch cyffredinol a cherrig milltir |
| --- | --- |
| Mawrth 2018 | - Hyrwyddo negeseuon ar gyfer y gwanwyn trwy'r cyfryngau cymdeithasol – gan gynnwys astudiaethau achos<br>- Defnyddio naratif a negeseuon ar gyfer y gwanwyn mewn cyfathrebiadau â rhanddeiliaid<br>- Penodi swyddog llygredd amaethyddol yn Cyfoeth Naturiol Cymru<br>- Llythyr at yr holl ffermwyr yn y 26 o ddalgylchoedd â blaenoriaeth, gan dynnu eu sylw at gyfarfodydd Cyswllt Ffermio<br>- Anfon erthygl dechnegol ar storfeydd slyri gan Cyswllt Ffermio yn ei gylchgrawn at bob ffermwyr |
| Ebrill 2018 | - Defnyddio adroddiad at Ysgrifennydd y Cabinet am opsiynau eraill i Barthau Perygl Nitradau<br>- Lansio prosiect Cyswllt Ffermio a hyrwyddo ei adnoddau<br>- Erthygl a osodir gan Zoe Henderson am y grŵp, ei waith a lansiad Cyswllt Ffermio yn Farmers Weekly / Farmers Guardian, ac wedyn rhyddhau'r erthygl i holl aelodau'r grŵp ei defnyddio yn eu cyhoeddiadau nhw<br>- Hysbysiad Cyswllt Ffermio yn y papurau ar 1,000 o gynlluniau rheoli maetholion<br>- Cyfarfodydd Cyswllt Ffermio ar gyfer ffermwyr<br>- Erthygl yng nghyhoeddiadau ein partneriaid – yn argraffedig ac ar-lein |
| Mai 2018 | - Cyfathrebiadau am Daliadau Sylfaenol: allwn ni ychwanegu unrhyw negeseuon allweddol – ydych yn cynllunio gofynion slyri ar gyfer y gaeaf nesaf?<br>- Cyfarfodydd a chyngor Cyswllt Ffermio<br>- Grant posibl gan Cyfoeth Naturiol Cymru i Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr<br>- Cyfarfodydd Cyswllt Ffermio ar gyfer ffermwyr |
| Mehefin 2018 | - Grant Cynhyrchu Cynaliadwy ar gael gan Lywodraeth Cymru<br>- Cyfarfodydd a chyngor Cyswllt Ffermio<br>- Astudiaeth achos – beth ddigwyddodd pan wnes i adrodd am broblem i Cyfoeth Naturiol Cymru? |
| Gorffennaf 2018 | - Digwyddiad posibl gyda phartneriaid yn Sioe Frenhinol Cymru a sioeau amaethyddol eraill – cynnydd o 2017 Cydgysylltu negeseuon rhwng aelodau'r is-grŵp<br>- Defnyddio naratif a negeseuon allweddol ar gyfer yr haf mewn cyfathrebiadau â rhanddeiliaid |

| Amser | Gweithgarwch cyffredinol a cherrig milltir |
|---|---|
| | - Cyfarfodydd a chyngor Cyswllt Ffermio |
| Awst 2018 | - Cyfarfodydd a chyngor Cyswllt Ffermio<br>- Erthygl am yr angen i samplu pridd a'i fanteision |
| Medi 2018 | - Digwyddiad cynhyrchion llaeth Cymru<br>- Cyfarfodydd a chyngor Cyswllt Ffermio |
| | - |
| Hydref 2018 | - Cyfarfodydd a chyngor Cyswllt Ffermio, gan gynnwys cyfres ar dda byw sy'n aros allan yn y gaeaf |
| Tachwedd 2018 | - Presenoldeb sefydliadau Fforwm Rheoli Tir Cymru yn Ffair y Gaeaf a chyfle i gydgysylltu negeseuon<br>- Datganiad i'r wasg wedi'i dargedu at y de-orllewin – wedi'i ddilyn gan negeseuon yn y cyfryngau cymdeithasol yn atgoffa ffermwyr am gamau gweithredu ar gyfer slyri yn y gaeaf<br>- Cyfarfodydd a chyngor Cyswllt Ffermio<br>- Diweddaru cynnwys y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol cysylltiedig ynghylch y camau gweithredu ar gyfer y gaeaf<br>- Defnyddio naratif a negeseuon allweddol ar gyfer y gaeaf mewn cyfathrebiadau â rhanddeiliaid |
| Rhagfyr 2018 | - Cyfarfodydd a chyngor Cyswllt Ffermio |

**Atodiad 4 Cysyniad llygredd amaethyddol Fforwm Rheoli Tir Cymru – Gwella dealltwriaeth a darparu cyngor ac arweiniad i wella arferion rheoli tir gyda'r nod o leihau llygredd amaethyddol**

| | |
|---|---|
| **Teitl y cysyniad** | Gwella dealltwriaeth a darparu cyngor ac arweiniad i wella arferion rheoli tir gyda'r nod o leihau llygredd amaethyddol. |
| **Unigolyn arweiniol**<br><br>(enw, sefydliad a manylion cyswllt) | Dr Sarah Hetherington<br>Cynghorydd Amaethyddol<br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Ffôn: 0300 065 3642<br>Ffôn symudol: 07580 973917<br><br>sarah.hetherington@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk |
| **Cydweithredu**<br><br>(rhowch fanylion unrhyw unigolion sy'n gysylltiedig â'r gwaith o ddatblygu'r cysyniad, gan gynnwys unrhyw fewnbwn polisi) | Mae'r nodyn cyflawni cysyniad hwn wedi cael ei ffurfio gan is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol. Mae'r grŵp hwn yn gydweithrediad mawr rhwng yr holl bartïon allweddol gyda'r nod o leihau achosion o lygredd amaethyddol yn y tarddle a llygredd gwasgaredig i wella ansawdd dŵr yn barhaus. Mae'r aelodau'n cynnwys:<br><br>Zoe Henderson, Cadeirydd Aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Andrew Chambers / Llywodraeth Cymru<br>Ryan Davies Llywodraeth Cymru<br>Richard Davies AHDB Dairy<br>Rachel Lewis-Davies NFU Cymru<br>James Dowling Llywodraeth Cymru<br>Julie Finch Hybu Cig Cymru<br>Bernard Griffiths Undeb Amaethwyr Cymru<br>Phillippa Pearson / Dŵr Cymru<br>Sarah Jones Dŵr Cymru<br>Rhianne Jones Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad<br>Dennis Matheson Cymdeithas Ffermwyr Tenant Cymru<br>David Saywell Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin<br><br>Mae'r is-grŵp yn rhoi cyfle i Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid yn y |

| | |
|---|---|
| | diwydiant archwilio a datblygu dulliau ar gyfer mynd i'r afael â llygredd amaethyddol. Mae hyn yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli dŵr hyd at 2020, a amlinellir yn y Strategaeth Ddŵr i Gymru.<br><br>Bydd yr is-grŵp hefyd yn cysylltu â'r Panelau Cyswllt Rheoli Basn Afon i sicrhau bod pob sector yn cael ei gynnwys yn y gwaith hwn. |
| **Disgrifiad o'r cysyniad**<br><br>(disgrifiwch y cysyniad ac unrhyw amgylchiadau/dylanwadau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r cysyniad. Dangoswch rôl glir ar gyfer Cyswllt Ffermio a rôl ar gyfer eraill) | Mae ansawdd ac adnoddau dŵr yng Nghymru yn allweddol i'n llesiant ac yn bwysig i iechyd pobl, yr economi a bywyd gwyllt.  Yn aml, mae ein nentydd a'n hafonydd yn cael eu heffeithio gan lygredd ac ansawdd dŵr gwaeth.  Cyfanswm y ffigurau ar gyfer achosion o lygredd amaethyddol (categori 1–3 neu'n gyfatebol) ers 1 Ionawr 2010 yw 1,113 o ddigwyddiadau, neu 120–170 bob blwyddyn.  Yn ystod y saith mlynedd a hanner diwethaf, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymdrin â 679 (70–120 y flwyddyn) o achosion o lygredd slyri yr adroddwyd amdanynt a ddeilliodd o amaethyddiaeth, yn benodol gan ffermydd llaeth ac i raddau llai gan ffermydd cig eidion.<br><br>Yn unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru), mae atal llygredd sy’n deillio o amaethyddiaeth yn arwain at fanteision sylweddol ar gyfer busnesau fferm a'r gymuned a'r economi ehangach sy'n dibynnu ar amgylchedd dŵr iachach.  Mae gan Cyswllt Ffermio rôl sylweddol o ran:<br><br>1) Datblygu **ymgyrch genedlaethol** i wneud y canlynol:<br>• Codi ymwybyddiaeth ymhlith ffermwyr o'r llygredd sy'n digwydd neu sy'n gallu digwydd a'r effeithiau ar ansawdd dŵr, yr amgylchedd, mannau tynnu dŵr yfed, dyfroedd ymdrochi, pysgodfeydd ac ati<br>• Cyfeirio ffermwyr a chontractwyr at wybodaeth, cyngor a gwasanaethau cymorth sydd ar gael i helpu i osgoi llygredd<br>• Codi ymwybyddiaeth o faterion gorfodi – gan gynnwys rhwymedigaethau tirfeddianwyr, ffermwyr a chontractwyr, a chodi ymwybyddiaeth ymhlith ffermwyr o |

ddull cymesur Cyfoeth Naturiol Cymru o orfodi, o roi cyngor i erlyn

- Lleihau'r risg o achosion o  lygredd
- Yr hyn i'w wneud os oes achos o lygredd ar fin digwydd a sut i leihau effaith achosion o lygredd, trwy baratoi ffermwyr yn well i ymateb a thrwy gynyddu hunanadrodd am ddigwyddiadau llygredd er mwyn i Cyfoeth Naturiol Cymru ymateb
- Cynyddu ymwybyddiaeth ffermwyr o'r manteision o bob safbwynt: ariannol, adnoddau ac amgylcheddol
- Datblygu ac ymgorffori negeseuon allweddol yn holl weithgareddau Cyswllt Ffermio (Atodiad C)
- Egluro sut i gael mynediad at grantiau posibl a fydd yn caniatáu rhagor o fuddsoddi mewn lleihau'r risg o lygredd amaethyddol
- Datblygu astudiaethau achos y gellir eu defnyddio i ddangos arferion da
- Datblygu rhaglen ddysgu i gefnogi'r gweithgareddau hyn, gan gynnwys modiwlau ar-lein

Dylai'r ymgyrch genedlaethol hon a digwyddiadau trosglwyddo gwybodaeth cysylltiedig ledled Cymru alluogi lledaenu gwybodaeth yn fwy helaeth, er mwyn gwneud i ffermwyr feddwl sut maent yn cynllunio ac yn buddsoddi mewn adnoddau sy'n addas i'r diben i atal achosion o lygredd a llygredd gwasgaredig rhag digwydd.

Dylai'r ymgyrch hon ganolbwyntio ar atal y canlynol rhag digwydd a gwella'r ffordd maent yn cael eu rheoli:

- Gwrtaith a slyri (o'u creu i'w defnyddio mewn caeau, gan gynnwys eu storio a'u gosod ar y tir)
- Pridd a lleihau colled (nid yn unig trwy feithrin ond hefyd trwy reoli da byw)
- Cemegau (megis plaladdwyr)

Bydd rhaid i hyn gynnwys mentrau ar y canlynol:

- Cynllunio a rheoli gwrtaith

| | |
|---|---|
| | • Cynllunio rheoli a gosod maetholion<br>• Didoli dŵr glân a budr<br>• Seilwaith ffermydd, gan gynnwys gofynion storio silwair, slyri ac olew<br>• Pwysigrwydd hwsmonaeth bridd dda<br>• Cod Ymarfer Amaethyddol Da<br>• Pwysigrwydd cynefinoedd torlannol a chlustogfeydd, pantiau a thrapiau gwaddodion<br>• Manteision dulliau risg isel o osod slyri a'r arferion gorau ar gyfer y rhain<br>• Storio ac ymdrin ag olew<br>• Nodi mannau risg ar gyfer ffermydd o ran gosod maetholion a thrin y tir, a sut i leihau'r risgiau o'r mannau hyn trwy newid gweithgareddau ffermio<br><br>2) Datblygu **rhaglen wedi'i thargedu** sy'n canolbwyntio ar 25 dalgylch. Lle y nodwyd bod problemau ynghylch ansawdd dŵr yn deillio o amaethyddiaeth (Atodiad B), mae angen datblygu fframwaith i'r pwrpas wedi'i dargedu.<br>• Gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru / Dŵr Cymru i nodi a rhannu gwybodaeth gyfredol am fentrau dalgylchoedd lleol a thystiolaeth o arferion gwael a llygredd, i sicrhau dull sy'n gydgysylltiedig ac wedi'i dargedu<br>• Trwy ymgysylltu â ffermwyr, cynnal dadansoddiadau o achosion sylfaenol i nodi'r ffactorau gwaelodol sy'n peri arferion gwael, e.e. contractau â chyflenwyr<br>• Defnyddio'r dystiolaeth a gesglir i ddatblygu a chyflawni fframwaith pwrpasol ar gyfer darparu gwybodaeth a chynorthwyo ffermwyr i wella arferion amaethyddol a lleihau llygredd. Gall fod angen cynnwys gweithdai, ymweliadau â ffermydd, clinigau cyngor un i un, a chydlynu a chyfeirio i hyrwyddo'r defnydd o fesurau buddsoddi perthnasol megis Grant Cynhyrchu Cynaliadwy, Grant Busnes i Ffermydd a Glastir<br>• Sefydlu dysgu priodol o'r rhaglen ar draws gweithgareddau Cyswllt Ffermio |

| | |
|---|---|
| | • Adrodd am ganfyddiadau allweddol i is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru, gan gynnwys crynodeb o ymgysylltu, dadansoddi achosion sylfaenol, a chyflawni. Lle bo hynny'n briodol, nodi'r camau dilynol sydd eu hangen<br><br>Mae egwyddorion allweddol i'w hystyried mewn perthynas â'r ymgyrch genedlaethol a'r ymgyrchoedd pwrpasol wedi'u targedu'n cynnwys y canlynol:<br><br>• Lle mae mentrau eisoes yn mynd rhagddynt ac yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda Cyswllt Ffermio, mae'n rhaid i'r gweithgareddau a'r ddarpariaeth leol barhau i lywio unrhyw anghenion o ran cyngor yn y rhaglenni hyn<br>• Y tu allan i'r 25 dalgylch sy'n cael eu targedu, os oes mentrau a arweinir gan ffermwyr i fynd i'r afael â llygredd amaethyddol, dylai Cyswllt Ffermio gymhwyso'r fframwaith dalgylch pwrpasol wedi'i dargedu sy'n cael ei ddatblygu fel rhan o'r cysyniad hwn i'w cefnogi<br>• Lle bo hynny'n bosibl, ni ddylid gohirio'r gallu i gymryd rhan mewn gweithgareddau i fynd i'r afael â'r materion hyn oherwydd diffyg cynlluniau busnes fferm ar ddaliadau unigol<br>• Mae angen ystyried cynyddu ymgysylltiad gan rannau gwahanol o'r sectorau amaethyddol<br>• Rhaid i'r ystyriaethau gynnwys a ddylid defnyddio cydnabyddiaeth a enillwyd neu ddulliau megis y rhai a ddefnyddiwyd yn nalgylch Nant Olwy |
| **Canlyniadau / dangosyddion perfformiad allweddol**<br><br>(disgrifiwch y canlyniad a ddymunir a'r ffordd arfaethedig o'i gyflawni) | • Lleihau nifer y digwyddiadau lle y rhestrir amaethyddiaeth fel un o'r rhesymau dros fethu â chyflawni statws da mewn perthynas â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.<br>• Cynnydd yn nifer y ffermwyr sy'n defnyddio arferion rheoli ffermydd cynaliadwy mewn perthynas â maetholion a phriddoedd<br>• Cynnydd yn nifer y ffermwyr sy'n ceisio cymorth gan Cyswllt Ffermio, undebau |

| | |
|---|---|
| | ffermio neu Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â lleihau llygredd amaethyddol<br>• Cynnydd yn nifer o ffermydd a chanddynt gyfleusterau storio i alluogi defnyddio maetholion o slyri a gwrtaith yn y ffordd fwyaf priodol<br>• Cynnydd yn nifer y ffermwyr sy'n hunanadrodd am ddigwyddiadau (gyda chynnydd posibl yn nifer y digwyddiadau yr adroddwyd amdanynt yn y tymor byr)<br>• Lleihau nifer yr achosion o lygredd yn y tarddle yn sylweddol, o gyfartaledd o 120–170 y flwyddyn i lai nag 20, dros gyfnod o saith mlynedd (Atodiad D), gyda'r nod o leihau hynny i ddim digwyddiadau mawr (y tu hwnt i unrhyw gynnydd tymor byr a allai fod o ganlyniad i ddulliau cenedlaethol a dulliau wedi'u targedu)<br>• Lleihau problemau llygredd amaethyddol yn y 25 dalgylch wedi'u dargedu a nodwyd a gwelliant mesuradwy i ansawdd ac ecoleg dŵr |
| **Nodi tri nod/amcan allweddol**<br><br>(ystyried o leiaf tri amcan a fydd yn ategu'r gwaith o gyflawni'r canlyniad cyffredinol) | 1) Creu ymrwymiad o fewn y diwydiant i ddileu llygredd i ddangos safonau uchel ac enw da ffermio yng Nghymru<br>2) Sicrhau ymgyrch gydgysylltiedig a chyson wedi'i chefnogi gan holl randdeiliaid y grŵp, sy'n cynorthwyo ffermwyr i gymryd camau uniongyrchol i atal llygredd, yn ogystal â deall a chynllunio arloesedd ar gyfer y dyfodol a gwella eu busnesau wrth ddileu llygredd<br>3) Ymgysylltu â'r **holl** ffermwyr yn y dalgylchoedd wedi'u targedu trwy amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu cydgysylltiedig, gan gynnwys hyfforddiant, cyfarfodydd, y cyfryngau cymdeithasol, cyhoeddiadau, gwefannau, ymweliadau â ffermydd ac ati, ac annog pob ffermwr (gan gynnwys y rhai sy'n anodd eu cyrraedd) i weithredu trwy becyn cymorth (e.e. cyngor un i un yn rhad ac am ddim, samplu pridd ac argymell datrysiadau i'r pwrpas) |
| **Cyd-destun strategol**<br><br>(dangos perthnasedd i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, blaenoriaethau strategol ac offerynnau statudol) | Mae'r polisïau a'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud yn benodol â phroblem llygredd yn y tarddle a llygredd gwasgaredig fel a ganlyn:<br>• Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE 2000, gan gynnwys dynodiadau safleoedd gwarchodedig (e.e. dŵr yfed, pysgod cragen, |

| | |
|---|---|
| | Natura 2000, dyfroedd ymdrochi, ardaloedd sy'n sensitif i faetholion)<br>• Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (sy'n trawsosod gofynion Cyfarwyddeb Nitradau'r Comisiwn Ewropeaidd 1991)<br>• Deddf Adnoddau Dŵr 1991<br>• Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010<br>• Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) (Cymru) 2013<br>• Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Storio Olew) (Cymru) 2016<br>• Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975<br><br>O dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, mae gan Gymru dri chynllun rheoli basn afon. Mae'r cynlluniau hyn bellach o fewn cyd-destun ehangach o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Nodau trosfwaol Deddf yr Amgylchedd yw galluogi adnoddau Cymru i gael eu rheoli mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgysylltiedig.<br><br>Bydd lleihau'r effeithiau sy'n deillio o lygredd amgylcheddol yn helpu yn y gwaith o gymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a chyflawni'r amcanion llesiant, ac mae wedi cael ei nodi fel mater sy'n peri pryder yn Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2016, ac mae'n cael ei adlewyrchu ym Mholisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru. Bydd hefyd yn helpu Cymru i leihau llygredd nitradau o amaethyddiaeth a bodloni gofynion y Gyfarwyddeb Nitradau.<br><br>Mae hefyd fframwaith eang o bolisïau a deddfwriaeth ar lefel ryngwladol, lefel y DU a lefel Cymru sy'n gyrru ac yn ategu'r gwaith o reoli Natura 2000. Y brif ddeddfwriaeth Ewropeaidd yw'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd a'r Gyfarwyddeb Adar, sy'n hyrwyddo gwarchod a rheoli cynefinoedd naturiol a rhywogaethau gwyllt. Mae deddfwriaeth allweddol y DU yn cynnwys y Rheoliadau Cynefinoedd, Deddf Bywyd Gwyllt a |

| | |
|---|---|
| | Chefn Gwlad, a Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.<br><br>Un o’r ddwy flaenoriaeth allweddol ar gyfer diwydiant cig coch Cymru – fel yr amlinellir yn 'Dyfodol y Diwydiant: Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Diwydiant Cig Coch Cymru' – yw sector cig sy'n gallu gwella effeithlonrwydd cynhyrchu wrth gynnal amgylchedd a thirwedd Cymru. Nid yn unig mae'r gallu i reoli maetholion yn effeithlon ar ffermydd cig eidion a ffermydd defaid yn cael effaith ar effeithlonrwydd cynhyrchu, ond mae hefyd yn cael effaith sylweddol ar y gallu i leihau risgiau i'r amgylchedd, gan gynnwys cyrsiau dŵr.<br><br>Mae'r tair blaenoriaeth allweddol ar gyfer y diwydiant llaeth yng Nghymru, fel yr amlinellir yn y Map Ffyrdd Llaeth ar gyfer Cymru (Hydref 2010), yn gysylltu’n uniongyrchol â'r fenter hon:<br>• Bod 50% o ffermwyr llaeth yn cynllunio maetholion yn weithredol<br>• Bod gan 95% o gynhyrchwyr gynllun rheoli gwrtaith<br>• Bod nifer yr achosion o lygredd dŵr ar ffermydd llaeth yn gostwng<br><br>Bydd y fenter hon hefyd yn cynorthwyo busnesau bwyd i leihau eu hôl troed ecolegol, sy'n un o amcanion allweddol Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014–2020. |
| **Tystiolaeth gyfredol i ategu'r cynllun os yw’n berthnasol**(ddim yn berthnasol os mai casglu tystiolaeth yw’r cysyniad) | Cyfanswm y ffigurau ar gyfer achosion o lygredd amaethyddol (categori 1–3 neu'n gyfatebol) ers 1 Ionawr 2010 yw 1,113 o ddigwyddiadau, neu 120–170 bob blwyddyn. Yn ystod y saith mlynedd a hanner diwethaf, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymdrin â 679 o achosion o lygredd slyri yr adroddwyd amdanynt ar ffermydd. Mae hyn yn 70–120 bob blwyddyn ac mae'n amlwg bod hyn yn annerbyniol (Atodiad D).<br><br>Mae digwyddiadau o'r fath yn peri llawer o ddifrod i'r amgylchedd, yn bennaf i nentydd ac afonydd, ac maent yn effeithio ar gyflenwadau dŵr, bywyd gwyllt a physgod, a'r economi, yn |

| | |
|---|---|
| | benodol twristiaeth, gyda phroblemau cysylltiedig megis colli Baneri Glas ar gyfer Dŵr Ymdrochi. Nid yn unig mae digwyddiadau o'r fath yn cael effaith negyddol ar boblogaethau pysgod, ond mae cyrsiau dŵr llygredig hefyd yn cael effaith negyddol ar enw'r diwydiant amaethyddiaeth.<br><br>Mae'r nifer uchaf o ddigwyddiadau yn bennaf, ond nid yn ddieithriad, mewn ardaloedd lle mae nifer uchel o ffermydd llaeth. Mae gan ddalgylchoedd lleol broblemau penodol, sy'n arwain at yr angen i dargedu gweithgareddau ar ffermydd llaeth, cig eidion a defaid yn y dalgylchoedd hyn, wrth hefyd datblygu deunyddiau a lledaenu gwybodaeth y gellir eu defnyddio gan y diwydiant ehangach.<br><br>Mae amrediad o faterion sy'n dylanwadu ar ansawdd dŵr yng Nghymru.  Mae rhai arferion amaethyddol gwael yn cyfrannu at fethiannau i ennill statws ansawdd dŵr da neu well o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn gosod targed ar gyfer pob corff dŵr, sef statws da cyffredinol (e.e. bywyd pryfed, planhigion a physgod, a chemeg dŵr).<br><br>Cafwyd y data o ddata 'Rhesymau dros Beidio â Chyflawni Statws Da' (gweler Atodiad A) a gasglwyd o waith ymchwilio Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru / Cyfoeth Naturiol Cymru a gynhaliwyd yn ystod cylch cyntaf y cynlluniau rheoli basn afon.  Categorïau rhesymau dros beidio â chyflawni statws da yw drwgdybiedig, yn debygol neu a gadarnhawyd, yn dibynnu ar lefel yr hyder yn ymchwiliad Cyfoeth Naturiol Cymru a'r broses o'u categoreiddio'n bum sector hysbys, gan gynnwys amaethyddiaeth.<br><br>Mae data Rhaglen LIFE Natura yn dangos bod llygredd dŵr gwasgaredig yn cael (neu'n debygol o gael) effaith andwyol ar 61 o 123 nodwedd gynefin neu rywogaeth wahanol ar safleoedd Natura 2000 (49%) ar 39 o 112 safle Natura 2000 ledled Cymru (35%). Mae Tabl 1 yn rhoi rhestr o'r nodweddion yr effeithir arnynt yn amlaf. Ar gyfer rhestr lawn o safleoedd a nodweddion yr effeithir arnynt, gweler Atodiadau A a B. |

| | |
|---|---|
| | Cofnodwyd cyfanswm o 110 achos o broblemau a risgiau a oedd yn ymwneud â llygredd dŵr gwasgaredig ar draws cyfres Natura 2000 o safleoedd (ar unedau unigol neu safleoedd cyfan), o gyfanswm o 3,090 o gofnodion ar gyfer pob math o broblem a risg (3%). Fodd bynnag, cafodd llawer o gamau eu nodi ar lefel safle (sy'n nodi bod y broblem yn cael effaith ar yr holl unedau neu'r rhan fwyaf o'r unedau ar y safle).<br><br>Mae'r safleoedd sy'n cael eu heffeithio gan lygredd dŵr yn bennaf yn safleoedd dŵr croyw (29 Ardal Cadwraeth Arbennig / Ardal Gwarchodaeth Arbennig), a safleoedd morol ac aberol (deg Ardal Cadwraeth Arbennig / Ardal Gwarchodaeth Arbennig). Mae'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig y rhestrir yn amlaf eu bod yn cael eu heffeithio yw'r rhai sydd â nodweddion ffen a chors (a'r rhywogaethau cysylltiedig), megis Ardal Cadwraeth Arbennig Corsydd Llŷn, Ardal Cadwraeth Arbennig Corsydd Môn, ac Ardal Cadwraeth Arbennig Mawnogydd Fenn's, Whixall, Bettisfield, Wem a Cadney. Oherwydd lleoliad gwledig llawer o'r safleoedd hyn, mae'r rhan fwyaf o'r problemau a'r risgiau a nodwyd yn ymwneud ag arferion rheoli tir. |
| **Amserlen** | Cyn gynted ag y bo modd o fewn cyfyngiadau Cyswllt Ffermio, gan gydnabod y calendr ffermio. |
| **Cynulleidfa/Graddfa**<br><br>(pwy, pa sector(au), niferoedd ac ati) | Ymgyrch genedlaethol wedi'i thargedu at ffermwyr, tirfeddianwyr a chontractwyr sy'n cyrraedd pawb sydd wedi'u cofrestru gyda Cyswllt Ffermio, yn enwedig y sectorau llaeth a chig eidion.<br><br>Yr holl ffermwyr a rheolwyr tir a chontractwyr eraill sy'n gweithio mewn dalgylchoedd wedi'u targedu, ni waeth a ydynt eisoes yn ymgysylltu â Cyswllt Ffermio ai peidio, ac unrhyw grŵp arall o ffermwyr sydd wedi nodi bod llygredd sy'n deillio o amaethyddiaeth yn broblem iddynt. |
| **Cysylltiadau ag unrhyw weithgaredd arall sy'n cael ei** | Mae Cyfoeth Naturiol Cymru eisoes yn gweithio'n llwyddiannus gyda ffermwyr i gyfleu negeseuon allweddol a chyngor technegol i ffermwyr mewn rhai dalgylchoedd. Hoffai is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar |

| | |
|---|---|
| **gyflawni a allai wella'r cysyniad neu gael ei wella ganddo** | lygredd amaethyddol barhau i adeiladu a datblygu'r cydberthnasau hyn i gyflawni dull cyson gyda swyddogion datblygu Cyswllt Cymru, arweinwyr technegol y sector a staff allweddol lleol Cyfoeth Naturiol Cymru.<br><br>Er enghraifft, yn ardal y de-ddwyrain, dechreuodd staff weithio gyda swyddog datblygu lleol Cyswllt Ffermio yn ystod rownd flaenorol y Cynllun Datblygu Gwledig (2007–2014) yn dilyn achos o lygredd yn nalgylch Nant Olwy.<br><br>Trefnodd Cyswllt Ffermio i staff Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru siarad mewn digwyddiad ffermio a gynhaliwyd yn Rhaglan lle y tynnwyd sylw at broblemau/rhesymau dros fethu â bodloni gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Dilynwyd hwn â digwyddiad seilwaith (ADAS) ar fferm yn y dalgylch.  Nid aeth staff Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru i'r digwyddiad hwn er mwyn annog rhagor o ffermwyr i fynd. Cynigiwyd ymweliad personol cymorthdaledig (gan Cyswllt Ffermio) gan ADAS (Keith Owen) i ffermwyr a fu'n bresennol – naill ai ymweliad awr o hyd heb adroddiad ysgrifenedig, a oedd i bob pwrpas yn wiriad cyflym o fuarthau a sut yr ymdrinnid â slyri/gwrtaith, neu ymweliad bore gydag adroddiad ysgrifenedig, fel arfer lle y gwelwyd un broblem neu ragor. Credir i un ffermwr arbed £20,000 trwy ddidoli dŵr glân a budr, ailbroffilio buarthau ac ati, yn hytrach nag adeiladu lagŵn slyri clawdd pridd newydd.<br><br>Yn rownd gyfredol y Cynllun Datblygu Gwledig, mae ymgysylltu â swyddogion datblygu Cyswllt Ffermio'n parhau, gyda Cyswllt Ffermio yn cyflawni'r gweithgareddau cymorthdaledig canlynol:<br><br>• Clinigau Parthau Perygl Nitradau ym Mharthau Perygl Nitradau Rhaglan/Tryleg a Llyn Syfaddan<br><br>• Cyngor a dargedir ar briddoedd a rheoli maetholion yn nalgylchoedd Afon Troddi, Nant Olwy ac Afon Llynfi |

| | |
|---|---|
| | • Cyngor technegol ar seilwaith yn nalgylch Afon Troddi, Llyn Syfaddan a Gwastadeddau Gwent<br>• Cyngor ar reoli maetholion (gwasarn dofednod) a buarthau ar gyfer grwpiau trafod ffermwyr yn Sir Faesyfed a Sir Drefaldwyn<br>• Cynhaliwyd cyfarfodydd gydag arweinydd newydd Agrisop i edrych ar gyfleoedd ar gyfer grwpiau trafod newydd yn nalgylch Afon Troddi (rheoli pridd) ac yn Sir Faesyfed (buarthau dofednod a rheoli gwasarn)<br><br>Mae staff Cyfoeth Naturiol Cymru bellach yn derbyn gwahoddiadau i fynychu cyfarfodydd hwb Cyswllt Ffermio yn y canolbarth a'r de-ddwyrain, lle mae swyddogion Menter a Busnes (datblygu, technegol, trosglwyddo gwybodaeth ac arweinwyr Agrisop) a swyddogion cyswllt ffermio Llywodraeth Cymru yn trafod cynlluniau a heriau. Mae hyn yn caniatáu i staff Cyfoeth Naturiol Cymru gynnig syniadau a gofyn am gymorth.<br><br>Mae Cyswllt Ffermio eisoes wedi datblygu modiwl e-ddysgu ar reoli maetholion fferm ac mae ganddynt gyngor technegol ynghylch rheoli maetholion, adeiladau a storfeydd slyri. Fodd bynnag, byddai pecyn integredig yn ychwanegu gwerth at weithgareddau sydd eisoes yn cael eu cyflawni.<br><br>Mae Cyswllt Ffermio hefyd wedi bod yn bartner ar Dreial y Chwistrellau Chwyn ers 2014, ac yn ddiweddar ar Grŵp Plaladdwyr Cymru / PestSmart, gan gynnwys cyflenwi cyhoeddiadau ar gyfer pecynnau gwybodaeth Treial y Chwistrellau Chwyn.<br><br>Ers 2015, mae Dŵr Cymru wedi ymuno â ni i gynnal digwyddiadau ar y cyd yn y gwanwyn ar reoli brwyn, gan gynnwys arddangosiad o chwistrellau chwyn. Yn ystod 2017, cynhaliwyd digwyddiadau yn nalgylchoedd Afon Gwy, Afon Teifi ac Afon Tywi. |

| | |
|---|---|
| | Yn 2015 a 2017, gwnaeth Cyswllt Ffermio hefyd helpu Dŵr Cymru i anfon hysbysiadau i ffermwyr mewn ardaloedd daearyddol penodol trwy'r post i hyrwyddo ein gwaith, nid o reidrwydd digwyddiadau Cyswllt Ffermio.<br><br>Yn nalgylch Afon Dyfrdwy, mae gan United Utilities raglen waith sy'n rhan o barthau diogelu ardaloedd gwarchodedig ar gyfer dŵr yfed. Mae swyddogion dalgylch a ariennir gan United Utilities (wedi'u cyflogi gan Ymddiriedolaeth Dyfrdwy Cymru) yn gweithio i dargedu mesurau, cyngor a chynlluniau sy'n cynnig cymhellion ar gyfer tirfeddianwyr a rheolwyr tir i helpu i wella ansawdd dŵr.<br><br>Mae BRICS yn fenter gydweithrediadol uchelgeisiol ar lefel dirwedd sy'n dod â phartneriaid o ar draws y gadwyn gyflenwi at ei gilydd gyda rheolwyr tir, y diwydiant, rheolwyr cadwraeth a chymunedau yn Sir Benfro.<br><br>Mae'n gweithio mewn tri is-ddalgylch amrywiol (tua 100 fferm) i ddatblygu cynlluniau lliniaru newid yn yr hinsawdd a chamau gweithredu i wella'r ffordd mae pridd a dŵr yn cael eu rheoli a'r mesurau cynefinoedd cysylltiedig. Cynigir tri is-ddalgylch wedi'u dewis i amddiffyn mewnlifoedd o ddŵr yfed a datblygiadau masnachol yng Nghronfa Dŵr Llys-y-frân (llaeth/cymysg), Pelcomb Bridge (llaeth/cymysg) a Winterton Marsh (tir âr).<br><br>Bydd mesurau a dargedir megis mapio maetholion pridd, ffermio manwl gywir a gwlyptiroedd a adeiladwyd o fudd i ffermydd yn economaidd, yn ogystal ag yn amgylcheddol, gan greu diwylliant sy'n arwain y busnes â chydnabyddiaeth reoleiddiol a enillwyd. Bydd y gwelliannau'n cael eu mesur yn ariannol ac yn amgylcheddol trwy fodelu a dadansoddi.<br><br>Cydnabyddir gwerth economaidd lleihau nitradau. Cymynrodd bwysig yw creu menter (yr 'Ecobanc') sydd â'r gallu i redeg cynllun gwrthbwyso maetholion, gan ddatblygu canlyniadau Partneriaeth y Fenter Ecosystem (a |

| | |
|---|---|
| | ariennir gan LIFE-Nature).Mae pecynnau gwaith yn cynnwys:<br><br>• Pennu cyfres gorau posibl o fesurau trwy asesiadau ar ffermydd, creu cynlluniau newid hinsawdd, a gweithredu a gwerthuso sy'n cynnwys fframwaith ar gyfer modelu/monitro allbynnau<br>• Pennu menter a fydd yn cyflawni'r Ecobanc gydag ymchwil ehangach o fentrau byd-eang a chynlluniau TWE a leolir yn y DU i benderfynu ar werth credydau<br>• Mae Cyswllt Ffermio wedi cyflenwi cyhoeddiadau ar gyfer pecynnau gwybodaeth Treial y Chwistrellau Chwyn<br>• Ers 2015, mae Dŵr Cymru wedi ymuno â Chyswllt Ffermio i gynnal digwyddiadau ar y cyd yn y gwanwyn ar reoli brwyn, gan gynnwys arddangosiad o chwistrellau chwyn. 2017 – yr wythnos ddiwethaf roeddent yn nalgylch Afon Gwy a'r wythnos hon yn nalgylchoedd Afon Teifi ac Afon Tywi. Fel arfer, cynhelir sesiynau yn y bore ac yn y prynhawn – gweler y templed ynghlwm<br>• Yn 2015 a 2017, gwnaeth Cyswllt Ffermio helpu Dŵr Cymru i anfon hysbysiadau i ffermwyr mewn rhai ardaloedd daearyddol i hyrwyddo ein gwaith, ond nid o reidrwydd trwy ddigwyddiadau Cyswllt Ffermio<br>• Cafodd ffermwyr a rheolwyr tir eu cyfeirio at Dreial y Chwistrellau Chwyn a'r Cynllun Gwaredu, ac yn yr un modd cyfeiriwyd ffermwyr a rheolwyr tir at hyfforddiant a chymorth Cyswllt Ffermio<br><br>Mae Dŵr Cymru hefyd wedi bod yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru yn Nalgylch Dŵr Daear Pentywyn.  Mae'r prosiect yn cynnwys ADAS yn ymweld â ffermydd i nodi'r holl 'faterion' ar ffermydd y mae'n bosibl eu bod yn effeithio ar ansawdd dŵr. Byddai'r fenter Cyswllt Ffermio hon yn darparu cymorth defnyddiol gyda'r camau |

| | |
|---|---|
| | nesaf – bu nifer o achosion o lygredd gan slyri yn y dalgylch hwn yn y blynyddoedd diwethaf.<br><br>Mae Dŵr Cymru hefyd yn cyflawni gwelliannau i ddŵr mewn rhai dalgylchoedd ac yn cynllunio treial uwch-ddalgylch ym Mannau Brycheiniog mewn partneriaeth weithio â thirfeddianwyr.<br><br>Mae cynlluniau eraill o fewn Cynllun Datblygu Gwledig Cymru yn cynnwys canolbwyntio ar wella'r amgylchedd dŵr, e.e. Glastir Uwch, Grantiau Bach Glastir, Grantiau Cynhyrchu Cynaliadwy a Grantiau Busnes i Ffermydd.<br><br>Gweithgareddau Cyswllt Ffermio sy'n mynd i'r afael ag ansawdd dŵr a llygredd gwasgaredig (Hydref 2015 – presennol).<br><br>**<u>GWASANAETH CYNGHORI</u>**<br>Cyfanswm y Ceisiadau i'r Gwasanaeth Cynghori a Gymeradwywyd: Un i Un (arianwyd 80% Rheoli Glaswelltir a Chnydau Technegol – 88 cais (mae'r rhan fwyaf ohonynt, os nad pob un, yn Gynlluniau Rheoli Maethynnau)<br><br>- Perfformiad a Rheoli Byw Da Technegol – 44 cais (mae rhai o'r ceisiadau hyn yn cynnwys Cyngor ar Seilwaith a Phyllau Slyri)<br><br>Cyfanswm y Ceisiadau Grŵp i'r Gwasanaeth Cynghori a Gymeradwywyd (arianwyd 100%)<br><br>Rheoli Glaswelltir a Chnydau Technegol – 121 grŵp, 460 unigolyn<br><br>- Perfformiad a Rheoli Byw Da Technegol – 9 grŵp, 42 unigolyn (mae rhai o'r ceisiadau hyn yn cynnwys Cyngor ar Seilwaith a Phyllau Slyri)<br><br>**<u>CLINIGAU</u>**<br><br><u>Clinigau Parthau Perygl Nitradau</u><br>Cynhaliwyd naw clinig Parthau Perygl Nitradau (dau yn Sir Fynwy, dau yn Sir Ddinbych, dau yn Sir y Fflint, un yn Ynys  Môn a dau ym Mhowys) |


| | |
|---|---|
| | gyda 38 o fuddiolwyr.<br>Cynghorwyr: Tony Lathwood, Nichola Salter a Charlie Morgan.<br><br><br>Clinigau Pridd<br>Cynhaliwyd 73 clinig/gweithdy pridd gyda 350 o fuddiolwyr (fel arfer, mae'n cynnwys samplu rhwng tri a phum cae).<br>Cynghorwyr: Yn bennaf, Charlie Morgan a Chris Duller. Hefyd, Geraint Jones (Kite) a Marc Jones (ADAS).<br><br>Clinigau Tail Dofednod<br>Dau glinig gyda 14 o fuddiolwyr.<br>Cynghorydd: Helen Barnes, Grŵp Cynghori ar Ffermio a Bywyd Gwyllt<br><br>Clinigau Seilwaith<br>Cynhaliwyd 16 clinig gyda 52 o fuddiolwyr.<br>Cynghorwyr: Jamie Robertson (Livestock Management Systems) a Keith Owen (ADAS)<br><br>Clinigau Glaswelltir / Caeau sy’n Peri Problem / Cylchdroi Pori<br>Cynhaliwyd 19 clinig gyda 51 o fuddiolwyr.<br>Cynghorwyr: Yn bennaf, Chris Duller a Charlie Morgan. Hefyd: Rhys Owen, Merfyn Parry a Gareth Davies.<br><br>**DIGWYDDIADAU YMWYBYDDIAETH STRATEGOL**<br><br>Ansawdd Dŵr<br>Cynhaliwyd tri gweithdy ledled Cymru gyda 39 o fynychwyr.<br>Cynghorydd: John Williams, ADAS<br><br>Tail dofednod – ei werth maethol a'r ffordd gywir o'i reoli<br>Cynhaliwyd un digwyddiad ym Mhowys gyda phedwar buddiolwr.<br>Cynghorydd: Chris Duller<br><br>Gweithdai Parthau Perygl Nitradau<br>Cynhaliwyd tri digwyddiad agored gyda 40 yn bresennol.<br>Cynghorwyr: Tony Lathwood a Nichola Salter. |

| | |
|---|---|
| | <u>Iechyd Pridd a Rheoli Glaswelltir</u><br>Cynhaliwyd dau ddigwyddiad ym Mhowys gyda 42 o fynychwyr.<br>Cynghorwyr: Chris Duller<br><br><u>Glastir</u><br>Cynhaliwyd chwe digwyddiad gyda 224 o fynychwyr.<br>Cynghorwyr: Martyn Evans (Cyfoeth Naturiol Cymru) a David Ashford (Llywodraeth Cymru).<br><br>**<u>DIGWYDDIADAU RHWYDWAITH ARDDANGOS</u>**<br><br><u>Arddangosiad Rheoli Brwyn a Threial y Chwistrellau Chwyn</u><br><br>Cynhaliwyd chwe digwyddiad ym Mhowys a Cheredigion gyda 188 o fynychwyr.<br><br>Cynghorydd: Ian Cairns, SRUC.<br><br><u>Gwybodaeth am ddalgylch dŵr Dyffryn Tywi</u><br><br>Cynhaliwyd un digwyddiad yng Ngelli Aur gyda 15 o fynychwyr.<br><br>Cynghorydd: Sarah Jones, Dŵr Cymru.<br><br><u>Datrysiadau slyri sy'n addas i'r dyfodol</u><br><br>Cynhaliwyd un digwyddiad yn Hwlffordd gydag 20 o fynychwyr.<br><br>Cynghorwyr: Keith Owen ac Aled Roberts, ADAS.<br><br><u>Gwasarn cyw ieir – adnodd gwerthfawr</u><br><br>Cynhaliwyd tri digwyddiad (Corwen, y Drenewydd, Llandrindod) gyda 35 o fynychwyr.<br><br>Cynghorydd: Chris Duller<br><br><u>Gwella o aeaf 2015</u><br><br>Cynhaliwyd 18 digwyddiad ledled Cymru gyda 403 o fynychwyr. |

| | |
|---|---|
| | Cynghorwyr: Charlie Morgan a Chris Duller<br><br>**CYNLLUN GRANTIAU BACH GLASTIR**<br><br>Cynhaliwyd tri digwyddiad ar 'Gyngor newydd Glastir ar blannu' (Caernarfon, Aberhonddu, y Drenewydd) gyda 58 o fynychwyr.<br>Siaradwyr: Martyn Evans (Cyfoeth Naturiol Cymru), Gareth Davies (Coed Cymru) a Richard Griffiths (Llywodraeth Cymru).<br><br>Cynhaliwyd tri digwyddiad ymwybyddiaeth o grantiau bach Glastir (Llanelwy, Castellnewydd Emlyn, Llanfair-ym-Muallt) gyda 166 o fynychwyr.<br>Siaradwr: David Ashford, Llywodraeth Cymru.<br><br>**GRANTIAU BUSNES I FFERMYDD**<br><br>Cynhaliwyd 15 digwyddiad Ffermio ar gyfer y Dyfodol gyda 4,485 o fynychwyr. Roedd y digwyddiadau hyn yn cynnwys cyflwyniad o'r broses ar gyfer gwneud cais am Grant Busnes i Ffermydd gan Gareth Wilson, Llywodraeth Cymru.<br><br>Mae naw digwyddiad Ffermio ar gyfer y Dyfodol eraill wedi cael eu trefnu ar gyfer mis Medi 2017. |


**Atodiad A: Rhesymau dros beidio â chyflawni statws da**

Mae'r diagram isod yn dangos y raddfa a'r rhesymau dros beidio â chyflawni statws da ledled Cymru. Cafwyd y data o'r data 'rhesymau dros beidio â chyflawni statws da' a gasglwyd o'r gwaith ymchwilio a wnaed yn ystod y cylch cyntaf o gynlluniau rheoli basn afon. Caiff y rhesymau dros beidio â chyflawni statws da eu categoreiddio yn ôl achosion drwgdybiedig, tebygol neu a gadarnhawyd – yn dibynnu ar lefel yr hyder yn ein hymchwiliad. Gellir gweld hyn ar wefan
Arsylwi Dyfroedd Cymru.



Rhesymau dros beidio â chyflawni statws da (Chwefror 2017)
Ymchwiliadau i'w cwblhau 335
Gollyngiadau carthion 132
Llygredd amaethyddol 110
Arall 108
Rhwystrau i bysgod ymfudo 85
Pyllau glo wedi'u gadael a thir llygredig 77
Carthion domestig heb garthffos 43
Corlaniadau 41
Coedwigaeth 30
Amodau naturiol 18
Amddiffyn rhag llifogydd a draenio'r tir 18
Tynnu dŵr 17
Gollyngiadau diwydiannol 17
Datblygiadau trefol a thrafnidiaeth 15
Rhywogaethau estron goresgynnol 1
0 50 100 150 200 250 300 350 400
Nifer y cyrff dŵr

## Atodiad B: Dalgylchoedd a dargedir ar gyfer rhaglen gynghori Cyswllt Ffermio



## Cyrff dŵr a nodwyd bod ganddynt effeithiau o amaethyddiaeth

| Rhif | Rhif adnabod y corff dŵr a'i statws | Enw a lleoliad | Manylion ynglŷn â'r effeithiau amaethyddol | Camau gweithredu a gynlluniwyd | Arweinydd o Cyfoeth Naturiol Cymru |
|---|---|---|---|---|---|
| | **DE-ORLLEWIN** | | | | |
| 1 | GB110060029070 **CANOLIG** | Crychiau – rhagnentydd i'r cydlifiad ag Afon Gwili | Mae rheolaeth slyri yn wael, a phrinder storfeydd slyri posibl, yn achosi i slyri gael ei daenu ar y tir yn wael yn ystod amodau pridd a thywydd anffafriol.<br>Mae taenu gormod o slyri a gwrteithiau yn achosi gormod o faethynnau, a dŵr ffo a thrwytholchi cysylltiedig.<br>Mae faint o india-corn sy'n cael ei dyfu hefyd wedi cynyddu yn y dalgylch hwn, a fyddai hefyd yn cyfrannu at erydiad tir a cholli maethynnau yn ystod y gaeaf.<br>Mae erydiad pridd ar lannau'r afon hefyd yn achosi llaid a gwaddodi oherwydd diffyg lleiniau clustogi. | Taclo'r Tywi, gan gynnwys:<br>Rhoi cyngor atal llygredd am ddim a allai helpu i arbed arian ar y fferm. Er enghraifft, lleihau faint o slyri sy'n cael ei gynhyrchu, ac felly torri'r costau sy'n gysylltiedig â thaenu a defnyddio gwrteithiau anorganig.<br>Helpu i lywio a hwyluso grwpiau trafod yn Nyffryn Tywi, lle gall aelodau rannu arferion da a chyngor. Gwnaeth prosiect tebyg sawl blwyddyn yn ôl gyda thyfwyr india-corn yn nalgylch Afon Teifi arwain at gynhyrchu cnwd gwell a lleihau erydiad pridd. Gallai grwpiau trafod amrywio o reoli pridd a chnydau i ymdopi â rhywogaethau planhigion goresgynnol (megis jac y neidiwr, sydd wedi ennill ei blwyf yn rhannau isaf yr afon).<br>Hyrwyddo ffyrdd newydd arloesol o wneud pethau a fyddai o fudd arbennig i ffermio yn nalgylch Afon Tywi. Mae syniadau ar hyn o bryd yn cynnwys technoleg newydd i drin | Phil Morgan |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | slyri amaethyddol, er mwyn lleihau'r risg o lygredd yn digwydd a chostau gweithredu is. | |
| 2<br><br><br>3<br><br><br><br>4 | GB110060036260<br>**CANOLIG**<br><br>GB110060036210<br>**CANOLIG**<br><br><br>GB110060036230<br>**DA**<br><br>(Mae'r tri chorff dŵr hyn yn creu un dalgylch) | Rhagnentydd Afon Ddu i'r cydlifiad ag Afon Dulais<br><br>Cydlifiad Afon Dulais ag Afon Ddu, i'r cydlifiad ag Afon Tywi<br><br>Rhagnentydd Afon Dulais i'r cydlifiad ag Afon Ddu | Mae rheolaeth slyri yn wael, a phrinder storfeydd slyri posibl, yn achosi i slyri gael ei daenu ar y tir yn wael yn ystod amodau pridd a thywydd anffafriol.<br>Mae taenu gormod o slyri a gwrteithiau yn achosi gormod o faethynnau, a dŵr ffo a thrwytholchi cysylltiedig.<br>Mae taenu gormod o slyri a gwrteithiau yn achosi gormod o faethynnau i gael eu colli mewn dŵr ffo.<br><br>Byddai rhywfaint o'r india-corn sy'n cael ei dyfu yn y dalgylch isaf hefyd yn cyfrannu at erydiad tir a cholli maethynnau yn ystod y gaeaf.<br><br>Mae erydiad pridd ar lannau'r afon hefyd yn achosi llaid a gwaddodi oherwydd diffyg lleiniau clustogi. | Taclo'r Tywi, gan gynnwys:<br>Rhoi cyngor atal llygredd am ddim a allai helpu i arbed arian ar y fferm. Er enghraifft, lleihau faint o slyri sy'n cael ei gynhyrchu, ac felly torri'r costau sy'n gysylltiedig â thaenu a defnyddio gwrteithiau anorganig.<br>Helpu i lywio a hwyluso grwpiau trafod yn Nyffryn Tywi, lle gall aelodau rannu arferion da a chyngor.<br>Gwnaeth prosiect tebyg sawl blwyddyn yn ôl gyda thyfwyr india-corn yn nalgylch Afon Teifi arwain at gynhyrchu cnwd gwell a lleihau erydiad pridd. Gallai grwpiau trafod amrywio o reoli pridd a chnydau i ymdopi â rhywogaethau planhigion goresgynnol (megis jac y neidiwr, sydd wedi ennill ei blwyf yn rhannau isaf yr afon).<br>Hyrwyddo ffyrdd newydd arloesol o wneud pethau a fyddai o fudd arbennig i ffermio yn nalgylch Afon Tywi. Mae syniadau ar hyn o bryd yn cynnwys technoleg newydd i drin slyri amaethyddol, er mwyn lleihau'r risg o lygredd yn digwydd a chostau gweithredu is. | Phil Morgan |
| 5 | GB110061030680<br>CANOLIG | Longford Brook – rhagnentydd i'r cydlifiad ag Afon Cleddau Ddu | Llygredd gwasgaredig – dŵr ffo o bridd ac elifion – tarddleoedd wedi'u nodi o ganlyniad i reoli taenu ar y tir yn wael | Gwaith parhaus yn y dalgylch; cysylltiad posibl â BRICS (adeiladu gwydnwch mewn dalgylchoedd) | Brian Klass |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 6 | Amherthnasol | Parth Diogelu Dŵr Pentywyn | • Diffyg capasiti storio slyri digonol – slyri yn cael ei daenu yn ystod amodau pridd a thywydd anaddas o ganlyniad<br>• Storfeydd slyri a silwair hen ac anarferedig sydd wedi'u heithrio o reoliadau<br>• Cyfyngiant gwael o dwr glân ar yr iard<br>• Diffyg cynlluniau rheoli tail<br>• Diffyg Cynlluniau Rheoli Maethynnau a samplu pridd cysylltiedig<br>• Cywasgiad pridd yn achos dŵr ffo<br>• Sathru gwartheg ar hyd cyrsiau dŵr | Mae Dŵr Cymru eisoes wedi ymgysylltu llawer â'r ffermwyr yn y dalgylch.<br>Dros y blynyddoedd diwethaf, mae ansawdd y dŵr yn y dalgylch wedi gwaethygu, gyda chynnydd arbennig yn y maethynnau (e.e. nitradau), bacteria a chymylogrwydd sy'n cael eu canfod.<br><br>Yn ystod 2016–17, gwnaeth Dŵr Cymru gomisiynu ymgynghorwyr i ymgysylltu â ffermwyr yn y dalgylch er mwyn rhoi adroddiadau atal llygredd am ddim. Ar hyn o bryd, mae Dŵr Cymru (wedi'i hwyluso gan Agrisgôp) yn gweithio gyda ffermwyr yn y dalgylch, er mwyn creu dull ar y cyd o fynd i'r afael â'r risgiau o lygredd ac annog y defnydd effeithlon o adnoddau ar y fferm – gan roi hwb i gynhyrchiant a busnesau fferm. | Phil Morgan |
| | **GOGLEDD** | | | | |
| 7 | GB110102059170 Canolig | Afon Wygyr | Methiant ffosffad a methiant dŵr ymdrochi<br>Sathru a gwartheg yn mynd i'r afon | Ymweliadau fferm gan Cyfoeth Naturiol Cymru (parhaus)<br>Arolygon biolegol gan Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Cyfoeth Naturiol Cymru yn monitro ansawdd y dŵr (parhaus)<br>Arolygon o gynefinoedd (Ymddiriedolaeth Afonydd o bosibl)<br>Ymgyrch tanciau septig a gwaith trin carthion Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Gwaith camgysylltiadau Dŵr Cymru / awdurdodau lleol | Helen Haider |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda pherchnogion tir i leihau sathru (gan ddefnyddio arian posibl gan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr)<br>Ffermwyr eisoes wedi cael eu cyfeirio at Cyswllt Ffermio | |
| 8 | GB41001G204200 Canolig | Calchfaen Carbonifferaidd Canolog Ynys Môn | Ardal warchodedig - Ffeniau Ynys Môn Methiant corff dŵr daear, statws amodau anffafriol<br>Problem storio | Adolygiad Cyfoeth Naturiol Cymru o ddata monitro'r dŵr daear i bennu camau gweithredu'r dyfodol<br>Cyngor rheoli maethynnau<br>Ymweliadau fferm gan Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Rhai ffermydd eisoes wedi cael cyngor gan Cyswllt Ffermio | Helen Haider |
| 9 | GB110102059100 Canolig | Tanrallt | Methiant ffosffad | Ymweliadau fferm gan Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Taith gerdded ar hyd yr afon gan Cyfoeth Naturiol Cymru i nodi problemau<br>Gwaith trin carthion Cyfoeth Naturiol Cymru (parhaus)<br>Ffermwyr eisoes wedi cael eu cyfeirio at Cyswllt Ffermio | Helen Haider |
| 10 | GB111067052130 | Pulford Brook | Methiant ffosfad | Ffermwyr i gael eu cyfeirio at gyngor a chanllawiau Cyswllt Ffermio<br>Ymweliadau fferm Parthau Perygl Nitradau (NVZ) Cyfoeth Naturiol Cymru (18/19) | Chiara Casserotti / Bethan Beech |
| 11 | GB110066059980 | Afon Gele | Methiant ffosfad<br>Dosbarth cyffredinol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr – CANOLIG | Problemau drwgdybiedig yn ymwneud â gollyngiadau carthion, tanciau septig a ffermio llaeth / cig eidion<br>Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal ymchwiliadau ar hyn o bryd i gadarnhau'r problemau | Nick Vaughan |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Gwaith gweithredol posibl i'w gadarnhau yn dilyn cyfarfod cychwynnol gyda Cyswllt Ffermio:<br>Ymweliadau fferm gan Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Taith gerdded ar hyd yr afon gan Cyfoeth Naturiol Cymru i nodi problemau<br>Gwaith trin carthion Cyfoeth Naturiol Cymru (parhaus)<br>Ffermwyr wedi'u cyfeirio at Cyswllt Ffermio | |
| | **CANOLBARTH** | | | | |
| 12 | GB110062039130 GWAEL | Hirwaun – rhagnentydd i'r cydlifiad ag Afon Teifi | Buchesi o wartheg godro, felly symiau uchel o slyri'n cael eu taenu, ond nid oes digon o dir. Mae’r indecsau cae yn uchel, felly mae ffosffadau a nitradau yn trwytholchi, ac mae'r afon yn methu ar gyfer diatomau a macroffytau a ffosffadau. | | Kim Jones |
| 13 | GB110063041520 CANOLIG | Wyre Fach – rhagnentydd i'r cydlifiad ag Afon Wyre | Yr un â'r uchod. | | Kim Jones |
| 14 | GB110063041530 CANOLIG | Afon Wyre – rhagnentydd i derfyn y llanw | Yr un â'r uchod ac ni reolir mynediad da byw at afonydd | | Kim Jones |
| 15 | GB110063041450 CANOLIG | Afon Aeron – cydlifiad ag Afon Gwili i derfyn y llanw | Yr un â'r uchod a thaenu'n rhy agos at afonydd o bosibl | | Kim Jones |
| 16 | GB109055042110 DA | Afon Aran – tarddle i'r cydlifiad ag Afon Ieithon | Dwysedd uchel o unedau dofednod maes | | Nik Salter |
| 17 | GB109055042270 CANOLIG | Afon Ieithon – cydlifiad Nant | Dwysedd uchel o unedau dofednod maes, gyda phryderon | | Nik Salter |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Camddwr i'r cydlifiad ag Afon Gwy | o ran rheoli faint o wasarn a gynhyrchir o'r dofednod | | |
| | **DE-DDWYRAIN** | | | | |
| 18 | GB109055029630 CANOLIG | Nant Llanymynech – o'r tarddle i'r cydlifiad ag Afon Troddi | Lefelau uchel o ffosffadau – llygredd gwasgaredig posibl o'r iard neu ddŵr ffo o'r cae | | Nik Salter |
| 19 | GB109055029660 | Afon Troddi – o'r tarddle i'r cydlifiad â Nant Llanymynech | Canolig o ran problemau sy'n ymwneud â ffosffadau ar yr iard a dŵr ffo o'r cae | | Nik Salter |
| 20 | GB109055029650 | Nant Llymon – o'r tarddle i'r cydlifiad ag Afon Troddi | Problemau o ddŵr ffo o'r iard a'r cae | | Nik Salter |
| 21 | GB109055029640 DA | Afon Troddi – cydlifiad â Nant Llanymynach hyd at y cydlifiad â Nant Llymon | Yr un â'r uchod | | Nik Salter |
| 22 | GB109055029680 CANOLIG | Afon Troddi – cydlifiad Nant Llymon i'r cydlifiad ag Afon Gwy | Yr un â'r uchod | | Nik Salter |
| 23 | GB109055036900 (sbardun ardaloedd gwarchodedig ACA) | Afon Llynfi – tarddle i'r cydlifiad â Nant Dulas | Lefelau uchel o ffosffadau – llygredd gwasgaredig posibl o'r iard a/neu o ddŵr ffo o'r cae | | Nik Salter |
| 24 | GB109055036950 DA | Afon Llynfi – cydlifiad â Nant Dulas i'r cydlifiad ag Afon Gwy | Yr un â'r uchod | | Nik Salter |
| 25 | GB109055036910 Canolig | Afon Ennig – tarddle i'r cydlifiad ag Afon Llynfi | Lefelau ffosffad uchel | | Nik Salter |
| 26 | GB109056026940 Canolig | Nant Olwy – cydlifiad â Nant y Wilcae i'r cydlifiad ag Afon Wysg | Byddai'n cefnogi gwelliannau gwaith trin carthon posibl gan Dŵr Cymru yn y corff dŵr i fyny'r afon | | Nik Salter |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Gwaith blaenorol o ran rheoli adnoddau naturiol ym maes amaeth fan hyn | | |
| 27 | GB109056032920 GWAEL | Nant Olwy – tarddle i'r cydlifiad â Nant y Wilcae | Gwaith blaenorol gan Cyswllt Ffermio fan hyn<br>Gwaith blaenorol o ran rheoli adnoddau naturiol ym maes amaeth fan hyn | | Nik Salter |
| 28 | GB109056032930 CANOLIG | Nant y Wilcae – tarddle i'r cydlifiad â Nant Olwy | Byddai'n cefnogi gwelliannau gwaith trin carthon posibl gan Dŵr Cymru<br>Angen camau gweithredu o ran rheoli adnoddau naturiol ym maes amaeth | | Nik Salter |

**Atodiad C: Enghreifftiau o negeseuon cyffredinol ynghylch gwella ansawdd dŵr sydd angen eu datblygu ymhellach gyda Cyswllt Ffermio**
**Negeseuon allweddol ar gyfer Cyswllt Ffermio o ran llygredd amaethyddol**

Mae angen i bob un ohonom chwarae ein rhan wrth sicrhau bod gennym amgylchedd iach yng Nghymru.

- Mae gan holl weithgareddau dyn y potensial i gael effaith ar ein hamgylchedd, ac mae hyn yn cynnwys amaethyddiaeth. Mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â llygredd gwasgaredig a llygredd yn y tarddle a achosir gan amaethyddiaeth ar y cyd â'r ymdrechion sy'n cael eu gwneud gan sectorau eraill.
- Bydd diogelu ansawdd dŵr da drwy arferion amaethyddol cadarn yn helpu i danategu 'Brand Cymru'. Mae datblygu'r brand hwn yn allweddol wrth hyrwyddo cynhyrchion o ansawdd o Gymru yn y wlad a thramor.
- Mae defnyddwyr cynnyrch fferm yn fodlon cefnogi polisi'r llywodraeth er mwyn rhoi cymorth i'r gymuned amaethyddol, ond maent yn disgwyl bod ffermwyr yn gwarchod cefn gwlad yn gyfnewid.

Mae cynnal fferm a chynhyrchu cynnyrch o ansawdd uchel yn cynnwys rheoli ynni ac adnoddau. Dyma'r camau sy'n adeiladu arferion amaethyddol da.

- Mae storio, defnyddio a gwaredu ar gemegion (e.e. plaladdwyr, dipiau defaid, gwrteithiau ac olew) yn rhan allweddol o arferion ffermio da.
- Mae rheoli'r pridd yn dda yn lleihau'r dŵr ffo a gwaddodion, yn annog planhigion i dyfu'n iach, ac yn datblygu strwythur pridd a ffrwythlondeb.
- Bydd diogelu glannau afon yn atal erydiad, yn ogystal ag yn helpu i ddiogelu iechyd a llesiant eich da byw.

Mae tail a slyri yn adnoddau ariannol pwysig ar ffermydd – yn darparu maethynnau gwerthfawr am ddim.

- • Defnyddio maethynnau yn effeithlon drwy daenu slyri a thail ar adegau a chyfraddau sy'n cyd-fynd â gofynion y cnwd. Gall defnyddio eich asedau maeth yn ddoeth helpu i leihau costau a gwella proffidioldeb busnes fferm, yn ogystal â lleihau'n sylweddol eich dibyniaeth ar wrteithiau anorganig.

- • Ar gyfartaledd, cynhyrchir gwerth £78 o slyri fesul buwch bob blwyddyn, sef pam ein bod ni'n gofyn i ffermwyr a chontractwyr fod yn ddoeth wrth ddefnyddio slyri.

Busnesau amaethyddol blaengar yw'r rhai sy'n mynd i'r afael ag achosion llygredd amaethyddol.

- • Mae atal llygredd yn dechrau yn ystod y cam cynllunio. Dylai pob cynnig i gynyddu cynhyrchiant gynnwys cynllunio ymlaen llaw, a meddwl am sut i ymdopi â symiau mwy o dail anifeiliaid.

- • Rhaid i storfeydd slyri fod yn addas i'r diben o ran eu capasiti a'u cyflwr. Heb hyn, caiff y gwaith o storio a thaenu maethynnau yn ddiogel ei beryglu.

Os oes rhywbeth yn mynd o'i le, a bod slyri, cemegion neu bridd wedi mynd i mewn i nant neu afon, neu mewn perygl o wneud hyn, rhowch wybod i Cyfoeth Naturiol Cymru am hyn ar unwaith ar 03000 65 3000.Bydd swyddogion dyletswydd bob amser ar gael ar y llinell gymorth ar lygredd 24 awr hon er mwyn rhoi cyngor. Cyn gynted ag y bydd problem yn cael ei hadrodd, po hawsaf y bydd i'w thrin – a'r llai o ddifrod y bydd yn ei wneud!

**Atodiad 5: Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol – Gwella dealltwriaeth a rhoi cyngor a chanllawiau er mwyn gwella arferion rheoli tir, gyda'r nod o leihau llygredd amaethyddol. Adroddiad cynnydd gan Cyswllt Ffermio, 22 Mawrth 2018**

| | |
|---|---|
| Ffilm fer | Cynhaliwyd cyfarfod yn swyddfeydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn Cross Hands ar 14 Mawrth, rhwng y sawl a gyfrannodd at y ffilm fer hon. Yn bresennol roedd Nic Salter (Cyfoeth Naturiol Cymru), Phil Morgan (Cyfoeth Naturiol Cymru), Keith Owen (ADAS), Chris Duller, Rhodri Jones (Cyswllt Ffermio), a chwmni cynhyrchu ffilmiau Sgript. Nid oedd modd i Dŵr Cymru ddod ar y 14 Mawrth, ond maent yn awyddus i gyfrannu. Cynhelir trafodaeth bellach yn y man.<br><br>Cytunwyd yn ystod y cyfarfod y gallai un ffilm gasglu'r holl wybodaeth berthnasol o bob sector. Bydd hyn yn gweithio'n well yn logistaidd, a hefyd yn osgoi ailadrodd unrhyw wybodaeth yn ystod digwyddiadau agored. Er mwyn ehangu ar y negeseuon allweddol, gellid cynhyrchu fideos KT eraill er mwyn rhoi rhagor o fanylion, gan y dylid cadw'r prif fideo yn gryno er mwyn dal sylw'r gwyliwr.<br><br>Bydd y ffilmio'n cael ei wneud ar 17–18 Ebrill ym Mhendre Uchaf, Llangors, yn dilyn argymhelliad gan Nic Salter a Keith Owen. |
| Cyflwyniad PowerPoint | Bydd Keith Owen yn paratoi cyflwyniad PowerPoint yn seiliedig ar gynnwys y ffilm fer. Darperir hyfforddiant i aelodau o staff allweddol Cyswllt Ffermio ar 10 Ebrill.<br><br>Caiff y cyflwyniad ei wneud yn y digwyddiad Meistr ar Borfa cyntaf ar 16 Ebrill, a bydd yn cael ei gyflwyno yn nigwyddiadau Trosglwyddo Gwybodaeth eraill yn y dyfodol, lle bo'n briodol. |
| Dodrefn i'r arddangosfa | Ar ôl cael adborth gan swyddogion technegol a ffermwyr, rydym wedi penderfynu dewis 'efelychydd glaw' ar raddfa lai. Y farn gyffredinol oedd y gallai hyn ennyn ymateb negyddol gan ffermwyr fod Cyswllt Ffermio wedi prynu efelychydd glaw drud.<br><br>Felly, bydd opsiwn llawer yn rhatach yn cael ei ddefnyddio o boteli plastig – er mwyn gweld y dull hwn yn cael ei ddangos, ewch i:https://www.youtube.com/watch?v=tiRWpuUsHNw |
| Targedu uniongyrchol | Fel y cytunwyd yng nghyfarfod diwethaf Fforwm Rheoli Tir Cymru, caiff y canlynol ei wneud:<br><br>• Chwe digwyddiad ar y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy lle caiff pob cyswllt yn y cyrff dŵr â blaenoriaeth ei wahodd i ddod<br>• Digwyddiadau ychwanegol ar gyfer rhai cyrff dŵr penodol, cyn y digwyddiadau ar y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy, lle |

| | |
|---|---|
| | mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi nodi bod perygl y bydd traethau gerllaw yn colli eu baner las<br><br>Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ysgrifennu at bob busnes a nodwyd yn y cyrff dŵr.<br><br>Bydd Cyswllt Ffermio yn dilyn gyda llythyr yn gwahodd pob busnes i un o'r chwe digwyddiad ffermio cynaliadwy. Caiff pob busnes a nodir yn y 28 o gyrff dŵr â blaenoriaeth ei wahodd yn bersonol i ddod i'r digwyddiadau hyn. Roedd 26 o gyrff dŵr yn y gorffennol, bellach mae yno 28.<br><br>Bydd y digwyddiadau ar agor i bob busnes ffermio yng Nghymru, a bydd ymgyrch marchnata cyffredinol yn cael ei lansio er mwyn hyrwyddo'r digwyddiadau.<br><br>Bydd y digwyddiadau yn mynd i'r afael â’r effaith amaethyddol benodol yn yr ardal, yn ogystal ag effeithiau amaethyddol yn ehangach, a bydd gwybodaeth ar gael ynghylch Grantiau Cynhyrchu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru.<br><br>Dyma'r lleoliadau arfaethedig ar gyfer y digwyddiadau:<br><br>• Maes Sioe Hwlffordd<br>• Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig neu Neuadd Pantyfedwen, Pontrhydfendigaid<br>• Sioe Môn neu Lynllifon<br>• Ystad Rhug<br>• Maes Sioe Frenhinol Cymru<br>• Marchnad Da Byw Rhaglan<br><br><u>Ffurf</u><br><br>Cynhelir y digwyddiadau rhwng 1pm a 9pm, ar ffurf galw heibio, a byddant yn cynnwys amrywiaeth o stondinau a fydd yn rhoi gwybodaeth i ffermwyr, ac ardal benodol ar gyfer seminarau a fydd yn cynnal tair seminar ar ffermio cynaliadwy (yr un seminar a fydd yn cael ei hailadrodd tair gwaith) am 2pm, 5.30pm a 7.30pm.<br><br><u>Cynnwys y seminar ar ffermio cynaliadwy**</u><br><br>• Ffilm ar leihau llygredd amaethyddol (10 munud)<br>• Darparu datrysiadau – Keith Owen, ADAS (30 munud)<br>• Astudiaeth achos o fferm (15 munud)<br>• Grantiau Cynhyrchu Cynaliadwy – Gareth Wilsom, Llywodraeth Cymru, a gwybodaeth ar gynllun Grantiau Bach Glastir – thema dŵr (15 munud) |

| | |
|---|---|
| | • Yr hyn sydd gan Cyswllt Ffermio i'w gynnig (5 munud)<br><br>** Gall cynnwys y tair seminar hyn a gynhelir yn ystod y digwyddiad fod yn wahanol os oes mwy nag un effaith amaethyddol yn yr ardal<br><br><u>Stondinau</u><br><br>Mae enghreifftiau o stondinau yn cynnwys elfennau amrywiol o Cyswllt Ffermio, Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm, cwmnïau cynghori, banciau, undebau, Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad, CFfI, ac efallai cwmnïau a all roi'r offer sydd wedi'u rhestru ar restr y Grantiau Cynhyrchu Cynaliadwy. Os oes hawl gan gwmnïau masnachol fynychu, yna gwneir galwad agored fel bod modd i'r holl gwmnïau sydd â diddordeb gofrestru erbyn dyddiad penodol.<br><br>Hunanadrodd<br><br>Mae dangosydd perfformiad allweddol wedi'i anfon er mwyn:<br><br>• Cynyddu cyfran y digwyddiadau llygredd a hunanadroddir gan ffermwyr (gyda chynnydd posib yn y nifer o ddigwyddiadau a adroddir yn y tymor byr)<br><br>Bydd y broses hunanadrodd a'r cymorth sydd ar gael gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael eu hesbonio yn y cyfarfodydd ar y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy, a bydd ffermwyr yn cael eu hannog i ystyried hunanadrodd.<br><br><u>Presenoldeb gorfodol</u><br><br>Rydym wedi cynnig y bydd gofyn i fusnesau ffermio sy'n dymuno gwneud cais ar gyfer y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy fynychu'r Seminar Ffermio Cynaliadwy. Bydd gofyn i bennaeth y fferm busnes neu un o'r partneriaid busnes (fel y nodir yn ystod y broses gofrestru â Cyswllt Ffermio ac a gofrestrwyd ar-lein gyda Taliadau Gwledig Cymru) gofrestru yn y seminar.<br><br>Bydd yn orfodol trefnu lle ymlaen llaw a chofrestru, ac mae'n rhaid i unigolion sy'n mynychu bod wedi cofrestru fel partner busnes gyda Cyswllt Ffermio a Taliadau Gwledig Cymru Llywodraeth Cymru.<br><br><u>Ymgyrch ansawdd dŵr</u><br><br>Fel rhan o'r ymgyrch ansawdd dŵr, caiff pob busnes a nodir yn y 28 o gyrff dŵr â blaenoriaeth ei wahodd yn bersonol drwy lythyr i ddod i'r digwyddiadau hyn. |

Fodd bynnag, bydd y digwyddiadau ar agor i bob busnes ffermio yng Nghymru, a bydd ymgyrch marchnata cyffredinol yn cael ei lansio er mwyn hyrwyddo'r digwyddiadau.

Digwyddiadau ychwanegol

Cytunwyd yng nghyfarfod diwethaf Fforwm Rheoli Tir Cymru, y byddem yn trefnu digwyddiadau penodol ac ychwanegol ar gyfer ffermydd sydd o fewn cyrff dŵr lle roedd risg y byddai traethau yn colli statws y faner las.

Ar ôl trafodaethau pellach gyda Sarah Hetherington, cynigiwyd y byddwn yn cynnal digwyddiadau ar y cyd ar gyfer cyrff dŵr sydd yn agos at ei gilydd ac sydd yn cael yr un effaith amaethyddol.

Bydd 15 o ddigwyddiadau yn cael eu cynnig yn ystod 2018, yn ogystal â chwe digwyddiad mwy ar y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy.

Caiff pob fferm yn y meysydd a dargedir hefyd ei gwahodd yn benodol i'r digwyddiadau ar y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy.

Pe bai'r busnesau hynny yn dymuno gwneud cais ar gyfer y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy, bydd angen iddynt fynychu un o'r digwyddiadau ffermio cynaliadwy ar ddyddiad hwyrach hefyd.

Hyd yn hyn, mae'r digwyddiad canlynol wedi'i drefnu, gyda llythyr gan Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i anfon yn gyntaf, wedi'i ddilyn gan wahoddiad at ddigwyddiad Cyswllt Ffermio:

| **Corff dŵr** | **Anfonwyd llythyr gan CNC** | **Dyddiad cyfarfod Cyswllt Ffermio** |
|---|---|---|
| Pentywyn | 16/03/2018 | 11/04/2018 |
| Afon Gele | 23/03/2018 | 18/04/2018 |
| Tanrallt ac Afon Wygyr | 29/03/2018 | 30/04/2018 |
| Calchfaen Carbonifferaidd Canolog Ynys Môn | 03/04/2018 | 01/05/2018 |

Rydym bellach wedi derbyn gwybodaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y cyrff dŵr canlynol, ac mae digwyddiadau'n cael eu cadarnhau ar hyn o bryd:

| | |
|---|---|
| Afon Gele | |
| Afon Wygyr | Cyfarfod ar y cyd fel y cytunwyd arno gan Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Tanrallt | |
| Calchfaen Carbonifferaidd Canolog Ynys Môn | |

Ar hyn o bryd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn paratoi'r cynnwys ar gyfer y 23 o gyrff dŵr sy'n weddill.

**Mewnbwn sydd ei angen gan aelodau'r grŵp:**

Er na ellir rhannu'r rhestr benodol o ffermydd sydd wedi'u lleoli yn y cyrff dŵr hyn, byddem yn annog pob sefydliad i annog ei aelodau i fynychu'r cyfarfodydd hyn os ydynt wedi cael llythyr gan Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyswllt Ffermio.

<u>Contractwyr amaethyddol</u>

Rydym wedi bod yn targedu contractwyr amaethyddol. Mynychwyd y sioeau gwerthu peiriannau amaethyddol canlynol yn ystod mis Chwefror:

21.02.2018 – CASE, Maes Sioe CAFC
21.02.2018 – Mona Tractors, Ynys Môn
28.02.2018 – 1.03.2018 – Emyr Evans, Ynys Môn

Dosbarthwyd taflenni ffeithiau, a gwnaeth swyddogion datblygu gynnal sgyrsiau â ffermwyr ynghylch pwysigrwydd lleihau llygredd amaethyddol.

Roedd y rhan fwyaf o'r sgyrsiau gyda ffermwyr yn ymwneud â'r grantiau oedd ar gael drwy'r Grant Busnes i Ffermydd, Grantiau Bach Glastir a'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy o bosibl yn y dyfodol. Roedd rhai o'r rhain yn cynnwys offer a/neu gyfalaf seilwaith yn ymwneud â gwahanu dŵr glân a dŵr budr a storio slyri. Trafodwyd Cynlluniau Rheoli Maethynnau a'r cyllid sydd ar gael drwy Cyswllt Ffermio hefyd gyda llawer o ffermwyr.

Gwnaeth swyddogion datblygu hefyd siarad â darparwyr storfeydd slyri ac atebion o ran storio dŵr. Roedd ganddynt gwestiynau ynghylch y grantiau amrywiol, cymhwysedd ac ati.

| | |
|---|---|
| Astudiaethau achos o arferion da | Mae Keith Owen wedi ein helpu i nodi astudiaethau achos posibl. |
| Hyfforddiant ar gyfer pob aelod o staff rheng flaen | Cynhaliwyd cyfarfod gyda phob aelod o staff rheng flaen ar 9 Ionawr, ac roedd y siaradwyr yn cynnwys:<br>Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru<br>Keith Davies, ADAS<br>Brian Klass, Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Dŵr Cymru<br><br>Mae seminar datblygiad proffesiynol parhaus ar lygredd amaethyddol wedi'i threfnu ar 14 Mai ar gyfer pob aelod o staff rheng flaen. Bydd y seminar yn cael ei rhoi gan Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig, Prifysgol Bangor ac ADAS. |
| Digwyddiadau 'ffermio ar gyfer y dyfodol' | Cafodd negeseuon allweddol eu cynnwys ym mhob digwyddiad 'ffermio ar gyfer y dyfodol' a gynhaliwyd yn ystod mis Ionawr a mis Chwefror. |
| Digwyddiadau arddangos y rhwydwaith | **Mewnbwn sydd ei angen gan y fforwm:**<br><br>Yn ogystal â'r gwaith prosiect sy'n parhau ar safleoedd arddangos, fel yr amlinellir yn y cynnig gwreiddiol, rydym yn cynnig trefnu cyfres o gyfarfodydd o dan y teitl "Pridd, Baw ac Arian" ar safleoedd ffocws yn ystod mis Mai. Bydd y digwyddiadau hyn yn hyrwyddo manteision rheoli pridd yn dda, cynllunio rheolaeth maethynnau, a chyngor technegol ar seiliwaith amaethyddol. |
| E-daflenni ffeithiau | Mae gennym gyflenwad o'r taflenni ffeithiau hyn ar hyn o bryd – o ganlyniad i'r contract diwethaf – sydd ar gael ar gopi caled ac ar-lein.<br><br>Gwahanu Dŵr Glân a Budr<br>Dŵr Glân a Budr: Astudiaethau Achos<br>Defnyddio Dŵr yn Gynaliadwy<br>Adeiladau ac Iechyd Anifeiliaid: Nodi Problemau, Rhoi Datrysiadau<br>Draenio Tir<br>Cynllunio a Rheoli Gaeafu yn yr Awyr Agored<br>Gaeafu Gwartheg yn yr Awyr Agored yn Llwyddiannus<br>India-corn o dan Blastig<br>Adeiladwaith Pridd<br>Defnyddio Dŵr yn Gynaliadwy |
| Modiwl e-ddysgu | Wedi'u cwblhau:<br>• Cynlluniau Rheoli Maethynnau<br>• Hwsmonaeth pridd dda |

| | |
|---|---|
| | • Cynlluniau rheoli tail a manteision ac arferion gorau ar gyfer dulliau risg isel o daenu slyri<br><br>Ar fynd:<br>• Pwysigrwydd cynefinoedd ar lannau'r afon, llieiniau clustogi, pantiau a thrapiau gwaddodion<br>• Seilwaith fferm, storio slyri a silwair<br><br>Mae'r canlynol yn weddill:<br>• Gwahanu dŵr glân a dŵr budr<br>• Cod Ymarfer Amaethyddol Da<br>• Storio a thrin olew<br><br>Os oes gan unrhyw un daflen ffeithiau neu ddogfen dechnegol ynghylch unrhyw un o'r uchod y gallwn ei defnyddio er mwyn datblygu'r modiwl, byddai hynny o help mawr. |
| Ymgysylltu â phartneriaid | Unwaith y bydd y deunyddiau wedi'u cynhyrchu, yna byddant ar gael i bob aelod o Fforwm Rheoli Tir Cymru. |
| Cyhoeddiad technegol | Mae erthygl o'r enw 'Canllawiau arfer da: storfeydd slyri' wedi'i hysgrifennu gan Keith Owen, ADAS, ar gyfer ei chynnwys yng nghyhoeddiad technegol nesaf Cyswllt Ffermio, a fydd yn cael ei anfon at bob busnes cofrestredig ar 23 Mawrth.<br><br>Mae'r negeseuon canlynol wedi'u cynnwys ar ddiwedd yr erthygl er mwyn hyrwyddo gwasanaeth cynghori Cyswllt Ffermio:<br><br>Mae'n bwysig eich bod yn ceisio cyngor proffesiynol ar gyfer y gwaith dylunio ac adeiladu. Mae Cyswllt Ffermio yn cynnig gwasanaeth cynghori a allai helpu i arbed amser ac arian sylweddol a diogelu eich gofynion storio yn y dyfodol. Drwy wneud gwelliannau i ardaloedd o'r iard a sut y caiff dŵr ei reoli, efallai y bydd modd lleihau eich gofynion storio yn sylweddol cyn gwneud unrhyw newidiadau costus i'r seilwaith. Cysylltwch â Cyswllt Ffermio ar 08456 000 813 i gael rhagor o wybodaeth. |

**Atodiad 6 – Mesurau buddsoddi y Cynllun Datblygu Gwledig sy'n berthnasol i leihau llygredd amaethyddol**

Cynllun Grant Cynhyrchu Cynaliadwy

Nod y Cynllun Grant Cynhyrchu Cynaliadwy yw rhoi buddsoddiad cyfalaf i gyfleusterau ac offer sy'n ymwneud â'r canlynol:

- iechyd a llesiant anifeiliaid
- storio cnydau
- cyfleusterau cynhyrchu a thrafod cynnyrch
- cynhyrchu ynni adnewyddadwy
- rheoli pridd a chnydau

Y gyfradd grant uchaf ar gyfer prosiect buddsoddi unigol yw 40% o gyfanswm y gost buddsoddi, waeth beth fo maint y fenter a'r lleoliad. Y trothwy grant uchaf i bob menter ar gyfer unrhyw brosiect buddsoddi unigol yw £400,000, a’r trothwy isaf yw £16,000. Dim ond un dyfarniad grant fesul menter fydd yn cael ei wneud o'r cyfnod rhwng 29 Gorffennaf 2015 a 31 Rhagfyr 2020.

Mae'r cynllun yn agored i ffermwyr, perchnogion tir, busnesau bach a chanolig a busnesau mawr, sefydliadau gwirfoddol, a chwmni cydweithredol sy'n rhan o'r gwaith cynradd o greu cynhyrchion amaethyddol.Gwahoddir ceisiadau gan bob sector ym maes ffermio, gan gynnwys tir âr, cig eidion, llaeth, geifr, moch, dofednod, defaid, garddwriaeth (gan gynnwys hydroponeg ac acwaponeg), a chadw gwenyn.

Mae cyfanswm o dair ffenestr ar gyfer ymgeisio wedi cael eu hagor hyd yma – gyda £14 miliwn wedi'i ddyfarnu i 81 o ffermydd.

Ymhlith y mathau o brosiectau sy'n berthnasol i gynhyrchiad amaethyddol y gellid eu cefnogi o dan themâu buddsoddi y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy yw'r rhai a restrir o dan "Seilwaith Cynhyrchu, Tai a Thrafod", sef:

*Mae cael cyfleusterau tai a thrafod effeithiol ar gyfer da byw ac adeiladau i warchod gwaith cnydio*

*yn hanfodol i unrhyw fusnes ffermio. Gall hyn arwain at effeithlonrwydd yn y system*

*gynhyrchu, yn ogystal ag iechyd a diogelwch gwell. Dylai'r holl gyfleusterau tai ddangos bod seilwaith ynni, dŵr a rheoli maethynnau priodol yn cael ei ystyried fel rhan o'r cais.*

*Dyma enghreifftiau o eitemau y gellid eu cynnwys mewn cynnig buddsoddi:*

- *Systemau trin da byw*
- *Tai allan ar gyfer da byw – dangos sut y bydd y tai yn cynnig y cyfleusterau mwyaf effeithlon sy'n gysylltiedig â'r themâu trawsbynciol*
- *Seilwaith cynhyrchu cnydau, e.e. tai gwydr, systemau hydroponeg*
- *Offer trin arbenigol ym maes garddwriaethol*

- *Storfeydd slyri/tail – dylai'r rhain fod â digon o gapasiti storio ar gyfer pum mis*
- *a bodloni Rheoliadau Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol 2010*
- *Seiliwaith cynhyrchu llaeth, e.e. tai godro, tanciau llaeth, offer llaeth*

Grant Busnes i Ffermydd

Lansiwyd y Grant Busnes i Ffermydd yn 2017, ac mae wedi'i gynllunio i helpu ffermwyr i wella perfformiad economaidd ac amgylcheddol eu ffermydd. Mae'n darparu cyfraniad o 40% tuag at fuddsoddiadau cyfalaf mewn cyfarpar a pheirianwaith y rhagnodwyd eu bod yn cynnig buddion clir a mesuradwy i fentrau ffermio.

Rydym yn deall o wefan Llywodraeth Cymru y bydd cyfanswm o £40 miliwn o gyllid ar gael dros y pedair blynedd nesaf. Y grant lleiaf sydd ar gael yw £3,000 a'r grant mwyaf £12,000 (byddai'r olaf yn cyfateb i uchafswm o £30,000 o fuddsoddiad fesul fferm).Dim ond un cais fesul busnes y gellir ei gymeradwyo trwy gydol oes y cynllun. Mae tair ffenestr ar gyfer ymgeisio wedi bod hyd yn hyn.

Glastir Uwch

Nod Glastir Uwch yw darparu gwelliannau i'r amgylchedd ar gyfer amrywiaeth o nodau, gan gynnwys cynefinoedd, rhywogaethau, pridd a dŵr, ac mae ar gael i ffermwyr a rheolwyr tir eraill. Mae cymorth ariannol wedi'i dargedu at leoliadau penodol, lle bydd camau gweithredu'n cyflawni'r canlyniadau gorau posibl. Mae'r broses dargedu yn seiliedig ar ddefnyddio cyfres o fapiau System Gwybodaeth Ddaearyddol. Caiff ardaloedd gwahanol o Gymru eu targedu ar gyfer nodau penodol, gydag opsiynau rheoli penodol a gwaith cyfalaf ar gael er mwyn helpu i gyflawni'r canlyniadau angenrheidiol.

Mae contractau Glastir Uwch yn dechrau ar 1 Ionawr bob blwyddyn, ac maent yn para am gyfnod o bum mlynedd. Nid oes angen cymryd rhan mewn Glastir Sylfaenol bellach er mwyn cael mynediad at Glastir Uwch.

Mae data a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn dangos bod ymrwymiadau o dan opsiynau Glastir Uwch o ran ansawdd dŵr (Ardal Ffocws 4B) yn cynnwys 919 o gyfeirnodau cwsmer gydag ymrwymiadau rheoli blynyddol, yn ogystal â 666 o gyfeirnodau cwsmer gyda gwaith cyfalaf. Mae ymrwymiadau blynyddol yn cwmpasu 8,960 hectar o dir, ac mae dros 3,340 o eitemau cyfalaf. Mae samplu'r pridd, gwaith ar ffiniau caeau, gosod wyneb caled, a gosod cafnau a pheipiau glaw ymhlith rhai o'r prosiectau cyfalaf a ddefnyddir mwyaf aml.

Rhan allweddol o Glastir Uwch yw defnyddio mapiau sy'n seiliedig ar System Gwybodaeth Ddaearyddol, sy'n galluogi gweinyddwyr y prosiect i drafod contractau sy'n bodloni blaenoriaethau amgylcheddol pob ardal. Yn achos ansawdd dŵr, mae'r mapiau hyn yn galluogi i argymhellion penodol gael eu trafod, sy'n gallu helpu i liniaru'r risg o lygredd amaethyddol ar fuarthau, yn ogystal â gwaith maes megis lleiniau clustogi, gwrychoedd newydd, plannu coed, troi tir âr yn laswelltir, a lleihau

mewnbynnau amaethyddol / niferoedd da byw mewn lleoliadau sensitif o fewn dalgylchoedd penodol.

Mae cyfyngiadau o ran adnoddau yn golygu bod y mapiau targedu ansawdd dŵr presennol yn seiliedig ar ddadansoddiad a gwblhawyd yn 2012. Ystyr hyn yw nad yw'r mapiau'n ystyried data o Gylch 2 y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, ac felly mae'n bosibl nad ydynt yn ystyried materion mwy diweddar o ran llygredd amaethyddol.

Grantiau Bach Glastir

Mae'r cynllun grant cyfalaf annibynnol hwn yn cyfrannu at gyflawni dyheadau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, gwella'r ffordd y caiff dŵr ei reoli, adfer nodweddion traddodiadol o'r dirwedd, a gwella cysylltiadau rhwng cynefinoedd i beillwyr.

Mae'r cynllun yn cynnwys tair thema:

Carbon – helpu i gyflawni dyheadau Llywodraeth Cymru o gynyddu atafaeliad carbon

- Dŵr – gwella ansawdd dŵr a lleihau'r risg o lifogydd
- Tirwedd a Pheillwyr – cynnal nodweddion traddodiadol y dirwedd yng Nghymru, a rhoi
  cysylltiadau rhwng cynefinoedd i bryfed peillio

Dechreuodd y ceisiadau cychwynnol ar gyfer rownd gyntaf y thema garbon yn 2016, gyda'r holl brosiectau i'w cwblhau a'u hawlio erbyn 31 Mawrth 2018.

Dechreuodd rownd gyntaf y thema dŵr yn 2016, a roddwyd contractau o fis Ebrill 2017. Mae'n rhaid cwblhau pob darn o waith a'i hawlio erbyn 31 Mawrth 2018.

Dechreuodd rownd gyntaf y thema tirwedd a pheillwyr yn 2017, gyda'r holl brosiectau i'w cwblhau a'u hawlio erbyn 31 Mawrth 2018.

Gwybodaeth am y ffenestr gyfredol.

I ddechrau, gosodwyd yr uchafswm cyllid fesul fferm o dan bob un o'r themâu grant ar £5,000 ar gyfer y thema carbon, er y cafodd hyn ei gynyddu i £7,500 ar gyfer dŵr a hefyd ar gyfer tirwedd a pheillwyr. Dim ond yn ystod ffenestr ymgeisio benodol y mae'r terfyn uchaf fesul fferm yn berthnasol. Mewn theori, os yw fferm wedi'i dewis ar gyfer cyllid llawn ym mhob un o'r tair ffenestr ar gyfer ymgeisio, byddai'r taliad yn £20,000.

Ni all ffermwyr sy'n dal contract Glastir Uwch wneud cais am Grantiau Bach Glastir.

Mae'r thema dŵr yn arbennig o berthnasol o ran lleihau'r risg o lygredd amaethyddol, a rhestrir isod y prif waith cyfalaf sydd ar gael o dan y rownd ymgeisio ddiweddaraf. Yn amlwg, mae rhywfaint o'r gwaith cyfalaf wedi'i gyfeirio at reoli llygredd yn fwy nag

eraill (e.e. nwyddau dŵr glaw) tra bo effeithiau gosod a rheoli gwrychoedd yn dibynnu'n fwy ar leoliad (ac yn aml maent yn canolbwyntio'n fwy ar leihau risgiau o lifogydd yn hytrach na rheoli ansawdd y dŵr).

Rhan allweddol o'r broses o wneud cais am Grantiau Bach Glastir yw defnyddio mapiau electronig sy'n dangos "tebygolrwydd dewis" ledled Cymru ar gyfer pob un o'r gwaith cyfalaf a restrir uchod. Mae'r mapiau hyn yn seiliedig ar y risgiau i ansawdd y dŵr a'r tebygolrwydd o lifogydd ym mhob lleoliad – ynghyd ag asesiad o'r graddau y mae pob math o waith cyfalaf yn debygol o gyfrannu at liniaru'r risgiau.

O ran ychwanegu eitemau cyfalaf at y rhai sydd eisoes ar gael, byddai darparu'r feillionen goch a hadau cnydau eraill sy'n sefydlogi nitrogen yn helpu i leihau mewnbynnau o wrtaith ac yn cefnogi peillwyr hefyd.

Creu Coetir Glastir

Mae gwaith ymchwil a wnaed yng Nghymru a mannau eraill wedi dangos pa mor effeithiol y gall coed fod o ran gwella ansawdd afonydd, cynyddu llifau isel, a lleihau effaith dŵr ffo o stormydd a llygredd gwasgaredig. Gellir cyflawni manteision mawr hyd yn oed gyda chynlluniau plannu bach (cyn belled â bod y rhain wedi'u lleoli'n briodol), a gellir gosod llawer ohonynt heb effeithio ar weithgareddau ffermio.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i blannu mwy o goed yng Nghymru, drwy'r cynllun Creu Coetir Glastir, er mwyn darparu amrywiaeth eang o fanteision, gan gynnwys rhoi cysgod ar gyfer da byw ac adeiladau ar gyfer cyfnodau o dywydd garw, sefydlu cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt, a lleihau'r risg o lifogydd i lawr yr afon a siltio mewn cyrsiau dŵr. Mae cymorth ariannol yn targedu'r lleoliadau hynny lle na fydd plannu coed yn cael effaith ar gynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Map Cyfleoedd Creu Coetir Glastir <http://lle.gov.wales/catalogue/item/GlastirWoodlandCreationOpportunitiesMap> ar borth Lle - mae hwn yn rhoi gwybodaeth i ymgeiswyr ynghyd pa mor addas yw unrhyw safle arfaethedig ar gyfer plannu o'r newydd.

Mae dwy ffenestr i gynnig datganiadau o ddiddordeb ar gyfer Creu Coetir Glastir wedi bod yn 2017. Daeth y ffenestr gyntaf i ben ar 1 Mai 2017, a bydd yr ail ffenestr yn agor ym mis Awst 2017. Caiff pob ymgais ei sgorio yn erbyn haenau System Gwybodaeth Ddaearyddol y cynllun Creu Coetir Glastir. Unwaith y bydd pob datganiad o ddiddordeb llwyddiannus wedi'i gadarnhau, mae'n rhaid i ymgeiswyr ddefnyddio cynllunydd coetir cofrestredig sy'n aelod o sefydliad proffesiynol (mae'r rhan fwyaf o gynllunwyr yn aelodau o Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig). Mae'r cynllunwyr yn ysgrifennu cynllun rheoli, y mae'n rhaid iddo gydymffurfio â rheolau'r cynllun a Safon Coedwigaeth y DU.

Mae cymhlethdod deddfwriaeth tenantiaeth yn rhwystr sy'n atal ffermwyr rhag cyfranogi at nod Llywodraeth Cymru o ehangu coetiroedd ar ffermydd. Perchennog y tir sy'n parhau'n gyfrifol am goed sy'n bodoli'n barod a rhai a blannwyd gan y tenant. Ar y cyd â hyd byr sawl tenantiaeth busnes fferm (sef ar hyn o bryd yn bedair blynedd ar gyfartaledd yn unig), prin yw'r cymhelliant ar gyfer tenantiaid i fanteisio ar gynlluniau grant o'r fath.

Y Cynllun Rheoli Cynaliadwy

Mae'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy yn cynnig grantiau i grwpiau cydweithredol sydd am wneud y canlynol:

- gwella adnoddau naturiol a'r manteision maent yn eu rhoi
- cymryd camau i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr
- gwella gwydnwch busnesau a chymunedau yn erbyn effeithiau newid hinsawdd

Gall grantiau amrywio o leiafswm o £10,000 i uchafswm o £5,000,000 er mwyn helpu i gychwyn a hwyluso cydweithrediadau newydd hyd at uchelgais ar raddfa'r dirwedd, gan gydlynu camau gweithredu a mewnbwn gan sawl parti i sicrhau buddion parhaol ar draws ein cymunedau. Y gyfradd grant uchaf ar gyfer unrhyw brosiect buddsoddi unigol yw 100% o gyfanswm y costau.

Mae'r cynllun ar agor i amrywiaeth eang o gydweithrediadau, a wnaed o amrediad o unigolion a sefydliadau, gan gynnwys:

- busnesau bach a chanolig a busnesau mawr, sefydliadau addysgu neu ymchwil
- ffermwyr, coedwigwyr, rheolwyr tir eraill
- grwpiau cymunedol neu wirfoddol (gan gynnwys pob sefydliad anllywodraethol), cymdeithasau perchnogion, coetiroedd cymunedol, ymddiriedolaethau
- awdurdodau lleol

O'r cynigion a gyflwynwyd hyd yma ar gyfer y Cynllun Rheoli Cynaliadwy, prosiect BRICS (Adeiladu Gwydnwch mewn Dalgylchoedd) yn Sir Benfro yw'r mwyaf perthnasol er mwyn mynd i'r afael â llygredd amaethyddol. Mae'r cais hwn yn cynnwys rhaglen gydweithredol uchelgeisiol ar raddfa dirwedd, gan ddwyn at ei gilydd partneriaid o'r gadwyn gyflenwi yn ei chyfanrwydd ynghyd â rheolwyr tir, y diwydiant, rheolwyr cadwraeth a chymunedau lleol, sef:

*Mae BRICS yn cynnwys gweithio mewn tri is-ddalgylch amrywiol (tua 100 o ffermydd i gyd) i ddatblygu cynlluniau lliniaru newid hinsawdd a chamau gweithredu i wella rheoli pridd, rheoli dŵr a mesurau cynefin cysylltiedig. Mae'r is-ddalgylchoedd arfaethedig wedi'u lleoli yng nghronfa ddŵr Llys-y-frân (llaeth/cymysg), Pelcomb Brook (llaeth/cymysg) a Chors Winterton (tir âr) ac fe'u dewiswyd i warchod y mewnlif o ddŵr yfed ac i alluogi datblygiad masnachol pellach.*

*Bydd mesurau a dargedir, megis mapio maethynnau pridd, ffermio manwl a gwlypdiroedd wedi'u hadeiladu, o fudd i ffermydd yn economaidd yn ogystal ag yn amgylcheddol, gan greu diwylliant arweinydd busnes gyda chydnabyddiaeth reoleiddiol a enillir. Bydd gwelliannau'n cael eu mesur yn ariannol ac yn amgylcheddol drwy fodelu a dadansoddi.*

Ar hyn o bryd, mae'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy wedi'i rhestru "ar gau" ar wefan Llywodraeth Cymru, ond â dyddiadau ar gyfer datganiadau o ddiddordeb yn y dyfodol "i'w cadarnhau".[23]

Byddai'n werth archwilio cymarebau cost a budd a gwerth am arian cynlluniau megis BRICS (Adeiladu Gwytnwch mewn Dalgylchoedd) o'u cymharu â dulliau amaeth-amgylcheddol mwy traddodiadol. Er enghraifft, ni all BRICS ddarparu dulliau a gynigir o dan unrhyw gynllun amaeth-amgylcheddol arall megis Glastir.

[23] https://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/cap/ruraldevelopment/wales-rural-development-programme-2014-2020/?skip=1&lang=cy